



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 4 Mai 2010
Tuesday, 4 May 2010**

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
29	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
31	Llythrennedd Literacy
49	Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy The Sustainable Development Annual Report
63	Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog. **The Presiding Officer:** Order for questions to the First Minister

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Funding for Education

Q1 Mick Bates: What factors does the Welsh Assembly Government take into consideration when allocating funding to local authorities for education? OAQ(3)2831(FM)

The First Minister (Carwyn Jones): Our priorities remain as set out in the 'One Wales' agreement, and the expenditure sub-group provides the mechanism for discussing with local government the range of funding pressures that it faces.

Mick Bates: The recent deep rural localities report highlighted that the one key problem facing rural areas is the centralisation of services. According to the report, 75 per cent of respondents consider their school to be essential in their local area, yet, in Powys, funding difficulties are forcing schools to consider merging and centralising to cut costs. This will mean large increases in travel for pupils, more pressure on parents, and problems in accessing after-school clubs, as well as threatening community cohesion and the sustainability of our rural communities. Would you agree that the current problems facing Powys expose the weakness in your current funding criteria for education, as they do not recognise that a one-size-fits-all solution does not work? What may work in an urban area often is not the solution for rural Powys.

The First Minister: You must take that up with Powys County Council, which is responsible for organising education in Powys. Out of the 22 local authorities in Wales, Powys ranks twelfth for funding, so it is neither at the bottom nor at the top. Funding will follow the pupils, and Powys faces challenges due to falling pupil numbers.

Cyllid ar gyfer Addysg

C1 Mick Bates: Pa ffactorau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu hystyried wrth ddyrannu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer addysg? OAQ(3)2831(FM)

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Yr un yw ein blaenoriaethau o hyd â'r rhai a geir nghytundeb 'Cymru'n Un', ac mae'r is-grŵp gwariant yn cynnig y mecanwaith ar gyfer trafod gyda llywodraeth leol y gwahanol bwysau ariannol y mae'n eu hwynebu.

Mick Bates: Dangosodd yr adroddiad yn ddiweddar ar ardaloedd gwledig anghysbell mai'r un broblem allweddol sy'n wynebu'r ardaloedd hyn yw canoli gwasanaethau. Yn ôl yr adroddiad, mae 75 y cant o'r rhai a atebodd yn meddwl bod eu hysgol yn hanfodol yn eu hardal leol. Eto i gyd, ym Mhowys, mae anawsterau ariannu'n gorfodi ysgolion i ystyried uno a chanoli er mwyn torri costau. Bydd hyn yn golygu llawer mwy o deithio i ddisgyblion, mwy o bwysau arieni, a phroblemau o ran mynd i glybiau ar ôl yr ysgol, yn ogystal â bygwth cydlyniant a chynaliadwyedd ein cymunedau gwledig. A gytunech fod y problemau sy'n wynebu Powys ar hyn o bryd yn dangos y gwendid yn eich meini prawf ariannu presennol ar gyfer addysg, gan nad ydynt yn cydnabod nad yw'r un peth i bawb yn gweithio? Yn aml, nid yr hyn sy'n gweithio mewn ardal drefol yw'r ateb i Bowys wledig.

Y Prif Weinidog: Rhaid ichi godi hynny gyda Chyngor Sir Powys, sy'n gyfrifol am drefnu addysg ym Mhowys. O blith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, Powys yw'r deuddegfed o ran ariannu, ac felly nid yw nac ar y gwaelod nac ar y brig. Bydd yr ariannu'n dilyn y disgyblion, ac mae Powys yn wynebu anawsterau oherwydd bod niferoedd

However, ultimately, the structure of education in Powys is a matter for the county council.

Rhodri Glyn Thomas: Mae gennyf broblemau digon tebyg i'r hyn a godwyd gan Mick Bates, sef ysgolion uwchradd cymharol fach o ran niferoedd, a chyda nifer y disgyblion yn lleihau. Fel y gwyddoch, mae cynlluniau yn sir Gaerfyrddin i leihau nifer yr ysgolion uwchradd yng nghwm Gwendraeth ac yn nyffryn Tywi o bump i dri. Yn y cyfamser, mae'n rhaid i'r ysgolion bach hyn barhau i gynnig y cwricwlwm cenedlaethol i'w disgyblion. Mae hyn yn debygol o fynd ymlaen am beth amser oherwydd, os oes gwrthwynebiad i'r newidiadau sy'n cael eu hargymell gan yr awdurdod, bydd yn rhaid iddo fynd i apêl, i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn y pen draw. A oes rhywbeth y gallwch ei wneud fel Llywodraeth i geisio cynorthwyo'r ysgolion hyn gydag arian trosiannol yn y cyfnod anodd hwn sy'n eu hwynebu dros y flwyddyn neu ddwy nesaf?

Y Prif Weinidog: Mae hwn yn fater i'r awdurdodau lleol. Yr ydym yn dweud bod angen sicrhau bod ysgolion yn cael eu rheoli'n lleol, ac mae hyn yn rhan o hynny. Lle mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd, rhaid gwneud hynny'n lleol hefyd. Ni allaf ddweud dim am unrhyw ardal o Gymru lle y gallai apêl ddigwydd nes ein bod yn gwybod beth yw cynlluniau'r sir ac a fyddai apêl yn codi o'r herwydd.

Paul Davies: Rhaid inni edrych yn fwy manwl ar y broses ariannu ar gyfer disgyblion gydag anghenion arbennig. Yr wyf wedi cael nifer o sylwadau gan rieni ar y mater hwn, ac mae'n hanfodol bod cyllid i ddisgyblion o'r fath yn gyson i sicrhau'r chwarae teg y maent yn ei haeddu. Yr wyf yn derbyn bod eich Gweinidog wedi cyhoeddi arian ychwanegol ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig yn ddiweddar, ond yn ôl yr ysgol anghenion arbennig yn fy etholaeth i, nid yw hyn yn ddigonol. A allwch ddweud wrthym ar ba sail y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu ysgolion fel hyn? A allwch adolygu'r mater hwn i sicrhau'r chwarae teg yr ydych bob amser yn siarad amdano?

disgyblion yn gostwng. Fodd bynnag, yn y pen draw, mater i'r cyngor sir yw strwythur addysg ym Mhowys.

Rhodri Glyn Thomas: I have similar enough problems to the one that Mick Bates raised, namely relatively small number of secondary schools, and the number of pupils on the decrease. As you know, there are plans in Carmarthenshire to reduce the number of secondary schools in the Gwendraeth and Towy valleys from five to three. In the meantime, these small schools must continue to offer the national curriculum to their pupils. This is likely to continue for some time because, if there are objections to the changes being recommended by the authority, the matter will eventually have to go to appeal, to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning. Is there anything you can do as a Government to try to assist these schools with transitional funding during the difficult times they face over the next year or two?

The First Minister: This is a matter for local authorities. We say that we need to ensure that schools are managed locally, and this is part of that. Where difficult decisions must be taken, they must be taken locally, too. I cannot say anything about any area of Wales where an appeal is likely until we know what the county's plans are and whether an appeal would arise as a result.

Paul Davies: We must look more closely at the funding system for pupils with special needs. I have had several representations from parents on this issue, and it is essential that funding for such pupils is consistent to ensure they get the fair play they deserve. I accept that your Minister has recently announced extra funding for pupils with special needs, but according to the special needs school in my constituency, this is not sufficient. Can you tell us the basis on which the Assembly Government funds schools like this? Can you review this matter to ensure they get the fair play that you are always talking about?

Y Prif Weinidog: Mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i edrych ar wariant ar addysg. Mae'n siŵr gennyf y gwnaiff canlyniadau'r adolygiad hwnnw godi cwestiynau ynglŷn â chyllido ym mhob rhan o ysgolion ac addysg mewn ysgolion yng Nghymru.

Alun Davies: It is always important to keep in mind that this Government spends £830 per head on education in Wales, which is far higher than the £814 per head spent across the border. However, we still have to maintain a focus on ensuring that funding reaches the front line. The education funding review will be an important part of this Government's commitment to ensuring that funding reaches the front line. Do you agree, First Minister, that at the same time, we need to ensure that local government also collaborates to ensure that these essential services are protected at all times, and that money is saved in order to be spent in the classroom?

The First Minister: It is important to emphasise that we must look at a structure for education in Wales that fits the twenty-first century, not the nineteenth century. Inevitably, school closures cause a great deal of heartache in communities. I understand that; particularly where schools have been in place for a number of years. However, it is important that schools are able to satisfy all the educational and social needs of children, and that inevitably means that there will be further school closures in future. We know that, and we know that there are, by some estimates, 100,000 surplus places in Wales. This means that there will have to be some rationalisation, but that does not mean that education gets worse. I am aware of many examples—in the Amman valley and mid-Ceredigion, for example—where two or three schools have closed, but a brand-new school has been built in their place not too far away from the original schools. The new schools have fantastic facilities and they are marvellous places to teach and to learn in. That is the way we should be looking when it comes to building new educational buildings for the twenty-first century.

The First Minister: A review is currently under way to look at expenditure on education. I am sure that the results of that review will raise questions about every aspect of funding for schools and school-based education in Wales.

Alun Davies: Mae'n bwysig inni gadw mewn cof o hyd fod y Llywodraeth hon yn gwario £830 y pen ar addysg yng Nghymru, sy'n uwch o lawer na'r £814 y pen a weridros y ffin. Serch hynny, rhaid inni ddal i ganolbwyntio ar sicrhau bod yr arian yn cyrraedd y rheng flaen. Bydd yr arolwg ariannu addysg yn rhan bwysig o ymrwymiad y Llywodraeth hon i sicrhau bod arian yn cyrraedd y rheng flaen. A gytunwch, Brif Weinidog, fod angen inni, ar yr un pryd, sicrhau bod llywodraeth leol hefyd yn cydweithio er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hanfodol hyn yn cael eu gwarchod o hyd, a bod arian yn cael ei arbed er mwyn ei wario yn yr ystafell ddosbarth?

Y Prif Weinidog: Mae'n bwysig pwysleisio bod yn rhaid inni edrych ar strwythur ar gyfer addysg yng Nghymru sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, nid ar gyfer y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n anochel bod cau ysgolion yn achosi poen meddwl mawr mewn cymunedau. Yr wyf yn deall hynny; yn enwedig pan fydd ysgolion wedi bod yno ers blynyddoedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i ysgolion allu diwallu anghenion addysgol a chymdeithasol plant, ac mae hynny'n anochel yn golygu y bydd mwy o ysgolion yn cau yn y dyfodol. Gwyddom hynny, a gwyddom, yn ôl rhai amcangyfrifon, fod 100,000 o leoedd gwag yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid rhesymoli rhywfaint, ond nid yw hynny'n golygu bod addysg yn gwaethygu. Yr wyf yn gwybod am lawer o enghreifftiau—yn Nyffryn Aman ac yng nghanol Ceredigion, er enghraifft—lle y mae dwy neu dair o ysgolion wedi cau, ond ysgol newydd sbon wedi'i chodi yn eu lle, heb fod yn rhy bell oddi wrth safle'r ysgolion gwreiddiol. Mae cyfleusterau gwych yn yr ysgolion newydd ac maent yn fannau rhagorol i addysgu a dysgu ynddynt. Dyna sut y dylem fod yn edrych ar bethau pan fyddwn yn mynd ati i godi adeiladau addysgol newydd ar gyfer yr unfed ganrif ar

hugain.

Vulnerable Groups

Q2 Mark Isherwood: Will the First Minister make a statement on Welsh Assembly Government policies to help vulnerable groups? OAQ(3)2824(FM)

The First Minister: Our strategy, 'Fulfilled Lives, Supportive Communities', sets out policies to support vulnerable groups.

Mark Isherwood: Regrettably, with rising levels of fuel poverty, the Welsh Government will not meet its targets to eradicate fuel poverty in vulnerable households by 2010. Will the Welsh Government therefore make a statement committing itself to meeting this target, detailing its actions and when it will do it?

The First Minister: The definition of someone in fuel poverty is someone who spends at least 10 per cent of their income on fuel. We are keen to ensure that fuel poverty is dealt with and that we meet our targets. We are working with providers and other groups to ensure that that target is met.

Brian Gibbons: Roy Thomas, chair of the Kidney Wales Foundation, said that being ill leaves you vulnerable and worried about the future. The report published by Public Health Wales commends the benefits of the free prescriptions scheme that we have in Wales. Would you like to confirm that the Welsh Assembly Government does not accept that the free prescriptions scheme is a gimmick, but believes that it is making a real contribution to public health in Wales?

The First Minister: I very much accept your point. As I have said before in this Chamber, a number of people who were looking to go back to work could not because of the cost of prescriptions that they would incur, as they would no longer qualify for free prescriptions. As a result of our free prescriptions scheme, many people are now back in work and they do not have to worry

Grwpiau Agored i Niwed

C2 Mark Isherwood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu grwpiau agored i niwed? OAQ(3)2824(FM)

Y Prif Weinidog: Mae ein strategaeth, 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol', yn cynnwys polisiau i gynorthwyo grwpiau agored i niwed.

Mark Isherwood: Yn anffodus, wrth inni weld mwy o dlodi tanwydd, ni wnaiff Llywodraeth Cymru gyrraedd ei thargedau i ddileu tlodi tanwydd ar aelwydydd agored i niwed erbyn 2010. A wnaiff Llywodraeth Cymru felly wneud datganiad i ymrwymo i gyrraedd y targed hwn, gan fanylu ynglŷn â'r camau a gymerir a pha bryd?

Y Prif Weinidog: Yn ôl y diffiniad, rhywun sy'n dlawd o ran tanwydd yw rhywun sy'n gwario o leiaf 10 y cant o'i incwm ar danwydd. Yr ydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd a'n bod yn cyrraedd ein targedau. Yr ydym yn gweithio gyda darparwyr a chyda grwpiau eraill i sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed hwnnw.

Brian Gibbons: Dywedodd Roy Thomas, cadeirydd Sefydliad yr Arennau yng Nghymru, fod salwch yn peri eich bod yn agored i niwed ac yn poeni am y dyfodol. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn canmol manteision y cynllun presgripsiynau am ddim sydd gennym yng Nghymru. A hoffech gadarnhau nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn mai gimic yw'r cynllun presgripsiynau am ddim, ond ei bod yn credu ei fod yn cyfrannu o ddifrif at iechyd y cyhoedd yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Derbyniaf eich pwynt yn llwyr. Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen yn y Siambr hon, yr oedd nifer o bobl a oedd yn dymuno dychwelyd i'r gwaith yn methu gwneud hynny oherwydd faint y byddai'n rhaid iddynt ei dalu am bresgripsiynau, gan na fyddent yn gymwys rhagor i gael presgripsiynau am ddim. Yn sgîl ein cynllun presgripsiynau am ddim, mae llawer o bobl

about the cost of medication acting as a barrier to them going back to work.

bellach yn ôl yn y gwaith ac nid oes yn rhaid iddynt boeni bod cost moddion yn eu rhwystro rhag dychwelyd i weithio.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): Good afternoon, First Minister. I am sure that you will accept that pensioners are one vulnerable group in our society. There are approximately 640,000 pensioners in Wales. In February of this year, Ieuan Wyn Jones claimed, on the Plaid Cymru website, that the number of pensioners living in poverty had risen sharply to almost 160,000; that is one in four. What is your Government doing about that worrying figure?

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Prynawn da, Brif Weinidog. Yr wyf yn siŵr y derbyniwch mai pensiynwyr yw un o'r grwpiau agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae tua 640,000 o bensiynwyr yng Nghymru. Ym mis Chwefror eleni, honnodd Ieuan Wyn Jones, ar wefan Plaid Cymru, fod nifer y pensiynwyr sy'n byw mewn tlodi wedi cynyddu'n sydyn a hynny i 160,000 bron iawn; sef un o bob pedwar. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud ynglŷn â'r ffigur hwnnw sy'n destun pryder?

The First Minister: I do not believe that I am responsible for the Plaid Cymru website.

Y Prif Weinidog: Ni chredaf fy mod yn gyfrifol am wefan Plaid Cymru.

Nick Bourne: These are official figures. He was only commenting on an official figure, namely that 160,000 pensioners are living in poverty; that is, below 60 per cent of national average wage. It is a serious issue. What are you doing about it? Clearly, we want to continue with the benefits that already exist, contrary to some of the claims made by your party, such as keeping the winter fuel payment and keeping free bus passes. [Interruption.] Contrary to what the First Minister wants, we would extend them to England as well. They would include free TV licences, the pension credit, and free prescriptions for pensioners, as is done in England under Labour. Given that they will be retained, contrary to some of the literature that you are putting out disreputably, what are you doing about the serious fact that one in four pensioners is living in poverty in Wales today?

Nick Bourne: Mae'r rhain yn ffigurau swyddogol. Sôn am ffigur swyddogol yr oedd, dyna i gyd, sef bod 160,000 o bensiynwyr yn byw mewn tlodi; hynny yw, o dan 60 y cant o'r cyflog cenedlaethol cyfartalog. Mae'n fater difrifol. Beth yr ydych yn ei wneud yn ei gylch? Mae'n amlwg ein bod am barhau â'r budd-daliadau sy'n bodoli eisoes, yn groes i rai o'r honiadau gan eich plaid chi, megis cadw'r taliad tanwydd gaeaf a chadw tocynnau teithio ar fysiau am ddim. [Torri ar draws.] Yn groes i'r hyn y mae'r Prif Weinidog am ei gael, byddem yn eu hymestyn i Loegr hefyd. Byddent yn cynnwys trwyddedau teledu am ddim, y credyd pensiwn, a phresgripsiynau am ddim i bensiynwyr, fel y gwneir yn Lloegr o dan Lafur. O gofio y cedwir y rhain, yn groes i rywfaint o'r llenyddiaeth a rennir gennych er mawr gywilydd ichi, beth yr ydych yn ei wneud ynglŷn â'r ffaith ddifrifol bod un pensiynwr o bob pedwar yn byw mewn tlodi yng Nghymru heddiw?

1.40 p.m.

The First Minister: You have just announced a string of Labour policies that your Government before 1997 did nothing to implement, such as the winter fuel allowance, pension tax credits and free bus passes—all areas that the Tories never dealt with. We know, however, that your party cut the link between pensions and earnings—I am not trying to bring the general election into the

Y Prif Weinidog: Yr ydych newydd gyhoeddi rhestr o bolisiau Llafur na wnaeth eich Llywodraeth chi cyn 1997 ddim i'w rhoi ar waith, megis y lwfans tanwydd gaeaf, credydau treth pensiwn a thocynnau teithio am ddim ar fysiau—mae'r rheini i gyd yn feysydd nad aeth y Torïaid erioed i'r afael â hwy. Gwyddom, fodd bynnag, i'ch plaid chi dorri'r cysylltiad rhwng pensiynau ac

Chamber, of course, Llywydd—and I am aware that other parties in the Chamber would wish to see that link restored.

Nick Bourne: If you had seen our manifesto—and it is clear that you have not, because if you had you would not be making misleading claims—you would see that we have the same policy to restore it. It did not exist for 13 years under the Conservative Party, and nor did it exist for 13 years under Labour. Let us be clear about that. We have pledged to restore it, just as you have—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order.

Nick Bourne: The issue that I have asked you to address is this: what are you doing to help pensioners in relation to the serious position in Wales, which is far more serious than in other parts of the country? We have pledged, for example, to introduce a 30 per cent discount on council tax for pensioners, as that is one of their biggest bills. What are you going to do about council tax? Have you pledged to do the same for pensioners as we have on council tax?

The First Minister: How will you pay for that? It makes no more sense to reduce council tax for all pensioners than it does to reduce it for other groups. The issue of pensioners in poverty is one thing, but you are referring to all pensioners. We take the view that we want to be generous to our pensioners, and we also take the view that we want to target support at those pensioners who particularly need it. That does mean support in the form of council tax benefit, the winter fuel allowance and pension credits—all the areas that have made a new real difference to pensioners in Wales. That is something that I hear time and again on people's doorsteps.

Nick Bourne: You would also hear, if you had been on people's doorsteps, as I have, that council tax is a massive bill for most pensioners. We have a wholesale policy of

enillion—nid wyf yn ceisio dod â'r etholiad cyffredinol i'r Siambr, wrth gwrs, Lywydd—a gwn y byddai pleidiau eraill yn y Siambr yn dymuno gweld y cysylltiad hwnnw'n cael ei adfer.

Nick Bourne: Petaech wedi gweld ein maniffesto—ac mae'n amlwg nad ydych, oherwydd petasech, ni fydddech yn honni pethau camarweiniol—gwelech mai'r un polisi sydd gennym ni, sef ei adfer. Nid oedd yn bodoli am 13 blynedd o dan y Blaid Geidwadol, ac nid oedd yn bodoli ychwaith am 13 blynedd o dan Lafur. Gadewch inni fod yn glir ynglŷn â hynny. Yr ydym wedi addo ei adfer, yn union fel yr ydych chi—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn.

Nick Bourne: Y mater yr wyf wedi gofyn ichi sôn amdano yw hyn: beth yr ydych yn ei wneud i gynorthwyo pensiynwyr o ran y sefyllfa ddifrifol yng Nghymru, sy'n fwy difrifol o lawer nag mewn rhannau eraill o'r wlad? Yr ydym wedi addo, er enghraifft, y byddwn yn cyflwyno gostyngiad o 30 y cant ar y dreth gyngor i bensiynwyr, gan mai dyna un o'u biliau mwyaf. Beth yr ydych chi am ei wneud am y dreth gyngor? A ydych chi wedi addo gwneud yr un peth i bensiynwyr ag yr ydym ni ynglŷn â'r dreth gyngor?

Y Prif Weinidog: Sut y talwch am hynny? Nid yw gostwng y dreth gyngor i bob pensiynwr yn gwneud mwy o synnwyr nag y mae ei gostwng i bob grŵp arall. Un peth yw pensiynwyr mewn tlodi, ond yr ydych yn sôn am bob pensiynwr. Ein barn ni yw ein bod am fod yn hael wrth ein pensiynwyr, a'n barn ni hefyd yw ein bod am dargedu'r cymorth at y pensiynwyr hynny y mae gwir angen y cymorth arnynt. Mae hynny'n golygu cymorth ar ffurf budd-dal treth gyngor, y lwfans tanwydd gaeaf a chredydau pensiwn—yr holl feysydd sydd wedi gwneud gwahaniaeth go iawn o'r newydd i bensiynwyr yng Nghymru. Mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn ei glywed dro ar ôl tro ar garreg y drws gan bobl.

Nick Bourne: Bydddech hefyd yn clywed, petaech wedi bod ar garreg y drws, fel yr wyf fi, fod y dreth gyngor yn fil enfawr i'r rhan fwyaf o bensiynwyr. Mae gennym bolisi

free prescriptions for pensioners, regardless of income, and we would do the same with a council tax discount. I assume that you will not do that. Will you confirm that you will not do the same as us, regardless of income?

The First Minister: There is no way that we can make promises, given that we do not know what Thursday's result will be. However, we do know that if there is a substantial reduction in our budget, as promised by your party, there is no way that you or I can possibly deliver a policy such as that. If there is no money for it, the policy cannot be delivered. We know that your party will take money away from the Assembly's budget.

Leanne Wood: Further to my questions to you and to the Minister for Social Justice and Local Government in previous Plenary meetings, I want to ask again about the issue of funding food banks. The Trussell Trust, which runs a 10-strong network in Wales, requires £170,000 to fund a significant expansion, which will see the number of services doubled in Wales. Has there been any further development in respect of funding for a charity that is likely to see growth in demand as the inevitable cuts fall?

The First Minister: As you will know, the answer that you were given by Carl Sergeant was that he would consider the innovative ways in which organisations try to eradicate poverty and bring in new ideas for the delivery of services for the needy. He said at that time that he would look at that issue closely, particularly with regard to the food bank. It is something that he is considering.

Eleanor Burnham: This is a difficult time for many people who are poor, whether they are children or older people. First Minister, do you not agree that we will be entering much more austere times than we have seen, even in the last 13 years? Do you not agree that, while the Liberal Democrats propose to improve pensioners' incomes across the UK, your party does not? After the prolonged, cold winter, when many people have had to choose between eating and heating, what precautionary measures will the Welsh

cyffredinol o roi presgripsiynau am ddim i bensynwyr, ni waeth faint yw eu hincwm, a byddem yn gwneud yr un peth o ran gostwng y dreth gyngor. Cymeraf na wnewch chi hynny. A wnewch gadarnhau na wnewch yr un peth â ni, ni waeth beth yw'r incwm?

Y Prif Weinidog: Nid oes modd inni addo dim, gan na wyddom beth fydd y canlyniad ddydd Iau. Fodd bynnag, gwyddom, os bydd gostyngiad sylweddol yn ein cyllideb, fel y mae eich plaid chi'n addo, na fydd modd yn y byd i chi nac i minnau wireddu polisi o'r fath. Os nad oes arian ar ei gyfer, nid oes modd gwireddu'r polisi. Gwyddom y bydd eich plaid yn tynnu arian oddi ar gyllideb y Cynulliad.

Leanne Wood: Yn dilyn fy nghwestiynau i chi ac i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol mewn Cyfarfodydd Llawn blaenorol, yr wyf am ofyn eto am fater ariannu banciau bwyd. Mae angen £170,000 ar Ymddiriedolaeth Trussell, sy'n cynnal rhwydwaith o 10 banc yng Nghymru, er mwyn ariannu ehangu sylweddol, a fydd yn dyblu nifer y gwasanaethau yng Nghymru. A oes unrhyw ddatblygiad pellach wedi bod o ran ariannu elusen sy'n debyg o weld twf yn y galw pan ddaw'r toriadau anochel?

Y Prif Weinidog: Fel y gwyddoch, yr ateb a gawsoch gan Carl Sergeant oedd y byddai'n ystyried y dulliau arloesol a ddefnyddir gan fudiadau i geisio dileu tlodi a chyflwyno syniadau newydd er mwyn darparu gwasanaethau i'r anghenus. Dywedodd bryd hynny y byddai'n edrych yn ofalus ar y mater hwnnw, yn enwedig gyda golwg ar y banc bwyd. Mae'n rhywbeth y mae'n ei ystyried.

Eleanor Burnham: Mae'n gyfnod anodd i lawer i bobl dlawd, boed y rheini'n blant neu'n hen bobl. Brif Weinidog, oni chytunwch y byddwn yn camu i gyfnod mwy llym o lawer nag yr ydym wedi'i weld, hyd yn oed yn y 13 blynedd diwethaf? Oni chytunwch, tra bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnig gwella incymau pensynwyr ledled y Deyrnas Unedig, nad yw eich plaid chi'n bwriadu gwneud hynny? Ar ôl y gaeaf oer hir, a llawer o bobl wedi gorfod dewis rhwng bwyta a chael gwres, pa

Assembly Government take to improve the lot of so many poor people, be they children and older people?

The First Minister: First of all, I do not accept that we have had 13 austere years. The economy and, indeed, pensioners have done well over the past decade. I do agree that we have had two difficult years in particular, economically, and I do agree with you when you say that we will face financial challenges in the years ahead. That much is true.

You asked what commitments are being made. I know that, by 2012, there are commitments by some parties in the Chamber to restore the link between pensions and earnings and my party is one of them, although I do not say that as First Minister at this moment in time. I am aware that other parties take the same view and that is something that will make a significant difference to pensioners' incomes as have pension tax credits, the winter fuel allowance, council tax benefit and the free bus passes. All of those have been of immense benefit to pensioners and have been widely welcomed, and those are views that I have heard expressed throughout Wales over the past few weeks.

Joyce Watson: No party has done more to help the most vulnerable people in society than the Labour Party, both here and in Westminster. When jobs were at risk, ProAct and ReAct schemes were established to protect as many jobs as possible. When people were at risk of losing their homes, the mortgage rescue scheme was created to ensure that thousands were able to remain in their homes. Thanks to this Government, the elderly and children can express their views in a way that was not previously open to them, due to the appointment of the Commissioner for Older People in Wales and the Children's Commissioner for Wales. More affordable housing is being constructed to help first-time buyers and families whose current homes are no longer suitable. As well as that, action is being taken to invest funds in palliative care to make people's lives better. I commend the work of the Government in that respect. Will you give a pledge today that you will continue, as we

ragofalon a gymer Llywodraeth y Cynulliad i wella byd cynifer o bobl dlawd, boed y rheini'n blant neu'n bobl hŷn?

Y Prif Weinidog: Yn gyntaf oll, nid wyf yn derbyn inni gael 13 o flynyddoedd llym. Mae'r economi, ac, yn wir, ein pensïynwyr wedi gwneud yn dda dros y degawd diwethaf. Yr wyf yn cytuno inni gael dwy flynedd anodd yn benodol, yn economaidd, a chytunaf â chi pan ddywedwch y byddwn yn wynebu anawsterau ariannol yn y blynyddoedd nesaf. Mae hynny'n wir.

Gofynasoch pa ymrwymïadau a wneir. Gwn, erbyn 2012, fod rhai pleidiau yn y Siambr wedi ymrwymo i adfer y cysylltiad rhwng pensiynau ac enillion a'm plaid i yw un ohonynt, er nad wyf yn dweud hynny fel Prif Weinidog ar hyn o bryd. Yr wyf yn gwybod bod pleidiau eraill yn cytuno ac mae hynny'n rhywbeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i incymau pensiynwyr fel y mae credydau treth pensiwn, y lwfans tanwydd gaeaf, y budd-dal treth gyngor a'r tocynnau teithio am ddim ar fysiau. Mae'r rheini i gyd wedi bod o fudd enfawr i bensiynwyr ac wedi cael croeso eang, ac mae'r rheini'n safbwyntiau yr wyf wedi'u clywed ledled Cymru yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Joyce Watson: Nid oes yr un blaid wedi gwneud mwy i gynorthwyo'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas na'r Blaid Lafur, yma ac yn San Steffan. Pan oedd swyddi o dan fygythiad, sefydlwyd cynlluniau ProAct a ReAct i warchod cynifer o swyddi ag a oedd modd. Pan oedd perygl i bobl golli eu cartrefi, crëwyd y cynllun achub morgesi er mwyn sicrhau bod modd i filoedd aros yn eu cartrefi. Diolch i'r Llywodraeth hon, gall yr henoed a phlant fynegi eu barn mewn ffordd nad oedd ar gael iddynt gynt, yn sgîl penodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru. Codir rhagor o dai fforddiadwy i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf a theuluoedd nad yw eu cartrefi presennol yn addas rhagor. Yn ogystal â hynny, cymerir camau i fuddsoddi arian mewn gofal lliniarol er mwyn gwella bywyd pobl. Yr wyf yn cymeradwyo gwaith y Llywodraeth yn y cyswllt hwn. A wnewch addo heddiw y gwnewch barhau, fel yn y gorffennol, i gynorthwyo'r mwyaf agored i

have done in the past, to support the most vulnerable in Welsh society?

The First Minister: I will absolutely do that. As a Government, we stand on our record of what we have done to help vulnerable people and we will continue to ensure that vulnerable people are helped in the future. I heard some heckling from David Melding regarding your question. Oddly enough, I did not hear Alun Cairns's voice. I do not know where he has been in the past three weeks, but he seems to have disappeared from the Chamber. I do hope that he is keeping well. *[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. You have done well collectively over the last three weeks and I do not want this to degenerate into the type of hustings that I saw in Scotland over the weekend. So, let us get back to our usual decorum.

Regenerating Communities

Q3 Val Lloyd: Will the First Minister make a statement on regenerating communities in Wales? OAQ(3)2828(FM)

The First Minister: We are implementing a comprehensive regeneration programme in Wales that not only delivers physical regeneration of communities, but also tackles problems with skills, health, housing, and helps people into sustainable employment.

Val Lloyd: As you will know, Swansea city centre has been designated as a strategic regeneration area and will benefit from a very welcome funding package, which includes £28 million of Welsh Assembly Government money. That is mainly focused on a complete transformation of the city centre, maximising the waterfront potential and ensuring better links with Swansea bay, and will undoubtedly be a huge incentive for new businesses in the area. Within that context, can you specifically tell me what the Welsh Assembly Government is doing to support a co-operative business model in order to maximise the potential for lasting social benefits as well as economic growth?

niwed yng nghymdeithas Cymru?

Y Prif Weinidog: Ar bob cyfrif. Yr ydym ni'r Llywodraeth yn sefyll ar sail yr hyn yr ydym wedi'i wneud i gynorthwyo pobl agored i niwed a byddwn yn parhau i sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael cymorth yn y dyfodol. Clywais ryw faint o heclo gan David Melding ynglŷn â'ch cwestiwn. Yn rhyfedd iawn, ni chlywais lais Alun Cairns. Ni wn ymhle y mae wedi bod yn ystod y tair wythnos diwethaf ond, i bob golwg, mae wedi diflannu o'r Siambr. Yr wyf yn gobeithio ei fod yn cadw'n iawn. *[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Yr ydych i gyd wedi gwneud yn dda dros y tair wythnos diwethaf ac nid wyf am i hyn ddirywio a throï'n hystingau tebyg i'r rhai a welais yn yr Alban dros y penwythnos. Felly, gadewch inni ddychwelyd at ein trefn weddus arferol.

Adfywio Cymunedau

C3 Val Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adfywio cymunedau yng Nghymru? OAQ(3)2828(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn rhoi rhaglen adfywio gynhwysfawr ar waith yng Nghymru sydd nid yn unig yn adfywio agweddau ffisegol ein cymunedau ond hefyd yn mynd i'r afael â phroblemau o ran sgiliau, iechyd, tai, ac yn cynorthwyo pobl i gael cyflogaeth gynaliadwy.

Val Lloyd: Fel y gwyddoch, mae canol dinas Abertawe wedi'i ddynodi'n ardal adfywio strategol a bydd yn elwa o becyn ariannu sydd i'w groesawu'n fawr. Mae'n cynnwys gwerth £28 miliwn o arian Llywodraeth y Cynulliad. Mae hynny'n canolbwyntio'n bennaf ar weddnewid canol y ddinas yn llwyr, manteisio i'r eithaf ar botensial glan y môr a sicrhau gwell cysylltiadau â bae Abertawe. Yn ddi-os, bydd yn gymhellant enfawr i fusnesau newydd yn yr ardal. Yn y cyd-destun hwnnw, a allwch ddweud wrthyf yn benodol beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i gefnogi model busnes cydweithredol er mwyn sicrhau'r potensial mwyaf ar gyfer manteision cymdeithasol a fydd yn para, yn ogystal â

thwf economaidd?

The First Minister: We are fully supportive of the co-operative business model and those individuals who choose it. The social enterprise action plan for Wales states that when it comes to social ownership in Wales, a tradition of co-operative and mutual provision has always run alongside state provision.

On Swansea, we are looking to the use of social benefit clauses, with significant levels of public and private sector investment under way and planned for the city. There are significant opportunities to assist in addressing economic inactivity and unemployment levels. We are also working with the third sector to create a community key fund that will assist groups with projects that will meet the agreed criteria to support community groups across the regeneration area, for example, Townhill, St Thomas, Penderry and Castle wards, where that is particularly relevant.

Darren Millar: One of the few decisions taken by the Welsh Assembly Government for which I want to commend you—and there are few decisions for which I commend you—has been the establishment of the strategic regeneration area on the north Wales coast, focusing on the areas of Colwyn Bay and Rhyl. I hasten to add that that was following suggestions from this party that there should be a regeneration focus on seaside towns.

1.50 p.m.

You will know, First Minister, from your travels around Wales—or, you ought to—that many Welsh market towns, such as Ruthin in my constituency, have experienced decline in recent years and have been bitten really hard by the economic downturn. Will you consider focusing regeneration efforts on Welsh market towns so that communities like Ruthin can feel the benefit of some of the schemes that are benefiting others elsewhere in Wales?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn llwyr gefnogi'r model busnes cydweithredol a'r unigolion hynny sy'n dewis ei ddefnyddio. Mae'r cynllun gweithredu mentrau cymdeithasol i Gymru'n dweud, wrth sôn am berchenogaeth gymdeithasol yng Nghymru, fod traddodiad o ddarpariaeth gydweithredol a chydfuddiannol wedi mynd law yn llaw yma erioed â darpariaeth y wladwriaeth.

O ran Abertawe, yr ydym yn gobeithio y defnyddir cymalau budd cymdeithasol, ac mae buddsoddiad sylweddol gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat wedi dechrau ac wedi'i gynllunio ar gyfer y ddinas. Ceir cyfleoedd sylweddol i gynorthwyo i fynd i'r afael â'r anweithgarwch economaidd a lefelau diweithdra. Yr ydym hefyd yn gweithio gyda'r trydydd sector i greu cronfa allweddol yn y gymuned i gynorthwyo grwpiau gyda phrosiectau a fydd yn ateb y meini prawf y cytunwyd arnynt i gynorthwyo grwpiau yn y gymuned drwy'r ardal adfywio i gyd, er enghraifft, yn wardiau Townhill, St Thomas, Penderi a'r Castell, lle y mae hynny'n arbennig o berthnasol.

Darren Millar: Un o'r ychydig benderfyniadau gan Lywodraeth y Cynulliad yr wyf am eich canmol yn ei gylch—a phrin yw'r penderfyniadau yr wyf yn eu cymeradwyo—fu sefydlu'r ardal adfywio strategol ar arfordir y gogledd. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar ardaloedd Bae Colwyn a'r Rhyl. Pysuraf i ddweud mai yn sgîl awgrymiadau gan y blaid hon y dylid canolbwyntio'r adfywio ar drefi glan y môr y gwnaethpwyd hynny.

Gwyddoch, Brif Weinidog, wrth ichi deithio o gwmpas Cymru—neu, fe ddylech wybod—fod llawer o drefi marchnad Cymru, megis Rhuthun yn fy etholaeth, wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi dioddef llawer iawn yn sgîl y dirywiad economaidd. A wnewch ystyried canolbwyntio ymdrechion adfywio ar drefi marchnad Cymru er mwyn i gymunedau megis Rhuthun allu manteisio ar rai o'r cynlluniau y mae rhannau eraill o Gymru'n cael budd ohonynt?

The First Minister: I thank Darren for his wholehearted support of the Government's policy in this area. We have targeted seven regeneration areas, and those are the schemes that we plan to take forward at this moment in time. Inevitably, there is a budget that we must work within, but the seven schemes that we have up and running will make an enormous difference to Rhyl, Colwyn Bay, and particularly to areas such as Swansea, which I have mentioned, as well as Barry, Aberystwyth and a number of other towns. I am sure that your constituents greatly welcome the actions of the Welsh Assembly Government in bringing forward these regeneration areas.

Brian Gibbons: First Minister, do you agree that the establishment of strategic regeneration areas and Communities First partnerships stands in stark contrast to the malignant neglect that took place in the 1980s and 1990s, when average unemployment levels stood at 12 per cent plus? The communities that are benefiting from the strategic regeneration areas and the Communities First partnerships had unemployment rates well in excess of 12 per cent. In my constituency, the Communities First programme had some excellent developments, but development was uneven. However, with the establishment of the outcomes fund, do you believe that Communities First, working with strategic regeneration areas, offers real hope to communities that were neglected when the problems were much worse?

The First Minister: I could not agree more, Brian. The approach in the 1980s was to close down industry and then provide a number of low-paid jobs to keep people happy. That was the Conservative point of view. Nothing was done to regenerate communities, to provide people with training, or to provide people with education. We now have an approach, through Communities First, that rebuilds communities that have been shattered—not just economically, but whose confidence has also been shattered—and enables them to regain confidence, rebuild their communities and try to make up for the damage that was done in the 1980s and 1990s.

Y Prif Weinidog: Diolch i Darren am ei gefnogaeth galonnog i bolisi'r Llywodraeth yn y maes hwn. Yr ydym wedi targedu saith ardal adfywio, a'r rheini yw'r cynlluniau y bwriadwn fwrw ymlaen â hwy ar hyn o bryd. Mae'n anochel bod yn rhaid inni weithio o fewn cyllideb, ond bydd y saith cynllun sydd ar waith gennym yn gwneud gwahaniaeth aruthrol i'r Rhyl, i Fae Colwyn, ac yn enwedig i ardaloedd megis Abertawe, yr wyf wedi sôn amdani, yn ogystal â'r Barri, Aberystwyth a nifer o drefi eraill. Yr wyf yn siŵr bod eich etholwyr yn croesawu'n fawr y camau a gymerwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno'r ardaloedd adfywio hyn.

Brian Gibbons: Brif Weinidog, a gytunwch fod sefydlu'r ardaloedd adfywio strategol a'r partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn gwbl groes i'r esgeulustod dybryd a welwyd yn yr 1980au a'r 1990au pan oedd diweithdra ar gyfartaledd yn 12 y cant a mwy? Yr oedd cyfraddau diweithdra'r cymunedau sy'n elwa o'r ardaloedd adfywio strategol a'r partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn uwch o lawer na 12 y cant. Yn fy etholaeth i, gwelwyd nifer o ddatblygiadau rhagorol o dan raglen Cymunedau yn Gyntaf ond yr oedd y datblygiad yn anwastad. Fodd bynnag, wrth sefydlu'r gronfa canlyniadau, a gredwch fod Cymunedau yn Gyntaf, gan weithio gydag ardaloedd adfywio strategol, yn cynnig gobaith go iawn i gymunedau a esgeuluswyd pan oedd y problemau'n waeth o lawer?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno'n llwyr, Brian. Yr hyn a wnaethpwyd yn yr 1980au oedd cau diwydiant ac wedyn darparu nifer o swyddi isel eu cyflog i gadw pobl yn hapus. Dyna safbwynt y Ceidwadwyr. Ni wnaethpwyd dim i adfywio cymunedau, i hyfforddi pobl, nac i'w haddysgu. Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn awr, drwy raglen Cymunedau yn Gyntaf, yw ailadeiladu cymunedau sydd wedi'u dryllio—nid dim ond yn economaidd, ond cymunedau y mae eu hyder wedi'i ddryllio hefyd—a'u galluogi i adennill eu hyder, ailadeiladu eu cymunedau a cheisio gwneud iawn am y difrod a wnaethpwyd yn yr 1980au a'r 1990au.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): First Minister, after over a decade of devolution and a substantial economic development budget, which has been spent over those years and boosted by structural funds from Europe, unemployment rates in our country are higher than any other nation of the UK, and our competitive rates for business continue to fall. What has happened to lead us to this situation, despite actions being taken by your Government?

The First Minister: Our employment rates have risen and our ability to train people has increased, particularly with regard to ProAct. As I have said before, at least 9,000 people who would otherwise not be in jobs or training, have jobs as a result of ProAct. There is some way to go and we have to acknowledge that we have to focus strongly on skills, which is the area in which we have historically lost out in Wales. It is not that people are paid less in Wales to do the same job, but that we do not have enough jobs at a high-skill level. The key to developing the Welsh economy in years to come will be to focus strongly on skills in order to bring in the investment that we need in high-quality, high-skill and highly paid jobs. That is certainly the direction in which I would like to take Wales.

Kirsty Williams: The skills gap in the Welsh economy is nothing new; it is something that has dogged our economy for the last decade. It begs the question of why we are only now beginning to get to grips with plans to address the skills gap.

Economic development spend per capita in Wales over the last decade has outstripped that of the national and regional development agencies of Scotland and parts of England. We have therefore been putting more money in, but the return for that money has been less-competitive businesses and more people unemployed. What will you do to address fundamentally the ability to attract private capital and private investment into Wales?

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Brif Weinidog, ar ôl degawd o ddatganoli a chyllideb datblygu economaidd sylweddol, sydd wedi'i gwario dros y blynyddoedd hynny ac wedi cael hwb gan gronfeydd strwythurol Ewrop, mae cyfraddau diweithdra yn ein gwlad yn uwch nag mewn unrhyw genedl arall yn y Deyrnas Unedig, ac mae ein cyfraddau cystadleuol ar gyfer busnes yn dal i ostwng. Beth sydd wedi digwydd i'n harwain i'r sefyllfa hon, er bod eich Llywodraeth wedi cymryd camau?

Y Prif Weinidog: Mae ein cyfraddau cyflogaeth wedi codi a'n gallu i hyfforddi pobl wedi gwella, yn enwedig yng nghyswllt ProAct. Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, mae o leiaf 9,000 o bobl na fyddent mewn swyddi neu hyfforddiant fel arall, mewn gwaith oherwydd ProAct. Mae tipyn mwy i'w wneud eto a rhaid inni sylweddoli bod yn rhaid inni ganolbwyntio'n gryf ar sgiliau, sef y maes lle yr ydym wedi bod ar ein colled yn hanesyddol yng Nghymru. Nid bod pobl yn cael llai o gyflog yng Nghymru am wneud yr un gwaith yw'r broblem. Y broblem yw nad oes gennym ddigon o swyddi crefftus iawn. Yr allwedd i ddatblygu economi Cymru yn y dyfodol fydd canolbwyntio'n gryf ar sgiliau er mwyn denu'r buddsoddiad y mae ei angen arnom mewn swyddi uchel eu safon, sy'n gofyn am sgiliau da ac sy'n talu cyflog da. Yn sicr, i'r cyfeiriad hwnnw yr hoffwn arwain Cymru.

Kirsty Williams: Nid yw'r bwlch sgiliau yn economi Cymru'n ddim byd newydd; mae'n rhywbeth sydd wedi llethu'n heconomi ers degawd. Mae'n peri i rywun holi pam nad ydym wedi dechrau mynd i'r afael â chynlluniau i gau'r bwlch sgiliau cyn hyn.

Yr ydym wedi gwario mwy y pen ar ddatblygu economaidd yng Nghymru dros y degawd diwethaf nag y mae asiantaethau datblygu cenedlaethol a rhanbarthol yr Alban a rhannau o Loegr. Yr ydym felly wedi bod yn gwario mwy ond, yn sgîl gwario'r arian hwnnw, mae gennym fusnesau llai cystadleuol a mwy o bobl yn ddi-waith. Beth a wnewch i fynd i'r afael yn ei hanfod â'r gallu i ddenu cyfalaf preifat a buddsoddiad preifat i Gymru?

The First Minister: The first thing we must do is examine carefully what money we spend on infrastructure. Over the last 20 or 30 years in Wales, there has been a strong reliance on grants. Grants have their place, and will always have their place, but it is fair to say that, at times, there has been over-reliance by business on grants. We have to examine carefully how the balance should be struck between the provision of grants and the provision of infrastructure that allows business to grow.

In terms of access to capital, we have to develop alternative means for our businesses to access capital, whether that is through the local bonds market or by encouraging more Welsh companies to aim for the stock exchange in order to float and gain capital in that way. All these things come together in terms of changing the culture of business in Wales to ensure that small and medium-sized enterprises that want to grow are able to grow, and also so that we work with our 20 anchor companies in Wales—the biggest companies—to make sure that we develop training and skills that will be attractive to other investors who also want to open up in Wales.

Bioscience is one such area. Fifteen thousand people are employed in biosciences and we are working to ensure that the world knows that we have expertise here. Another area is aerospace and defence capabilities, in which many thousands of people are employed in Wales. Bringing together those companies to create a cluster, and selling that cluster to the world, will be key to making sure that we can get that extra investment in. However, the days of attracting inward investment on the basis that we will accept being paid less money than anyone else, as we did in the 1980s, are finished.

Kirsty Williams: We have been talking about the cluster approach as a way of dragging capital into Wales for the last five, six or seven years, if not longer than that. It is clear that, despite the money that your Government has undoubtedly spent on economic development, it has not translated into additional jobs and competitive

Y Prif Weinidog: Y peth cyntaf y mae'n rhaid inni ei wneud yw archwilio'n ofalus pa arian y byddwn yn ei wario ar seilwaith. Dros yr 20 neu'r 30 mlynedd diwethaf yng Nghymru, yr ydym wedi dibynnu'n helaeth ar grantiau. Mae lle i grantiau, a bydd lle i grantiau o hyd, ond mae'n deg dweud, ar brydiau, fod busnesau wedi gorddibynnu ar grantiau. Rhaid inni archwilio'n ofalus sut y mae cadw'r ddysgl yn wastad rhwng darparu grantiau a darparu seilwaith sy'n caniatáu i fusnes dyfu.

O ran cael gafael ar gyfalaf, rhaid inni ddatblygu dulliau amgen i'n busnesau gael gafael ar gyfalaf, boed hynny drwy'r farchnad bondiau leol, neu drwy annog mwy o gwmnïau Cymru i anelu am y gyfnewidfa stoc i werthu cyfranddaliadau ac ennill cyfalaf yn y modd hwnnw. Daw'r pethau hyn i gyd at ei gilydd o ran newid diwylliant busnes yng Nghymru er mwyn sicrhau bod mentrau bach a chanolig sydd am dyfu'n gallu tyfu, a hefyd er mwyn inni weithio gydag 20 o'n prif gwmnïau yng Nghymru—y cwmnïau mwyaf—i sicrhau ein bod yn datblygu hyfforddiant a sgiliau a fydd yn ddeniadol i fuddsoddwyr eraill sydd hefyd am agor eu busnes yng Nghymru.

Biowyddoniaeth yw un o'r meysydd hynny. Cyflogir 15,000 o bobl yn y biowyddorau ac yr ydym yn gweithio i sicrhau bod y byd yn gwybod bod gennym arbenigedd yma. Maes arall yw awyrofod a galluoedd amddiffyn. Cyflogir miloedd lawer yn y meysydd hynny yng Nghymru. Bydd dwyn y cwmnïau hyn at ei gilydd i greu clwstwr, a gwerthu'r clwstwr hwnnw i'r byd, yn allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu denu'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw. Serch hynny, mae'r cyfnod pan fyddem yn denu buddsoddiadau o'r tu allan ar yr amod ein bod yn derbyn llai o dâl na neb arall, fel yr oeddem yn yr 1980au, ar ben.

Kirsty Williams: Yr ydym wedi bod yn sôn am ddull y clwstwr fel ffordd o ddenu cyfalaf i Gymru yn ystod y pump, chwech, neu saith mlynedd diwethaf, os nad yn hwy na hynny. Mae'n amlwg, er gwaethaf yr arian y mae eich Llywodraeth yn ddiamau wedi'i wario ar ddatblygu economaidd, nad yw hynny wedi'i drosi'n swyddi ychwanegol ac yn fusnesau

businesses in our economy. Do you agree that we now need to formulate a new vision of how our economy will look in the future, and the strategic steps that will get us there?

The First Minister: That is what the economic regeneration programme is planning to do. That has looked fundamentally at economic development in Wales and how it might be taken forward in the future. That programme will be consulted upon in the near future.

Scott Expedition to the Antarctic

Q4 Chris Franks: Does the Welsh Assembly Government have any plans to mark the centenary of the Scott expedition to the Antarctic? OAQ(3)2827(FM)

The First Minister: We do not, but a number of events are being organised in Cardiff to commemorate the event. The British Antarctic Monument Trust, in partnership with the National Museum Wales, which is one of our Assembly Government sponsored bodies, will be hosting an event on 12 June. The Captain Scott Society and the city of Cardiff have organised a week of events from 9 June to 15 June, and I am aware that a number of talks will also be presented at the Norwegian Church Arts Centre.

Chris Franks: As you know, 15 June marks the centenary of the departure of the Terra Nova from Cardiff to take part in the expedition to the South Pole. I also recall the contribution that Edgar Evans of Gower made to that momentous event. As you have indicated, the Captain Scott Society has an excellent programme of celebrations, including an event in the Pierhead building. However, I feel that the Welsh Government also has a role to play to mark this momentous event, and that it is an opportunity to commemorate Cardiff's rich history as an international port. Will you consider what further moves the Government can make to support this event?

The First Minister: We would not want to cut across what is being organised already, but we would be more than happy to assist in

cystadleuol yn ein heconomi. A gytunwch fod angen inni yn awr lunio gweledigaeth newydd ar gyfer sut olwg a fydd ar ein heconomi yn y dyfodol, a'r camau strategol a fydd yn ein tywys i'r fan honno?

Y Prif Weinidog: Dyna nod rhaglen adfywio'r economi. Mae honno wedi edrych yn ei hanfod ar ddatblygu economaidd yng Nghymru ac ar sut y gellid bwrw ymlaen â hynny yn y dyfodol. Ymgynghorir ynglŷn â'r rhaglen honno yn y dyfodol agos.

Taith Scott i'r Antarcig

C4 Chris Franks: A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gynlluniau i nodi canmlwyddiant taith Scott i'r Antarcig? OAQ(3)2827(FM)

Y Prif Weinidog: Nac oes, ond mae nifer o ddigwyddiadau'n cael eu trefnu yng Nghaerdydd i goffâu'r digwyddiad. Bydd Ymddiriedolaeth Cofebau Antarcig Prydain, ar y cyd ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru, sef un o'r cyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, yn cynnal digwyddiad ar 12 Mehefin. Mae Cymdeithas Capten Scott a dinas Caerdydd wedi trefnu wythnos o ddigwyddiadau rhwng 9 Mehefin a 15 Mehefin, a gwn y cyflwynir nifer o sgysiau hefyd yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Eglwys Norwyaidd.

Chris Franks: Fel y gwyddoch, gan mlynedd yn ôl ar 15 Mehefin, hwyliodd y Terra Nova o Gaerdydd i ymuno â'r daith anturus i Begwn y De. Cofiaf hefyd gyfraniad Edgar Evans o Benrhyn Gŵyr i'r achlysur hanesyddol hwnnw. Fel yr ydych wedi awgrymu, mae gan Gymdeithas Capten Scott raglen dathlu ragorol, gan gynnwys digwyddiad yn adeilad y Pierhead. Serch hynny, teimlaf fod gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae hefyd i nodi'r digwyddiad hanesyddol hwn, a'i fod yn gyfle i goffâu hanes cyfoethog Caerdydd fel porthladd rhyngwladol. A wnewch ystyried pa gamau eraill y gall y Llywodraeth eu cymryd i gefnogi'r digwyddiad hwn?

Y Prif Weinidog: Ni fyddem am dorri ar draws yr hyn sy'n cael ei drefnu eisoes, ond byddem yn fwy na bodlon cynorthwyo ym

whatever way we can with the events that are already planned for the week beginning 9 June to 15 June.

Nick Ramsay: I am grateful to the First Minister for his answer to that question, and I am pleased that Chris Franks asked it. This is yet another example of how Wales has been on the map in the past in a way that has not always been broadcast across the UK and to the rest of the world. As Chris Franks indicated in his question, we are entering a phase from 15 June onwards when the expedition took place, and all of us here, looking around at Cardiff bay as it is today, realise the impact that the expedition to the Antarctic had on Wales and the world. It is slightly ironic, First Minister, that the memorial statue to Sir Walter Scott—sorry, Robert Scott—which was unveiled in 2003, is next to the Norwegian Church Arts Centre given that it was the Norwegians who first reached the South Pole. Is there a role that the Assembly could play in terms of the Pierhead building? We know that a lot of refitting has been done to the Pierhead building over the last few months, so could the Assembly be towards centre stage of the events commemorating this by using the Pierhead building, to help to ensure that it is remembered?

2.00 p.m.

The First Minister: We in Wales are sometimes accused of laying claim to famous personalities on a tenuous basis, and Sir Walter Scott would probably fall into that category. [*Laughter.*] However, I take your point. The Pierhead building is a matter for the Assembly Commission and I am sure that the Commissioners will be pleased to consider that suggestion if you raise the matter with them.

Green Jobs

Q5 Christine Chapman: Will the First Minister make a statement on green jobs in Wales? OAQ(3)2816(FM)

The First Minister: Implementing our green jobs strategy is the key to ensuring that green

mha ffordd bynnag y gallwn gyda'r digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio eisoes ar gyfer yr wythnos rhwng 9 Mehefin a 15 Mehefin.

Nick Ramsay: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ateb i'r cwestiwn hwnnw, ac yr wyf yn falch i Chris Franks ei ofyn. Dyma enghraifft arall eto o'r ffordd y mae Cymru wedi bod ar y map yn y gorffennol heb i hynny bob tro gael sylw yng ngweddill y Deyrnas Unedig a gweddill y byd. Fel yr awgrymodd Chris Franks yn ei gwestiwn, yr ydym yn cychwyn ar gyfnod o 15 Mehefin ymlaen pan ddigwyddodd y daith, ac yr ydym ni i gyd sydd yma, wrth inni edrych o gwmpas ar fae Caerdydd fel y mae heddiw, yn sylweddoli'r effaith a gafodd y daith i'r Antarcig ar Gymru ac ar y byd. Mae'n eithaf eironig, Brif Weinidog, fod y gofeb i Syr Walter Scott—mae'n ddrwg gennyf, Robert Scott—a ddadorchuddiwyd yn 2003, y drws nesaf i Ganolfan Gelfyddydau'r Eglwys Norwyaidd gan mai'r Norwyaid oedd y cyntaf i gyrraedd Pegwn y De. A oes rhan i'r Cynulliad ei chwarae o ran adeilad y Pierhead? Gwyddom fod llawer o ailwampio wedi'i wneud ar adeilad y Pierhead yn ystod y misoedd diwethaf, felly a allai'r Cynulliad fod tua chanol llwyfan y digwyddiadau i ddatlu hyn drwy ddefnyddio adeilad y Pierhead, er mwyn cynorthwyo i sicrhau y cofir y digwyddiad?

Y Prif Weinidog: Cawn ein cyhuddo weithiau yng Nghymru o hawlio personoliaethau enwog heb fawr o sail i hynny, ac mae'n debyg y byddai Syr Walter Scott yn perthyn i'r categori hwnnw. [*Chwerthin.*] Serch hynny, derbynïaf eich pwynt. Mater i Gomisiwn y Cynulliad yw adeilad y Pierhead ac yr wyf yn siŵr y bydd y Comisiynwyr yn falch o ystyried yr awgrym hwnnw os codwch y mater gyda hwy.

Swyddi Gwyrdd

C5 Christine Chapman: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am swyddi gwyrdd yng Nghymru? OAQ(3)2816(FM)

Y Prif Weinidog: Rhoi ein strategaeth swyddi gwyrdd ar waith yw'r allwedd i

jobs in Wales are secured and created by businesses, improving their competitiveness, making existing jobs more sustainable and resource efficient, and taking advantage of the opportunities offered by the transition to a low-carbon economy.

Christine Chapman: Thank you for that answer, First Minister. Many businesses in my constituency of Cynon Valley are already embracing the green jobs agenda. Centillion Environment and Recycling UK Ltd in Hirwaun has just celebrated a major milestone, having recycled 1,000 tonnes of electronic waste, meeting the Assembly Government's target for sending zero waste to landfill. I was pleased to visit the company recently to see for myself the progress that has been made and the jobs that have been created, and to hear the company's plans for further expansion and employment opportunities. Do you agree that businesses such as Centillion are the key as we make the transition to a green economy, and that, by recycling more and hitting zero waste targets, as this company has done, it is not only our environment that benefits but also our economy?

The First Minister: I could not agree with you more. Centillion is a well-known company that has contributed a great deal towards electronic waste recycling over the years as we have seen various directives come in, such as the prosaically named 'WEEE' directive on waste electrical and electronic equipment. However, as we look to recycle, it is important that we stimulate business so that recycling can be taken forward. As we recycle more in Wales, it is important that we also create businesses that recycle in Wales, and there are great examples of that, with Centillion being one.

Leanne Wood: Last week, the Bevan Foundation published its report 'Green jobs and justice in low carbon Wales', in which there was a dire forecast that, of all the economies in the UK, the Welsh economy will be most at risk from the effects of climate change. There is an urgent need for us to reduce our emissions, but given that

sicrhau bod swyddi gwyrdd yng Nghymru yn cael eu diogelu a'u creu gan fusnesau, gan eu gwneud yn fwy cystadleuol, gan wneud swyddi sydd ar gael eisoes yn fwy cynaliadwy ac yn fwy effeithlon o ran adnoddau, a chan fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir wrth droi at economi rad ar garbon.

Christine Chapman: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae llawer o fusnesau yn fy etholaeth yng Nghwm Cynon eisoes yn coleddu agenda'r swyddi gwyrdd. Mae Centillion Environment and Recycling UK Ltd yn Hirwaun newydd ddathlu carreg filltir fawr, wrth ailgylchu 1,000 tonnell o wastraff electronig, gan gyrraedd targed Llywodraeth y Cynulliad, sef peidio ag anfon dim gwastraff i safle tirlenwi. Yr oeddwn yn falch o ymweld â'r cwmni'n ddiweddar i weld dros fy hun y cynnydd sydd wedi'i wneud a'r swyddi sydd wedi'u creu, ac i glywed cynlluniau'r cwmni ar gyfer ehangu eto a chreu mwy o gyfleoedd gwaith. A gytunwch mai busnesau megis Centillion yw'r allwedd wrth inni droi at economi werdd ac nad ein hamgylchedd yn unig a fydd ar ei ennill wrth inni ailgylchu mwy a chyrraedd targedau dim gwastraff, fel y mae'r cwmni hwn wedi gwneud, ond ein heconomi hefyd?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno'n llwyr â chi. Mae Centillion yn gwmni adnabyddus sydd wedi cyfrannu llawer iawn tuag at ailgylchu gwastraff electronig dros y blynyddoedd wrth inni weld cyflwyno gwahanol gyfarwyddbau, megis y gyfarwydddeb â'r enw rhyddieithol 'WEEE' ynglŷn â chyfarpar trydanol ac electronig gwastraff. Serch hynny, wrth inni geisio ailgylchu, mae'n bwysig inni ysgogi busnes, er mwyn inni fwrw ymlaen ag ailgylchu. Wrth inni ailgylchu mwy yng Nghymru, mae'n bwysig hefyd inni greu busnesau sy'n ailgylchu yng Nghymru, a cheir enghreifftiau gwych o hynny, Centillion yn un ohonynt.

Leanne Wood: Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Sefydliad Bevan ei adroddiad 'Green jobs and justice in low carbon Wales'. Ynddo, yr oedd rhagolygon arswydus mai economi Cymru, o blith holl economïau'r Deyrnas Unedig, a fyddai'n wynebu'r perygl mwyaf yn sgîl effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae angen inni leihau ein

such a big proportion of our workforce is employed in industries responsible for a large amount of greenhouse gas emissions, a radical plan is needed to diversify and plan for the future. How does the Welsh Assembly Government intend to meet this big challenge?

The First Minister: The Bevan Foundation report will be considered as part of our economic renewal programme. In the meantime, I can assure the Bevan Foundation that a Cabinet committee on sustainable futures is already in place to deliver priority actions on climate change issues, that the skills issues for the transition to a low-carbon economy are being addressed in the green jobs strategy, and that we will continue to work closely with our carbon-intensive industries to maintain their competitive needs and to increase their carbon efficiency.

Jenny Randerson: There are many important jobs in the freight business. Recommendation 9 of the Enterprise and Learning Committee's report on the manufacturing strategy refers to the need to decrease the proportion of manufactured goods transported by road and to transfer them to rail. What is your Government doing to ensure that there is increased provision for rail freight, which is much more environmentally beneficial than road freight, in the light of the fact that a large majority of the rail network in Wales does not have the capacity to bear rail freight? What are you doing in conjunction with the UK Government to improve the quality and extent of the rail infrastructure here to enable more freight to be carried by rail?

The First Minister: I met Network Rail representatives some weeks ago, and I made that point to them. Much of the rail network in Wales was originally built to carry freight; it can still do so. The Heart of Wales line, for example, is a diversion line for Tata Steel, taking steel out of the steelworks in Port Talbot, but that is primarily a passenger line by now. The ability to carry freight by rail is there. For example, freight or oil leaves Milford Haven and comes through the Swansea district line and the south Wales

hallyriadau ar frys, ond gan fod cyfran mor fawr o'n gweithlu wedi'i chyflogi mewn diwydiannau sy'n gyfrifol am lawer iawn o allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae angen cynllun radical i arallgyfeirio a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu ymateb i'r her fawr hon?

Y Prif Weinidog: Caiff adroddiad Sefydliad Bevan ei ystyried yn rhan o raglen adfywio'r economi. Yn y cyfamser, gallaf sicrhau Sefydliad Bevan fod pwyllgor y Cabinet ar ddyfodol cynaliadwy ar waith eisoes i wireddu'r camau sy'n cael eu blaenoriaethu o ran y newid yn yr hinsawdd, fod y problemau ynglŷn â sgiliau wrth inni droi at economi rad ar garbon yn cael sylw yn y strategaeth swyddi gwyrdd, ac y byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n diwydiannau sy'n allyrru llawer o garbon er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau i gystadlu a bod yn fwy effeithlon o ran carbon.

Jenny Randerson: Mae llawer o swyddi pwysig yn y busnes cludo nwyddau. Yn ôl argymhelliad 9 adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y strategaeth gweithgynhyrchu, mae angen lleihau cyfran y nwyddau a weithgynhyrchir a gludir ar y ffyrdd gan eu trosglwyddo i'r rheilffyrdd. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod rhagor o ddarpariaeth ar gyfer cludo nwyddau ar reilffyrdd, sy'n well i'r amgylchedd o lawer na'u cludo ar y ffyrdd, gan gofio nad oes gan y rhan fwyaf helaeth o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru'r capasiti i gludo nwyddau ar drenau? Beth yr ydych yn ei wneud ar y cyd â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i wella ansawdd seilwaith y rheilffyrdd yma a'i ehangu er mwyn gallu cludo rhagor o nwyddau ar drenau?

Y Prif Weinidog: Cyfarfŷm â chynrychiolwyr Network Rail ychydig wythnosau'n ôl, a sôn am hyn wrthynt. Adeiladwyd y rhan fwyaf o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru'n wreiddiol i gludo nwyddau; gall ddal i wneud hynny. Lein ddargyfeirio ar gyfer TATA Steel i gludo dur o'r gwaith dur ym Mhort Talbot, er enghraifft, yw lein Calon Cymru, ond lein i deithwyr yn bennaf yw honno erbyn hyn. Mae modd cludo nwyddau ar drenau. Er enghraifft, bydd nwyddau neu olew'n gadael

main line. I do not think that there is a problem with the capacity of the tracks. We need to ensure, via the freight strategy, that more businesses see freight as a viable option. That means, for example, talking to companies such as EWS Railway Ltd to ensure that the trains do not have to be as large as they are currently before it is prepared to let them carry freight. There have been other innovations. For example, three or four years ago, if I remember rightly, the Forestry Commission was using Aberystwyth as a place to load timber for it to be taken by rail to Shrewsbury and beyond. There are opportunities, but they involve ensuring that the needs of businesses and freight carriers are more closely aligned to make sure that we can take more freight by rail.

Aberdaugleddau ac yn dod ar hyd lein rhanbarth Abertawe a phrif lein y de. Ni chredaf fod problem o ran capasiti'r cledrau. Mae angen inni sicrhau, drwy'r strategaeth cludo nwyddau, fod mwy o fusnesau'n gweld cludo nwyddau fel hyn yn ddewis ymarferol. Mae hynny'n golygu, er enghraifft, siarad â chwmnïau megis EWS Railway Ltd i sicrhau nad oes yn rhaid i'r trenau fod mor fawr ag y maent ar hyn o bryd cyn iddo fod yn barod i adael iddynt gludo nwyddau. Cymerwyd camau arloesol eraill. Er enghraifft, dair neu bedair blynedd yn ôl, os cofiaf yn iawn, yr oedd y Comisiwn Coedwigaeth yn defnyddio Aberystwyth yn fan i lwytho coed i'w cludo ar drenau i Amwythig a'r tu hwnt. Mae cyfleoedd ar gael, ond maent yn golygu sicrhau bod anghenion busnesau ac anghenion y cludwyr nwyddau yn cael eu cysoni'n well er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cludo mwy o nwyddau ar drenau.

Priorities

Q6 Peter Black: Will the First Minister make a statement on his priorities for the final year of his Government?
OAQ(3)2823(FM)

The First Minister: Yes, Peter. While pursuing our established policy and legislative programme, we will be working to ensure that front-line public services in Wales are not put at risk, and that our recovery from the downturn is not imperilled.

Peter Black: Thank you for that answer, First Minister. Earlier on, in answer to a question from Alun Davies, you said that we need a structure for education in Wales that fits the twenty-first century, not the nineteenth century. Of course, there are still many schools around Wales that were built in the nineteenth century and still provide nineteenth-century facilities for their pupils, despite the Government pledge to make all schools fit for purpose by this year, as you will remember. Given that this situation still exists, can you explain why the money that you put into improving schools around Wales has been cut in the latest budget, and will you be making plans to increase that money to try to catch up on your Government's previous commitments?

Blaenoriaethau

C6 Peter Black: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer blwyddyn olaf ei Lywodraeth?
OAQ(3)2823(FM)

Y Prif Weinidog: Gwnaf, Peter. Wrth inni fynd ar drywydd y rhaglen polisiâu a deddfu a sefydlwyd gennym, byddwn yn gweithio i sicrhau nad oes perygl i wasanaethau cyhoeddus y rheng flaen yng Nghymru ac nad oes bygythiad i'r adferiad ar ôl y dirywiad.

Peter Black: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yn gynharach, wrth ateb cwestiwn gan Alun Davies, dywedasoch fod angen strwythur arnom ar gyfer addysg yng Nghymru sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain, nid i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wrth gwrs, mae llawer o ysgolion o hyd o gwmpas Cymru a godwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac sy'n dal i ddarparu cyfleusterau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar gyfer eu disgyblion, er gwaethaf addewid y Llywodraeth i sicrhau bod pob ysgol yn addas i'r diben erbyn eleni, fel y cofiwch. Gan mai dyma'r sefyllfa o hyd, a allwch esbonio pam mae'r arian a roesoch i wella ysgolion o gwmpas Cymru wedi'i docio yn y gyllideb ddiweddaraf, ac a fyddwch yn cynllunio i gynyddu'r arian hwnnw er mwyn

ceisio ailafael ynnddi i wireddu ymrwymiadau blaenorol eich Llywodraeth?

The First Minister: The age of a school does not necessarily affect its fitness for purpose. It is a factor, but the fact that a school is old does not necessarily mean that it is no longer fit for purpose. The point is that many schools around Wales house pupils at a rate that is well below capacity, and that means that capacity will never increase in future. In those circumstances, it makes sense—and I mean generally, without talking about specific examples—to group schools into one brand-new school with all new facilities. I understand the difficulties that the loss of a school can cause in some communities. However, from an educational point of view, it must make sense. We have invested substantially in school buildings in Wales over the past 10 years, whether through the school buildings improvements grant or the £9 million of extra money that was set aside for each local authority. Day after day, I look at newly built schools that are much enjoyed by parents. Indeed, last week, I had the pleasure of officially opening Rogiet Primary School. It is a fantastic school that is much loved by the pupils, teachers and parents.

Rhodri Morgan: Will the First Minister confirm that among his priorities is the sustaining of the jobs recovery that the latest official data now confirm, showing a rise of 16,000 in the total number of jobs in Wales, having gone up from 1,304,000 to 1,320,000 over the past month? This is especially important because the recovery in the jobs market is confirmed by the latest job advertising data. Last Thursday, I believe that the *Western Mail* had 10 pages of job advertisements, overwhelmingly in the private sector, and the *South Wales Echo* on Wednesday had eight pages of jobs, compared with only two pages, maybe, this time last year. Can he confirm that he will bend all his efforts towards ensuring that the recovery of jobs in Wales is sustained, whatever happens on Thursday?

Y Prif Weinidog: Nid yw oedran ysgol o reidrwydd yn effeithio ar ei haddasrwydd i'r diben. Mae'n ffactor, ond nid yw'r ffaith bod ysgol yn hen o reidrwydd yn golygu nad yw'n addas i'r diben bellach. Y pwynt yw bod nifer y disgyblion mewn llawer o ysgolion o gwmpas Cymru yn is o lawer na'r capasiti ac mae hynny'n golygu na fydd y capasiti hwnnw'n cynyddu byth yn y dyfodol. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'n gall—at ei gilydd, heb sôn am enghreifftiau penodol—grwpio ysgolion i greu un ysgol newydd sbon a chanddi'r holl gyfleusterau newydd. Yr wyf yn deall yr anawsterau y gall colli ysgol eu creu mewn ambell gymuned. Fodd bynnag, o safbwynt addysgol, mae'n rhaid ei fod yn beth call. Yr ydym wedi buddsoddi'n helaeth mewn adeiladau ysgolion yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf, boed hynny drwy'r grant gwella adeiladau ysgolion neu'r £9 miliwn yn ychwanegol a neilltuwyd ar gyfer pob awdurdod lleol. Ddydd ar ôl dydd, byddaf yn gweld ysgolion sydd wedi'u hadeiladu o'r newydd, ysgolion y mae rhieni mor falch ohonynt. Yn wir, yr wythnos diwethaf, cefais y pleser o agor Ysgol Gynradd Rogiet yn swyddogol. Mae'n ysgol ragorol ac mae'r disgyblion, yr athrawon a'r rhieni'n hoff iawn ohoni.

Rhodri Morgan: A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau mai un o'i flaenoriaethau yw cynnal yr adferiad o ran swyddi a gadarnheir bellach yn y data swyddogol diweddaraf, gan ddangos cynnydd o 16,000 yng nghyfanswm nifer y swyddi yng Nghymru, sef cynnydd o 1,304,000 i 1,320,000 yn ystod y mis diwethaf? Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd bod y data diweddaraf ynglŷn â hysbysebu swyddi'n cadarnhau'r adferiad yn y farchnad swyddi. Ddydd Iau diwethaf, credaf fod 10 tudalen o hysbysebion am swyddi yn y *Western Mail*, a'r rhan fwyaf o ddigon o'r rheini yn y sector preifat, ac yn y *South Wales Echo*, ddydd Mercher, yr oedd wyth tudalen o swyddi, o'u cymharu â dim dwy dudalen, efallai, yr adeg hon y llynedd. A all gadarnhau y bydd yn gwneud ei orau glas i sicrhau bod yr adferiad hwn yn nifer y swyddi yng Nghymru'n cael ei gynnal, ni waeth beth a ddigwydd ddydd Iau?

The First Minister: Absolutely. I could not agree more. Regardless of what happens on Thursday, one thing I can pledge is that this Government will do all it can, within its powers and the money available to it, to sustain the economic recovery.

2.10 p.m.

Andrew R.T. Davies: Last Wednesday, the publication of hospital waiting times was, regrettably, delayed again for the second time in three months, and I understand that they will now come out in the middle of May. The last time they were delayed was because of concern over the robustness of the data. Irrespective of that, what has become evident to us from the figures from April is the massive increase in the 10-week out-patient wait, going up from 152 people to 43,000 people in Wales. The 14-week in-patient wait has also increased, from 282 patients to nearly 15,000 patients over 12 months. Will you confirm today that you are committing your Government to addressing this bottleneck in the waiting times, and that you will offer whatever assistance the Minister for Health and Social Services requires, so that patients requiring timely access to healthcare in Wales can get it?

The First Minister: I can certainly give a commitment that we will always endeavour to keep waiting times as low as possible for as many people as possible. Where appropriate treatment is available in Wales, we will try to ensure that people have it in Wales, but that does not always apply. For instance, we know that if you live in Flintshire, it is geographically easier for you to access treatment in Liverpool and Cheshire. Therefore, it would be difficult to explain to people there why they had to travel to Cardiff or Swansea, for example, to get treatment. That does not make geographical sense and does not make sense for the devolution process. Secondly, there will be some specialisms that will only ever be available in England, for example, those at Great Ormond Street Hospital in London. You cannot replicate that kind of medical expertise outside London and there must be

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs. Cytunaf yn llwyr. Ni waeth beth a ddigwydd ddydd Iau, un peth y gallaf ei addo yw y gwnaiff y Llywodraeth hon bopeth a all, o fewn ei phwerau a'r arian sydd ar gael iddi, i gynnal yr adferiad economaidd.

Andrew R.T. Davies: Ddydd Mercher diwethaf, yn anffodus, gohiriwyd cyhoeddi amseroedd aros ysbytai unwaith eto, am yr ail dro mewn tri mis, a chaf ar ddeall y cânt eu cyhoeddi yn awr ganol mis Mai. Y tro diwethaf, gohiriwyd eu cyhoeddi oherwydd nad oedd sicrwydd ynglŷn â chadernid y data. Boed hynny fel y bo, yr hyn sydd wedi dod yn amlwg inni yn ffigurau mis Ebrill yw'r cynnydd enfawr yn nifer y cleifion allanol sy'n disgwyl 10 wythnos, sef o 152 o bobl i 43,000 o bobl yng Nghymru. Mae nifer y cleifion mewnol sy'n aros 14 wythnos wedi cynyddu hefyd, o 282 o gleifion i bron 15,000 dros 12 mis. A wnewch gadarnhau heddiw eich bod yn ymrwymo y bydd eich Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r dagfa hon yn yr amseroedd aros ac y byddwch yn cynnig pa gymorth bynnag y mae ei angen ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn i gleifion y mae angen iddynt gael gofal iechyd yn brydlon yng Nghymru ei gael?

Y Prif Weinidog: Yn sicr, gallaf addo ichi y byddwn bob amser yn ceisio cadw amseroedd aros mor fyr ag sy'n bosibl i gynifer o bobl ag sy'n bosibl. Lle y bydd triniaeth briodol ar gael yng Nghymru, byddwn yn ceisio sicrhau y caiff pobl y driniaeth honno yma, ond nid yw hynny'n bosibl bob amser. Er enghraifft, gwyddom os ydych yn byw yn sir y Fflint, ei bod yn ddaearyddol haws ichi gael triniaeth yn Lerpwl ac yn swydd Gaer. Felly, byddai'n anodd esbonio i bobl yn y fan honno pam y byddai'n rhaid iddynt deithio i Gaerdydd neu i Abertawe, er enghraifft, er mwyn cael triniaeth. Nid yw hynny'n gwneud synnwyr o safbwynt daearyddol ac nid yw'n gwneud synnwyr o ran y broses ddatganoli. Yn ail, bydd rhai gwasanaethau arbenigol na fyddant byth ar gael y tu allan i Loegr, er enghraifft, y rhai yn Ysbyty Great Ormond Street yn Llundain. Ni allwch ail-greu'r math hwnnw o arbenigedd meddygol y tu allan i Lundain a

one place in the whole of the UK where doctors can get the expertise to treat rare illnesses. Therefore, there will be occasions when treatment will be needed outside Wales. However, we are looking to bear down on waiting times as much as we can.

Rhodri Glyn Thomas: Ymysg eich blaenoriaethau am y flwyddyn olaf hon, Brif Weinidog, a ydych yn bwriadu rhoi ystyriaeth i'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ar dai? Cafodd ei wrthwynebu gan y Ceidwadwyr yn San Steffan a chafodd Aelodau'r Cynulliad orchymyn i'w wrthwynebu yma. Drwy hynny, collwyd y Gorchymyn drafft. Sut yr ydych yn bwriadu symud ymlaen gyda'r Gorchymyn drafft hwnnw a oedd i fod mor bwysig o ran tai yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Byddwn yn bwrw ymlaen yn yr un modd ag a fwriadwyd cyn yr etholiad, sef gan sicrhau bod yr LCO drafft yn dychwelyd i'r Senedd. Dyna bolisi'r Llywodraeth, a dyna'r hyn y mae'r Cynulliad, sy'n cynrychioli pobl Cymru, wedi'i benderfynu. Mae'r Gorchymyn drafft yn bwysig dros ben i sicrhau bod gennym dai fforddiadwy yng Nghymru at y dyfodol. Felly, ni fydd camu yn ôl o'r LCO drafft. Byddwn yn bwrw ymlaen ag ef, fel a fwriadwyd cyn yr etholiad.

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

C7 David Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am reoliadau asesu ar gyfer y lwfans cyflogaeth a chymorth i bobl anabl? OAQ(3)2815(FM)

Y Prif Weinidog: Er nad yw'r cyfrifoldeb o ran asesu'r lwfans cyflogaeth a chymorth wedi'i ddatganoli, yr wyf wedi ymrwymo i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau nad yw pobl Cymru o dan anfantais annheg.

David Lloyd: Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Deallwn yn iawn nad yw'r pwnc wedi'i ddatganoli, ond yr ydym wedi clywed pryderon gan y sefydliad Cyngor ar Bopeth ynghylch yr anawsterau y mae rhai pobl wedi'u darganfod wrth fynd drwy'r

rhaid cael un man yn y Deyrnas Unedig gyfan lle y gall meddygon gael gafael ar yr arbenigedd i drin afiechydon prin. Felly, ar brydiau, bydd angen triniaeth y tu allan i Gymru. Serch hynny, yr ydym yn ceisio gostwng amseroedd aros gymaint ag y gallwn.

Rhodri Glyn Thomas: Among your priorities for this final year, First Minister, do you intend to give consideration to the draft legislative competence Order on housing? It was opposed by the Conservatives at Westminster and Assembly Members were ordered to oppose it here. As a result, we lost that draft Order. How do you intend to move forward with that draft Order, which was to be so important for housing in Wales?

The First Minister: We will move forward in the same way as we planned to do before the election, namely by ensuring that the draft LCO returns to Parliament. That is the Government's policy, and that is what the Assembly, which represents the people of Wales, has decided. The draft Order is extremely important to ensure that we have affordable housing in Wales for the future. Therefore, there will be no turning our back on the draft LCO. We will press ahead with it, as was the intention prior to the election.

Employment and Support Allowance

Q7 David Lloyd: Will the First Minister make a statement on the assessment regulations for the employment and support allowance for disabled people? OAQ(3)2815(FM)

The First Minister: Although the employment and support allowance assessment is a non-devolved responsibility, I have committed to work with the Department for Work and Pensions to ensure that people in Wales are not unfairly disadvantaged.

David Lloyd: Thank you for that response, First Minister. We fully understand that the matter is not devolved, but we have heard concerns from the organisation Citizens Advice about the difficulties that some people have experienced with the assessment

broses asesu. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael i sicrhau bod digon o gymorth a chefnogaeth ar gael i'r sawl sy'n cael eu hasesu i fod yn gymwys i weithio wedi cyfnod o salwch, a hwnnw weithiau yn gyfnod hir a'r salwch yn ddifrifol?

Y Prif Weinidog: Gwn y cynhaliwyd adolygiad o'r system asesu ac y cyhoeddwyd adroddiad ddiwedd mis Mawrth. Deallaf hefyd fod gwaith yn cael ei wneud er mwyn gwella'r ddeddfwriaeth, a hynny er mwyn sicrhau y caiff system asesu newydd ei chyflwyno pan fydd y ddeddfwriaeth wedi'i gwneud. Felly, gwnaed adolygiad ac, yn dilyn ei argymhellion, bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei chreu.

Mohammad Asghar: The biggest financial asset for most people is their ability to earn. However, it is sad that some people do not have that ability and therefore need help and support. It is crucial that those who are able to work are not limited by welfare dependency, and it is essential that those entitled to the employment and support allowance are provided with the support that they need to get the assistance to which they are rightly entitled. What measures has the Welsh Assembly Government taken to ensure that those people moving from income support and incapacity benefits to jobseekers allowance are given the encouragement and support that they need to get on the employment ladder? What measures is the Welsh Assembly Government taking to assist local authorities and the voluntary sector in offering disabled people the assistance that they need during the application and assessment process for employment and support allowance?

The First Minister: Citizens Advice often provides support for people going through that process. You asked specifically what is being done to get people back to work; what you have to remember is that ESA is underpinned by a proactive, work-focused system that makes Pathways to Work support available to everyone receiving incapacity benefit and ESA. That means a series of work-focused interviews, access to the condition management programme, and

process. What discussions have you had to ensure that there is enough support and assistance available to those being assessed as competent to work following a period of illness, which sometimes has been a long period and the illness serious?

The First Minister: I know that a review of the assessment system was held and that a report was published at the end of March. I also understand that work is under way to improve the legislation, to ensure that a new assessment system is introduced when the legislation has been passed. Therefore, there was a review and, following its recommendations, legislation will be brought forward.

Mohammad Asghar: Yr ased ariannol mwyaf i'r rhan fwyaf o bobl yw eu gallu i ennill. Serch hynny, mae'n drist nad yw'r gallu hwnnw gan rai pobl ac felly fod angen cymorth a chefnogaeth arnynt. Mae'n hollbwysig nad yw eu dibyniaeth ar y gwasanaeth lles yn cyfyngu ar y rhai sy'n gallu gweithio, ac mae'n hanfodol i'r rhai y mae ganddynt yr hawl i gael y lwfans cyflogaeth a chymorth gael y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt er mwyn iddynt allu cael y cymorth y mae ganddynt berffaith hawl iddo. Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cymryd i sicrhau bod y rhai sy'n symud oddi wrth y cymhorthdal incwm a budd-daliadau analluogrwydd i'r lwfans ceisio gwaith yn cael yr anogaeth a'r cymorth y mae eu hangen arnynt i gamu ar ysgol cyflogaeth? Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i gynorthwyo awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol o ran cynnig i bobl anabl y cymorth y mae ei angen arnynt wrth iddynt wneud cais am y lwfans cyflogaeth a chymorth ac wrth iddynt fynd drwy'r broses asesu?

Y Prif Weinidog: Bydd Cyngor ar Bopeth yn aml yn rhoi cymorth i bobl sy'n mynd drwy'r broses honno. Gofynasoch yn benodol beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod pobl yn dychwelyd i'r gwaith; yr hyn y mae'n rhaid ichi ei gofio yw bod system ragweithiol, sy'n canolbwyntio ar waith, yn sylfaen i'r lwfans cyflogaeth a chymorth. Mae hynny'n golygu bod cymorth Llwybrau at Waith ar gael i bawb sy'n cael budd-dal analluogrwydd a'r lwfans cyflogaeth a chymorth. Mae hynny'n

access to a return to work credit of £40 a week for up to 52 weeks. As well as ESA, there is a package to help people back to work.

Priorities for the Welsh Economy

Q8 Nick Bourne: Will the First Minister outline his priorities for the Welsh economy during 2010? OAQ(3)2829(FM)

The First Minister: My priorities are to continue to build on the work that we have set in train through the economic summits to lead Wales out of recession, and, as I have mentioned more than once, to implement a new strategic direction on economic development through the economic renewal programme.

Nick Bourne: Reference has already been made, in a comment by Leanne Wood on a question from Christine Chapman, to the excellent report by the Bevan Foundation on the move from carbon-intensive industries to greener industries. It recognised that, with job losses in the carbon-intensive sector, there is an additional challenge to move towards green jobs. The foundation says that we are not well-placed in relation to waste management, renewable energy or issues of that kind. What is your Government doing in response to that report, and the serious challenges that we face in moving from carbon-intensive to greener jobs?

The First Minister: I gave my answer earlier on. Reference has been made to Centillion Environment and Recycling UK Ltd, which is a fine example of a recycling company in Wales, and I am aware of proposals across Wales to look at ways of dealing with waste that do not involve landfill—there is a lot of interest in that. There is also a great deal of interest in the manufacture and maintenance of wind turbines, particularly offshore. There are great opportunities for us there in utilising our ports, and utilising some of the brownfield land that we have in Wales, in order to ensure that we capitalise on our

golygu cyfres o gyfweiliadau sy'n canolbwyntio ar waith, mynediad at y rhaglen rheoli cyflyrau, a mynediad at gredyd dychwelyd i'r gwaith gwerth £40 yr wythnos am hyd at 52 wythnos. Yn ogystal â'r lwfans cyflogaeth a chymorth, mae pecyn ar gael i gynorthwyo pobl i ddychwelyd i'r gwaith.

Blaenoriaethau ar gyfer Economi Cymru

C8 Nick Bourne: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer economi Cymru yn ystod 2010? OAQ(3)2829(FM)

Y Prif Weinidog: Fy mlaenoriaethau yw parhau i ddatblygu'r gwaith sydd ar y gweill drwy'r uwchgynadleddau economaidd er mwyn arwain Cymru o'r dirwasgiad, ac, fel yr wyf wedi sôn fwy nag unwaith, rhoi cyfeiriad strategol newydd ar gyfer datblygu economaidd ar waith drwy raglen adnewyddu'r economi.

Nick Bourne: Mae Leanne Wood eisoes wedi sôn, yng nghyd-destun cwestiwn gan Christine Chapman, am yr adroddiad rhagorol gan Sefydliad Bevan ynghylch symud oddi wrth ddiwydiannau sy'n allyrru llawer o garbon at ddiwydiannau gwyrddach. Yr oedd yn cydnabod, wrth inni golli swyddi yn y sector sy'n allyrru llawer o garbon, fod her ychwanegol inni symud at swyddi gwyrdd. Dywed y sefydliad nad ydym mewn sefyllfa dda o ran rheoli gwastraff, ynni adnewyddadwy neu faterion o'r math hwnnw. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i ymateb i'r adroddiad hwnnw, a'r heriau difrifol a wynebwn wrth symud oddi wrth swyddi mewn meysydd sy'n allyrru llawer o garbon at swyddi gwyrddach?

Y Prif Weinidog: Rhoddais fy ateb gynnu. Cyfeiriwyd at Centillion Environment and Recycling UK Ltd, sy'n enghraifft dda o gwmni ailgylchu yng Nghymru, a gwn am gynigion ledled Cymru i edrych ar ffyrdd o ymdrin â gwastraff nad ydynt yn golygu tirlenwi—mae llawer o ddiddordeb yn hynny. Mae llawer o ddiddordeb hefyd mewn gweithgynhyrchu a chynnal tyrbinau gwynt, yn enwedig rhai ar y môr. Mae cyfleoedd mawr inni yn y maes hwnnw i ddefnyddio ein porthladdoedd, a defnyddio rhywfaint o'r tir llwyd sydd gennym yng Nghymru, er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ein

renewable sources. We would be missing a trick if we were to develop renewable energy in Wales without ensuring that there was an economic advantage in terms of the kit that generates that energy being manufactured and maintained here. The green jobs strategy is part of that, but I am also aware of a number of potential developments where that could come to fruition.

Jeff Cuthbert: First Minister, we know that, if the Conservatives had had their way, we would not be benefiting from European structural funds now. Do you agree that our economic strategy will continue our positive and innovative use of European structural funds, particularly following the Lisbon agenda for the development of skills, which includes encouragement for higher education and industry to work together to maximise higher-level skills, and our programme of apprenticeships to equip young people with the skills that they need for the remainder of this century?

The First Minister: I quite agree. Objective 1, convergence, Objective 2 and competitiveness funding have been essential to us in rebuilding what had been, before 1997, a devastated Welsh economy. It is through the hard work of administrations post-1997 that we have seen real economic growth in Wales. That shows that, with a bit of hard work, you can access additional funding, but I am afraid that the last Tory Government could not be bothered to do that.

Chris Franks: Would you agree that, in order for Wales to succeed, our home-grown businesses must succeed? What discussions have you had to ensure that Welsh businesses get the funds that they require to develop new ideas and expand and create sustainable jobs in all parts of Wales? Would you make a statement on the creation of a venture capital fund to help Welsh businesses?

The First Minister: You know about Finance Wales and the investment that it makes in early-stage and start-up businesses. It has invested over £151 million to date, and

ffynonellau adnewyddadwy. Byddem yn colli cyfle petaem yn datblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru heb sicrhau mantais economaidd o ran ein bod yn gweithgynhyrchu ac yn cynnal a chadw'r offer sy'n cynhyrchu'r ynni hwnnw yma. Mae'r strategaeth swyddi gwyrdd yn rhan o hynny, ond yr wyf hefyd yn ymwybodol o nifer o ddatblygiadau posibl lle y gallai hynny ddwyn ffrwyth.

Jeff Cuthbert: Brif Weinidog, gwyddom, petai'r Ceidwadwyr wedi cael rhwydd hynt, na fyddem yn elwa o Gronfeydd Strwythurol Ewrop yn awr. A gytunwch y bydd ein strategaeth economaidd yn golygu parhau i ddefnyddio cronfeydd strwythurol Ewrop mewn ffordd gadarnhaol ac arloesol, yn enwedig ar ôl agenda Lisbon ar gyfer datblygu sgiliau. Mae honno'n cynnwys annog addysg uwch a diwydiant i gydweithio er mwyn sicrhau cynifer o sgiliau lefel uwch ag sy'n bosibl, a'n rhaglen prentisiaethau i roi'r sgiliau i bobl ifanc y mae eu hangen arnynt ar gyfer gweddill y ganrif hon?

Y Prif Weinidog: Cytunaf yn llwyr. Mae arian Amcan 1, arian cydgyfeiriant, arian Amcan 2 ac arian cystadleurwydd wedi bod yn hanfodol wrth inni ailadeiladu economi a oedd cyn 1997 yn economi a oedd wedi'i niweidio'n ddychrynlyd yng Nghymru. Drwy waith caled gweinyddiaethau ar ôl 1997, yr ydym wedi gweld twf economaidd go iawn yng Nghymru. Dengys hynny, gydag ychydig o waith caled, y gallwch gael gafael ar arian ychwanegol, ond mae arnaf ofn nad oedd Lywodraeth ddiwethaf y Torïaid am drafferthu gwneud hynny.

Chris Franks: A fydddech yn cytuno bod yn rhaid i'n busnesau cynhenid lwyddo er mwyn i Gymru lwyddo? Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael i sicrhau bod busnesau Cymru yn cael yr arian y mae ei angen arnynt i ddatblygu syniadau newydd ac ehangu a chreu swyddi cynaliadwy ym mhob rhan o Gymru? A fydddech yn barod i roi datganiad inni am greu cronfa cyfalaf menter i gynorthwyo busnesau Cymru?

Y Prif Weinidog: Gwyddoch am Gyllid Cymru a'r buddsoddiad y mae'n ei wneud mewn busnesau sy'n cychwyn ac yn cymryd eu camau cyntaf. Mae wedi buddsoddi dros

has leveraged a further £350 million of private sector investment into those businesses. The next challenge for us is to develop areas where capital might be raised outside of Finance Wales; whether that is the development of some kind of bank, not perhaps directly, but working with an existing financial institution, looking at the development of local bond markets, or ensuring that our companies also look at flotation as a way of securing capital for the future. Certainly, Finance Wales has been essential in ensuring that many businesses get off the ground.

£151 miliwn hyd yn hyn, ac wedi denu dros £350 miliwn arall o fuddsoddiadau gan y sector preifat i'r busnesau hynny. Yr her nesaf inni yw datblygu meysydd lle y gellid codi arian y tu allan i Gyllid Cymru; boed hynny drwy ddatblygu rhyw fath o fanc, nid yn uniongyrchol efallai, ond drwy weithio gyda sefydliad ariannol sy'n bodoli eisoes, edrych ar ddatblygu marchnadoedd bondiau lleol, neu sicrhau bod ein cwmnïau hefyd yn ystyried gwerthu cyfranddaliadau er mwyn sicrhau cyfalaf ar gyfer y dyfodol. Yn sicr, mae Cyllid Cymru wedi bod yn hanfodol wrth sicrhau bod llawer o fusnesau'n cychwyn.

2.20 p.m.

Exchange of Information

Q9 Angela Burns: Will the First Minister outline the importance of the exchange of information, statistics and research between the Welsh Assembly Government and the UK Government and devolved administrations? OAQ(3)2819(FM)

The First Minister: This is an important aspect of inter-governmental arrangements within the UK. The four administrations are committed to making available to each other scientific, technical and policy information, including statistics and research.

Angela Burns: The memorandum of understanding says that the administrations recognise that co-operation is necessary to meet their respective policy and business objectives. As you are well aware, towns such as Narberth and Tenby in my constituency are in danger of becoming ghost towns because of the astonishing rate rises that they have experienced—a subject that I have brought up in the Assembly on a number of occasions, as has Nick Bourne. Did the Welsh Assembly Government undertake an impact assessment of the revaluation areas? Did it share with Westminster the effect that the rise in rates, due to the Valuation Office Agency reassessment, would have on places such as Narberth, Tenby, Llandudno and the Llŷn peninsula? All these hotspots in Wales are now struggling, leading, in part, to the kind

Cyfnawid Gwybodaeth

C9 Angela Burns: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pwysigrwydd cyfnawid gwybodaeth, ystadegau ac ymchwil rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig? OAQ(3)2819(FM)

Y Prif Weinidog: Mae hyn yn agwedd bwysig ar drefniadau rhynglywodraethol o fewn y Deyrnas Unedig. Mae'r pedair gweinyddiaeth wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth wyddonol, gwybodaeth dechnegol a gwybodaeth am bolisiau i'w gilydd, gan gynnwys ystadegau ac ymchwil.

Angela Burns: Mae'r memorandwm dealltwriaeth yn dweud bod y gweinyddiaethau'n sylweddoli bod angen cydweithredu er mwyn cyflawni eu hamcanion polisi a busnes hwy eu hunain. Fel y gwyddoch, ceir perygl i drefi megis Arberth a Dinbych-y-pysgod yn fy etholaeth droi'n ddiffieithwch oherwydd y cynnydd syfrdanol yn eu hardrethi—pwnc yr wyf fi, a Nick Bourne hefyd, wedi'i godi droeon yn y Cynulliad. A wnaeth Llywodraeth y Cynulliad gynnal asesiad effaith ar yr ardaloedd lle bu ailbrisiu? A soniodd wrth San Steffan am effaith y cynnydd hwnnw mewn ardrethi, oherwydd yr ailasesu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisiu, ar leoedd megis Arberth, Dinbych-y-pysgod, Llandudno a phenrhyn Llŷn? Mae pob un o'r manau hyn sydd wedi dioddef yn wael yng Nghymru yn cael trafferthion yn awr, ac mae hynny wedi

of action that you have taken to try to mitigate that. Did that happen as part of the memorandum of understanding on what should happen between all the devolved administrations, as it seems to me that this is not happening?

The First Minister: I am surprised to hear that Narberth and Tenby are struggling; that was not the impression that I had when I visited both towns in February. Narberth has done very well; it has grown and business has grown there, as it has done in Tenby over the years. We have discussed many times in the Chamber the business rate relief that is made available. If you want to see town centres that were destroyed, have a look at some of the Heads of the Valleys towns in the early 1990s—areas that your party destroyed in the first place then did nothing to regenerate. I am glad that Narberth and Tenby are doing well, but I am also glad that towns like Merthyr, Ebbw Vale, Carmarthen and Llanelli are now benefiting from so much that has been done by a Labour Government.

Tourism

Q10 Darren Millar: Will the First Minister make a statement on tourism in north Wales? OAQ(3)2825(FM)

The First Minister: North Wales is our most popular tourist destination and, to reflect this, it receives the highest level of regional funding in Wales. I am sure that the world heritage site status of the Pontcysyllte aqueduct will bring even more visitors to the area.

Darren Millar: You will be aware that the caravan park industry in north Wales is extremely important, drawing in around £40 million of expenditure into the local economy on an annual basis and supporting local businesses. Will you join me in congratulating the caravan park industry for the important role that it plays in tourism in north Wales? What action are you taking as an Assembly Government to prevent a small

arwain, i ryw raddau, at y math o gamau yr ydych wedi'u cymryd i geisio lliniaru hynny. A ddigwyddodd hynny fel rhan o'r memorandwm dealltwriaeth ynglŷn â'r hyn a ddylai ddigwydd rhwng yr holl weinyddiaethau datganoledig, oherwydd y mae'n ymddangos i mi nad yw hyn yn digwydd?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn synnu clywed bod Arberth a Dinbych-y-pysgod yn cael trafferthion; nid dyna'r argraff a gefais pan ymwelais â'r ddwy dref ym mis Chwefror. Mae Arberth wedi gwneud yn dda iawn; mae wedi tyfu ac mae busnes wedi tyfu yno, fel y mae wedi tyfu yn Ninbych-y-pysgod dros y blynyddoedd. Yr ydym wedi trafod droeon yn y Siambr y rhyddhad ardrethi busnes sydd ar gael. Os ydych am weld canol trefi a ddinistriwyd, edrychwch ar rai o drefi Blaenau'r Cymoedd ddechrau'r 1990au—ardaloedd a ddinistriwyd gan eich plaid yn y lle cyntaf ac wedyn na wnaethoch ddim i'w hadfywio. Yr wyf yn falch bod Arberth a Dinbych-y-pysgod yn ffynnu, ond yr wyf yn falch hefyd fod trefi megis Merthyr Tudful, Glynabwy, Caerfyrddin a Llanelli bellach yn elwa o'r holl waith sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Lafur.

Twristiaeth

C10 Darren Millar: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dwristiaeth yng ngogledd Cymru? OAQ(3)2825(FM)

Y Prif Weinidog: Gogledd Cymru yw atyniad twristiaeth mwyaf poblogaidd Cymru ac, i adlewyrchu hyn, mae'n cael y lefel uchaf o gyllid rhanbarthol yng Nghymru. Yr wyf yn siŵr y bydd y ffaith bod traphont ddŵr Pontcysyllte wedi cael statws safle treftadaeth y byd yn denu mwy byth o ymwelwyr i'r ardal.

Darren Millar: Gwyddoch fod diwydiant y meysydd carafannau yn y gogledd yn eithriadol o bwysig, gan ddenu tua £40 miliwn o wariant i'r economi leol bob blwyddyn a chefnogi busnesau lleol. A wnewch ymuno â mi i longyfarch y diwydiant meysydd carafannau am y rôl bwysig y mae'n ei chwarae o ran twristiaeth yn y gogledd? Pa gamau yr ydych chi, Lywodraeth y Cynulliad, yn eu cymryd i atal

number of unscrupulous caravan park operators from giving the industry a bad name by allowing people to live on their caravan parks unlawfully on a permanent basis, all year round? What will you do help address that particular problem and the concern that it poses for tourism in north Wales and elsewhere in the country?

The First Minister: The licensing of caravan sites is not a devolved issue, but if there are people living in caravans on caravan sites all year round, that might be a breach of planning permission. If that is the case, I would urge people with a complaint to make that complaint to the local authority, so that enforcement action can be taken, if that is appropriate.

nifer fach o gwmnïau meysydd carafannau diegwyddor rhag pardduo enw da'r diwydiant drwy ganiatáu i bobl fyw'n barhaol a hynny'n anghyfreithlon yn eu meysydd carafannau drwy'r flwyddyn? Beth a wnewch i geisio mynd i'r afael â'r broblem benodol honno a'r pryder y mae'n ei greu yn y maes twristiaeth yn y gogledd ac mewn mannau eraill yn y wlad?

Y Prif Weinidog: Nid yw trwyddedu meysydd carafannau'n fater sydd wedi'i ddatganoli, ond os oes pobl yn byw mewn carafannau ar feysydd carafannau drwy'r flwyddyn, efallai fod hynny'n torri amodau eu caniatâd cynllunio. Os felly, byddwn yn annog pobl a chanddynt gŵyn i gwyno wrth yr awdurdod lleol, er mwyn iddo gymryd camau gorfodi, os yw hynny'n briodol.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): There are no changes to report to this week's planned Government business. Business for the next three weeks is as set out in the business statement and announcement, which can be found in the agenda papers that are available to Members electronically.

Mark Isherwood: I call for a single Government statement in relation to Welsh Government policy on provision of life-extending drugs for cancer patients. I was approached by a patient who was sadly told in January that he was expected to live for less than 12 months. He is, therefore, seeking Avastin, one of the drugs that is believed to extend life. I therefore approached the local health board and was told that, because it is not recommended by the National Institute for Health and Clinical Excellence, it would have to be referred to the cancer clinical programme group's cancer drug panel for the costs to be weighed against the benefits—to use its terminology. NICE also confirmed what my constituent was advised about the policy difference between England and Wales: if he now liquidates his life savings and policies to pay for the drug privately, he will also have to pay for his treatment, CT scans, blood tests and so forth, but would not

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Nid oes newidiadau i'w cyhoeddi ym musnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau ar ffurf electronig.

Mark Isherwood: Yr wyf yn galw am un datganiad gan y Llywodraeth ynglŷn â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddarparu cyffuriau sy'n ymestyn oes i gleifion canser. Daeth claf ataf a gafodd wybod yn anffodus ym mis Ionawr nad oedd ganddo fwy na 12 mis i fyw. Felly, mae'n ceisio cael Avastin, un o'r cyffuriau y credir ei fod yn ymestyn oes. Felly, euthum at y bwrdd iechyd lleol a dywedwyd wrthyf, oherwydd nad yw'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol yn ei argymhell, y byddai'n rhaid ei gyfeirio at banel cyffuriau canser grŵp y rhaglen glinigol ar gyfer canser er mwyn i hwnnw bwysu a mesur y costau o'u cymharu â'r manteision—a defnyddio'i derminoleg ef. Cadarnhaodd NICE hefyd yr hyn a ddywedwyd wrth fy etholwr ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng y polisi yn Lloegr ac yng Nghymru: os bydd yn awr yn troi ei gynilion oes a'i bolisïau'n arian parod i dalu am y cyffur yn breifat, bydd yn

have to do so if he lived a few miles away in England. If he was to do this, and liquidated his life savings, he would leave his wife with nothing except for the basic state pension to live on. There is, effectively, a cross-border lottery in provision, hence my call for a statement in the hope that we can address that apparent lottery so that people in this unenviable position do not have to use their savings to pay for their treatment.

Jane Hutt: It is important, as you know, that we have NICE approval of the clinical effectiveness of such life-extending drugs, and I am sure that your constituents would recognise and agree with that. We must also recognise that there are policy differences. In Wales, we have free prescriptions for all and for all conditions.

Andrew R.T. Davies: I seek two statements from you, Minister, the first of which would be on hospital transport. I understand that the Minister for Health and Social Services has endeavoured, along with Win Griffiths, to hold a review of hospital transport. This is now considerably overdue, and I think that Members would appreciate an update as to the current position. Is it in its final stages, or is the Minister able to bring the final report to Plenary? I have had many queries about the state of this report and review, and about hospital transport services across Wales.

Also, as it is Asthma Day, I would welcome a statement from the Minister for Health and Social Services on the action that she, along with her colleague, the Minister for Children, Education and Lifelong Learning, is undertaking on guidelines for schools on the resource implications of training staff to be aware of chronic asthma attacks. I met with Asthma UK Cymru this morning. It highlighted a particular circular that causes it

rhaid iddo dalu hefyd am ei driniaeth, ei sganiau CT, ei brofion gwaed ac yn y blaen, ond ni fyddai'n rhaid iddo wneud hynny petai'n byw ychydig filltiroedd i ffwrdd yn Lloegr. Petai'n gwneud hyn, ac yn troi ei gynilion oes yn arian parod, o'r herwydd ni fyddai gan ei wraig ddim ac eithrio pensiwn sylfaenol y wladwriaeth iddi fyw arno. Felly, mewn gwirionedd, mae gennym loteri drawsffiniol yn y ddarpariaeth, a dyna pam yr wyf yn galw am ddatganiad gan obeithio y gallwn fynd i'r afael â'r loteri ymddangosiadol honno fel nad oes yn rhaid i bobl sydd yn y sefyllfa hon, na fyddai neb ohonom am fod ynnddi, ddefnyddio'u cynilion i dalu am eu triniaeth.

Jane Hutt: Mae'n bwysig, fel y gwyddoch, bod NICE yn cymeradwyo effeithiolrwydd clinigol cyffuriau sy'n ymestyn oes o'r fath, ac yr wyf yn siŵr y byddai'ch etholwyr yn cydnabod hynny ac yn cytuno. Rhaid inni sylweddoli hefyd fod gwahaniaethau o ran polisi. Yng Nghymru, mae gennym bresgripsiynau am ddim i bawb ac ar gyfer pob cyflwr.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn gofyn am ddau ddatganiad gennyh, Weinidog, a byddai'r cyntaf o'r rheini'n ymwneud â chludiant i'r ysbyty. Caf ar ddeall bod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymdrechu, ochr yn ochr â Win Griffiths, i gynnal adolygiad o gludiant i'r ysbyty. Mae'n hen bryd cael hwn yn awr, a chredaf y byddai'r Aelodau'n gwerthfawrogi cael gwybod beth yw'r sefyllfa erbyn hyn. A yw yn ei gamau olaf, neu a all y Gweinidog ddod â'r adroddiad terfynol gerbron y Cyfarfod Llawn? Yr wyf wedi cael llawer o ymholiadau am gyflwr yr adroddiad a'r adolygiad hwn, ac am wasanaethau cludiant i'r ysbyty ledled Cymru.

Hefyd, gan ei bod yn ddiwrnod Asthma, byddwn yn croesawu datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y camau y mae hi, ynghyd â'i chyd-Weinidog, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn eu cymryd o ran rhoi canllawiau i ysgolion am oblygiadau hyfforddi staff i fod yn ymwybodol o bylliau asthma cronig, o ran adnoddau. Cyfarfûm ag Asthma UK Cymru y bore yma. Tynnodd

some concern, which is on the access to education for children with medical needs—a former Welsh Office circular. I know that the Minister for Children, Education and Lifelong Learning is well aware of the issues around this, and he has been a good supporter of Asthma UK Cymru, but there is concern regarding the circular, which dates back pre-devolution, and its status and upgrading. I am sure that other Assembly Members would also benefit from a statement from the Government so that we can understand clearly where the Government stands on guidelines to schools on the importance of identifying such issues. Above all, I am seeking an intervention so that we can ensure that we in Wales do not suffer a tragic incident in one of our schools like the one that was seen in England last year. I would be grateful if one or both of those statements could be brought forward to Plenary.

Jane Hutt: You are aware that patient transport services are a priority for the Minister for Health and Social Services. I understand that an important review is under way. I am sure that the Minister will come back to report on its outcome as a matter of urgency.

On your second point, you almost answered the question that you raised, Andrew, in terms of the important work that has been undertaken by Asthma UK Cymru. When I was Minister for education, I was able to meet with that organisation, but the current Minister for education is very engaged in addressing, as you say, the key issue, which is to ensure that schools, the teaching profession and all school staff are aware of the importance of this in terms of guidance and support in education. This is also a matter that the Minister for Health and Social Services is taking very seriously.

sylw at gylchlythyr penodol—un o hen gylchlythyrau'r Swyddfa Gymreig—sy'n peri rhywfaint o bryder. Mae'n ymwneud â'r mynediad at addysg i blant a chanddynt anghenion meddygol. Gwn fod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gwybod yn dda am y materion sy'n gysylltiedig â hyn, a'i fod wedi bod yn gefnogwr da i Asthma UK Cymru, ond mae'r cylchlythyr hwn, sy'n perthyn i'r cyfnod cyn datganoli, a statws y cylchlythyr a'i uwchraddio, yn destun pryder. Yr wyf yn siŵr hefyd y byddai Aelodau eraill o'r Cynulliad yn cael budd o gael datganiad gan y Llywodraeth er mwyn inni ddeall yn glir beth yw safbwynt y Llywodraeth ynghylch canllawiau i ysgolion ynglŷn â phwysigrwydd adnabod problemau o'r fath. Yn anad dim, yr wyf yn gofyn am ymyriad er mwyn inni allu sicrhau nad ydym ni yng Nghymru yn cael digwyddiad trasig yn un o'n hysgolion megis hwnnw a welwyd yn Lloegr y llynedd. Byddwn yn ddiolchgar pe gellid cyflwyno un o'r datganiadau hynny neu'r ddau gerbron y Cyfarfod Llawn.

Jane Hutt: Gwyddoch fod gwasanaethau cludiant i gleifion yn flaenoriaeth i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Caf ar ddeall fod adolygiad pwysig ar y gweill. Yr wyf yn siŵr y daw'r Gweinidog yn ôl i adrodd ynglŷn â'i ganlyniad yn ddi-oed.

O ran eich ail bwynt, atebasoch eich cwestiwn eich hun bron, Andrew, wrth sôn am y gwaith pwysig y mae Asthma UK Cymru wedi'i wneud. Pan oeddwn yn Weinidog dros addysg, llwyddais i gyfarfod â'r sefydliad hwnnw, ond mae'r Gweinidog addysg presennol yn ymwneud llawer â mynd i'r afael â'r prif fater, fel y dywedwch, sef sicrhau bod ysgolion, y proffesiwn addysgu a holl staff ysgolion yn sylweddoli mor bwysig yw hyn o ran canllawiau a chymorth ym maes addysg. Mae hyn hefyd yn fater y mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi sylw difrifol iddo.

Llythrennedd Literacy

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Alun Cairns.

The Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of Alun

Cairns.

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): I move that

the National Assembly for Wales:

1. recognises the importance of literacy to the economic and social wellbeing of Wales;

2. supports the development of a four-year literacy action plan targeted at primary schools and focused on raising attainment standards overall and on closing the gender gap. (NDM4464)

The motion before the Assembly recognises the importance of literacy to the economic and social wellbeing of Wales. We have to compete in a global economy with an increasing demand for highly skilled employees. A modern country will succeed when its population is well educated and fully engaged in community life and work. However, too many children, young people and adults in Wales have poor basic skills. The 2004 survey of adult literacy in Wales noted that 25 per cent of adults, or 440,000 of those aged 16 to 65, had a literacy level that did not allow them to function fully, to make progress in their work, or to take a full part in society. We know that employers complain regularly about basic skills levels.

2.30 p.m.

Those who have poor literacy skills are likely to underachieve in schools and are more likely to become disengaged and excluded from learning. They are likely to live in a non-working household and to have health problems. They are less likely to take part in community life and to vote in elections. These and other factors clearly indicate that poor literacy skills are closely linked to poverty and child poverty—poverty of aspiration and wellbeing as well as economic poverty. By the time that they are three years of age, poor children may be up to a year behind in terms of their cognitive

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Cynigiai fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn cydnabod pwysigrwydd llythrennedd i les economaidd a chymdeithasol Cymru;

2. yn cefnogi datblygu cynllun gweithredu llythrennedd pedair blynedd sy'n targedu ysgolion cynradd ac sy'n canolbwyntio ar godi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol ac ar gau'r bwlch rhwng y rhywiau. (NDM4464)

Mae'r cynnig sydd gerbron y Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd llythrennedd i les economaidd a chymdeithasol Cymru. Rhaid inni gystadlu mewn economi fyd-eang lle y mae galw cynyddol am weithwyr medrus iawn. Bydd gwlad fodern yn llwyddo pan fydd ei phoblogaeth wedi'i haddysgu'n dda ac yn ymwneud yn llawn â bywyd y gymuned a byd gwaith. Serch hynny mae sgiliau sylfaenol gormod o blant, pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru'n wael. Yn yr arolwg o lythrennedd oedolion a gynhaliwyd yng Nghymru yn 2004, nodwyd nad oedd lefel llythrennedd 25 y cant o oedolion, neu 440,000 o'r rhai rhwng 16 a 65 oed, yn caniatáu iddynt na gweithredu'n llawn, na gwneud cynnydd yn eu gwaith, na chymryd rhan lawn yn y gymdeithas. Gwyddom fod cyflogwyr yn cwyno'n rheolaidd am lefelau sgiliau sylfaenol.

Mae'r rhai sy'n brin eu sgiliau llythrennedd yn debyg o dangyflawni mewn ysgolion ac yn fwy tebyg o ymddieithrio o fyd addysg a chael eu hallgáu. Maent yn debyg o fyw ar aelwyd lle nad oes neb yn gweithio ac o gael problemau iechyd. Maent yn llai tebyg o gymryd rhan ym mywyd y gymuned a phleidleisio mewn etholiadau. Mae'r rhain a ffactorau eraill yn dangos yn glir fod cysylltiad clòs rhwng sgiliau llythrennedd gwael a thlodi a thlodi plant—tlodi o ran dyheadau a lles yn ogystal â thlodi economaidd. Erbyn iddynt gyrraedd tair oed, gall plant tlawd fod hyd at flwyddyn ar ei hôl

development. Just over 4 per cent of those pupils receiving free school meals remain at school to take A-levels, compared with around 40 per cent of young people overall.

The motion proposes that the National Assembly for Wales

‘supports the development of a four-year literacy action plan targeted at primary schools and focused on raising attainment standards overall and on closing the gender gap’.

The statistics show that Wales has work to do on literacy, which is why I will support amendment 2 to the motion. In the Programme for International Student Assessment survey, better known as PISA, we fell behind England, Scotland and the Republic of Ireland. The 2006 PISA report said that for 15-year-olds

‘the mean score for reading in Wales was below the OECD average and this difference was statistically significant’.

We were, in fact, similar to Germany, Denmark and France, but that is not enough. We can be confident that targeted, tracked and consistently applied programmes aimed at seven to 11-year-olds will make a real difference in Wales, and will feed through to improved PISA results when those children are 15 years old.

We have made progress in raising standards of literacy and numeracy. Even so, too many children are still leaving school with a poor grasp of the basics, and are not equipped for modern society and employment. Research evidence has shown that children who have not become fully literate by the age of 11 have only a 25 per cent chance of improving their skills by age 14, and that by the age of 14 the chances of improvement by 16 years of age is only 6 per cent. Therefore, we need to do more to address the problem early. Without good literacy skills, children entering secondary schools cannot readily access the wider curriculum. We will

hi o ran eu datblygiad gwybyddol. Ychydig dros 4 y cant o'r disgyblion hynny sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n aros yn yr ysgol i sefyll eu Safon Uwch, o'u cymharu â thua 40 y cant o bobl ifanc drwyddi draw.

Y cynnig yw bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

‘yn cefnogi datblygu cynllun gweithredu llythrennedd pedair blynedd sy'n targedu ysgolion cynradd ac sy'n canolbwyntio ar godi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol ac ar gau'r bwlch rhwng y rhywiau’.

Dengys yr ystadegau y gwaith sydd gan Gymru i'w wneud ym maes llythrennedd, a dyna pam y byddaf yn cefnogi gwelliant 2 i'r cynnig. Yn ôl arolwg y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, sy'n fwy adnabyddus o dan yr enw PISA, nid oeddem yn gwneud cystal â Lloegr, yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon. Dywedodd adroddiad PISA 2006 wrth sôn am bobl ifanc 15 oed

yr oedd y sgôr gymedrig ar gyfer darllen yng Nghymru yn is na chyfartaledd OECD ac yr oedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol.

A dweud y gwir, yr oeddem yn debyg i'r Almaen, Denmarc a Ffrainc, ond nid yw hynny'n ddigon. Gallwn fod yn ffyddiog bod rhaglenni sydd wedi'u targedu, sy'n cael eu holrhain a'u rhoi ar waith yn gyson, a anelir at blant rhwng saith ac 11 oed yn gwneud gwahaniaeth go iawn yng Nghymru, ac y bydd gwell canlyniadau PISA yn sgil hynny pan fydd y plant hynny'n 15 oed.

Yr ydym wedi gwneud cynnydd o ran codi safonau llythrennedd a rhifedd. Er hynny, mae gormod o blant yn dal i ymadael â'r ysgol heb afael gadarn ar y pethau sylfaenol, a heb eu harfogi i ymdopi â chymdeithas a chyflogaeth yn yr oes hon. Mae tystiolaeth ymchwil wedi dangos mai dim ond 25 y cant o gyfle sydd i blant nad ydynt yn gwbl lythrennog erbyn iddynt gyrraedd 11 oed wella'u sgiliau erbyn iddynt gyrraedd 14, ac erbyn iddynt gyrraedd 14 mai dim ond 6 y cant o gyfle sydd iddynt wella erbyn iddynt gyrraedd 16 oed. Felly, mae angen inni wneud rhagor i fynd i'r afael â'r broblem yn gynnar. Heb sgiliau llythrennedd da, ni all

continue our support for those young people who still need it in key stages 3 and 4 by funding catch-up programmes in secondary schools.

Evidence from within Wales, from across the UK and from international research shows that those schools, regions and countries that are most successful at raising standards of attainment have placed a strong emphasis on literacy in the early years. This is linked to raising teachers' skills, so that they are all teachers of literacy as well as having specialist knowledge in other areas. The better the teaching, the better the learning.

For those falling behind in their learning, targeted, early intervention is critical. All the top-performing school systems in the world are effective in identifying those falling behind in their reading and in other literacy skills. They have high expectations of achievement and employ intervention strategies that have proven effective. They monitor children's progress frequently, at regular intervals and over time. That approach is essential if standards are to be raised.

For children at school, we need a transformation of practice by educators at all levels. Our school effectiveness framework is key. It allows all schools to plan, track and evaluate progress at individual, school and local-authority level. We also need best practice to be shared through professional learning communities and used much more widely. Performance across, and even within, Welsh authorities is not consistent, so there are challenges to face. Estyn has reinforced that on many occasions. To learn from best practice means looking at places such as West Dunbartonshire, which made a difference in respect of literacy skills because it focused on a 12-year plan to develop an approach that is applied in every school, that uses the same consistent methods, and that measures and tracks every child's progress.

plant sy'n cychwyn yn yr ysgol uwchradd fanteisio'n rhwydd ar y cwricwlwm ehangach. Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r bobl ifanc hynny y bydd angen cymorth arnynt o hyd yng nghyfnod allweddol 3 a 4 drwy ariannu rhaglenni dal i fyny mewn ysgolion uwchradd.

Dengys y dystiolaeth o Gymru ei hun, o bob cwr o'r Deyrnas Unedig ac o waith ymchwil rhyngwladol fod yr ysgolion, y rhanbarthau a'r gwledydd sy'n llwyddo orau i godi safonau cyrhaeddiad wedi rhoi pwyslais cryf ar lythrennedd yn y blynyddoedd cynnar. Mae a wnelo hyn â gwella sgiliau athrawon er mwyn iddynt i gyd fod yn athrawon llythrennedd yn ogystal â bod ganddynt wybodaeth arbenigol mewn meysydd eraill. Gorau'n y byd y bydd yr addysgu, gorau'n y byd y bydd y dysgu.

I'r rhai sy'n mynd ar ei hôl hi yn eu dysgu, mae'n hanfodol ymyrryd yn fuan a thargedu'r ymyriadau hynny. Mae'r holl systemau ysgolion sy'n gwneud orau yn y byd yn llwyddo i adnabod y rhai sydd ar ei hôl hi yn eu darllen ac o ran sgiliau llythrennedd eraill. Maent yn disgwyl cyflawniad da ac yn defnyddio strategaethau ymyrryd sydd wedi profi eu bod yn effeithiol. Byddant yn monitro cynnydd plant yn aml, ac yn rheolaidd a thros gyfnod. Mae'n hanfodol gwneud hynny er mwyn codi safonau.

I blant sydd yn yr ysgol, mae angen gweddnewid arferion addysgwyr ar bob lefel. Ein fframwaith effeithiolrwydd ysgolion yw'r allwedd. Mae'n caniatáu i bob ysgol gynllunio, olrhain a gwerthuso cynnydd ar lefel unigolion, ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae angen inni hefyd rannu'r arferion gorau drwy gyfrwng cymunedau dysgu proffesiynol a'u defnyddio'n fwy eang o lawer. Nid yw'r perfformiad yn gyson rhwng awdurdodau Cymru, na hyd yn oed o fewn yr awdurdodau hynny, felly mae heriau i'w hwynebu. Mae Estyn wedi ategu hynny droeon. Mae dysgu yn sgîl yr arferion gorau'n golygu edrych ar fannau megis Gorllewin Sir Dunbarton. Yno, maent wedi gwneud gwahaniaeth o ran sgiliau llythrennedd drwy ganolbwyntio ar gynllun 12 mlynedd i ddatblygu dull a roddir ar waith ym mhob ysgol. Mae hwnnw'n defnyddio'r un dulliau cyson ac yn mesur ac yn olrhain

cynnydd pob plentyn.

We know that where catch-up programmes are running in our local authorities, where they are run well and consistently, and where children's progression is tracked, these programmes deliver year-on-year increases in reading and writing performance, taking the child to the level expected for his or her age. We will build on success to embed proven methods and approaches in our education system to make a difference. Already, over 5,500 primary pupils a year benefit from our existing literacy catch-up programmes, but that is not enough.

Gwyddom, lle y bydd rhaglenni dal i fyny ar waith yn ein hawdurdodau lleol, lle y cânt eu rhoi ar waith yn dda ac yn gyson, a lle yr olrheinir cynnydd plant, y bydd y rhaglenni hyn yn sicrhau cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall o ran perfformiad darllen ac ysgrifennu, gan dywys y plentyn i'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer ei oedran. Byddwn yn adeiladu ar sail llwyddiant er mwyn i ddulliau ac ymagweddau fwrw gwreiddiau yn ein system addysg a gwneud gwahaniaeth. Eisoes, mae dros 5,500 o ddisgyblion cynradd bob blwyddyn yn elwa o'r rhaglenni dal i fyny sydd gennym yn barod ym maes llythrennedd, ond nid yw hynny'n ddigon.

We have a lot of good practice to build on. The most consistently used catch-up programme in Wales is that developed by Oxford Brookes University. There are other, very good, projects devised by Welsh authorities, such as the Esteem programme in Neath Port Talbot.

Mae gennym lawer o arferion da'n sail inni adeiladu arnynt. Y rhaglen dal i fyny a ddefnyddir yn fwyaf cyson yng Nghymru yw honno a ddatblygwyd gan Brifysgol Oxford Brookes. Mae prosiectau da iawn eraill sydd wedi'u dyfeisio gan awdurdodau Cymru, megis rhaglen Esteem sydd ar waith yng Nghastell-nedd Port Talbot.

We can be confident that improving teaching and assessment of literacy for all seven to 11-year-olds, coupled with targeted, tracked and consistently applied programmes for those falling behind, will make a real difference in Wales.

Gallwn fod yn ffyddiog y bydd gwella addysgu ac asesu llythrennedd i bob plentyn rhwng saith ac 11 oed, ynghyd â rhaglenni a dargedir, a olrheinir ac a roddir ar waith yn gyson ar gyfer y rhai sydd ar ei hôl hi, yn gwneud gwahaniaeth go iawn yng Nghymru.

One particularly significant issue is the gap in achievement between boys and girls. That is 10 per cent by age 11 and 16 per cent by the age of 16. It is one of the key factors underlying the lower levels of literacy and consequent lower standards of attainment generally. The gender gap is evident from an early age. To close that gap, we need to employ specific proven strategies to respond to the differences in the ways in which boys and girls learn to read, linked to appropriate targeted intervention.

Un mater arbennig o arwyddocaol yw'r bwlch rhwng cyflawniad bechgyn a merched. Mae'r bwlch hwnnw'n 10 y cant erbyn 11 oed ac yn 16 y cant erbyn 16 oed. Dyna un o'r ffactorau allweddol sy'n sail i'r lefelau llythrennedd is a'r safonau cyrhaeddiad cyffredinol is yn sgîl hynny. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau'n amlwg ym more oes. I gau'r bwlch hwnnw, mae angen inni ddefnyddio strategaethau penodol y profwyd eu bod yn gweithio er mwyn ymateb i'r gwahaniaethau yn y ffyrdd y bydd bechgyn a merched yn dysgu darllen, gan gysylltu hynny ag ymyriadau priodol sydd wedi'u targedu.

I commend the following strands to you as the basis for an initial four-year action plan to raise literacy standards and to close the gender gap. First is a zero tolerance of low levels of literacy and the launch of a four-

Cymeradwyaf y llinynnau canlynol ichi'n sylfaen ar gyfer cynllun pedair blynedd i godi safonau llythrennedd ac i gau'r bwch rhwng y rhywiau. Yn gyntaf, ni ddylid goddef lefelau llythrennedd isel o gwbl ac mae

year action plan as a national priority. Second is a drive to raise standards of teaching literacy for all practitioners at all levels. Third is to continue and improve targeted intervention for all children aged seven to 11 who are falling behind in their reading. Fourth is an emphasis on better engagement of the family and wider community in family learning and a mentoring and coaching support programme to tackle socio-economic disadvantages. Fifth is the establishment of a national steering group to provide expertise and leadership at a national level and to champion the implementation of the literacy action plan. My proposed literacy strategy complements, builds on and extends current initiatives. The approach reflects best practice in Wales and the evidence from international research on the best performing school systems in the world.

In order to make a real difference, the literacy action plan needs to be a national priority and to have sustained commitment and political support across Wales. I commend this Government motion to you today. There is a real opportunity here for Wales to make a real difference. Literacy skills are key to our national health and we need to focus our efforts in coming years to ensure that everyone has them so that they can all engage in our society and prosper from the opportunities that they have.

Paul Davies: I move the following amendments in the name of Alun Cairns. Amendment 1: add a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to ensure that measures aimed at improving financial literacy skills are a part of any literacy plan.

Amendment 2: add a new point at the end of the motion:

cynllun gweithredu pedair blynedd yn cael ei lansio a hynny'n flaenoriaeth genedlaethol. Yn ail, dylid sbarduno codi safonau addysgu llythrennedd ar gyfer pob ymarferydd ar bob lefel. Yn drydydd, dylid parhau ag ymyriadau wedi'u targedu a'u gwella i bob plentyn rhwng saith ac 11 oed sydd ar ei hôl hi yn eu darllen. Yn bedwerydd, dylid rhoi pwyslais ar feithrin gwell cysylltiad â'r teulu a'r gymuned ehangach drwy ddarparu dysgu i deuluoedd a rhaglen cymorth mentora a hyfforddiant i fynd i'r afael ag anfanteision cymdeithasol-economaidd. Yn bumed, dylid sefydlu grŵp llywio i gynnig arbenigedd ac arweiniad ar lefel genedlaethol a hyrwyddo rhoi'r cynllun gweithredu llythrennedd ar waith. Mae fy strategaeth llythrennedd arfaethedig yn ategu'r cynlluniau sydd ar waith eisoes, yn adeiladu arnynt ac yn eu hymestyn. Mae'r ymagwedd yn adlewyrchu'r arferion gorau yng Nghymru a'r dystiolaeth yn sgîl ymchwil ryngwladol am y systemau ysgol sy'n gwneud orau yn y byd.

Er mwyn gwneud gwahaniaeth go iawn, mae angen i'r cynllun gweithredu llythrennedd fod yn flaenoriaeth genedlaethol a denu ymrwymiad a chefnogaeth wleidyddol hirdymor ledled Cymru. Yr wyf yn cymeradwyo'r cynnig hwn gan y Llywodraeth ichi heddiw. Mae cyfle gwirioneddol yma i Gymru wneud gwahaniaeth go iawn. Sgiliau llythrennedd yw'r allwedd i iechyd y genedl ac mae angen inni ganolbwyntio'n hymdrechion yn y blynyddoedd nesaf i sicrhau bod y sgiliau hynny gan bawb er mwyn iddynt i gyd fod yn rhan o'n cymdeithas a ffynnu yn sgîl y cyfleoedd sydd ganddynt.

Paul Davies: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Alun Cairns. Gwelliant 1: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod mesurau sydd wedi'u hanelu at wella sgiliau llythrennedd ariannol yn rhan o unrhyw gynllun llythrennedd.

Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

expresses concern at the number of 15-year olds with a mean score in reading less than the OECD average.

Amendment 3: add a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to work with local community services to improve their educational facilities in order to give people the opportunity to further develop their literacy skills.

I am grateful for the opportunity to take part in this debate today and to move the amendments tabled in the name of Alun Cairns on behalf of the Welsh Conservatives. This is an extremely important issue and it is imperative that effective measures are put in place quickly to ensure that the current, startling literacy figures are dealt with. It is vital that we improve levels of literacy from early years through to adulthood. As the Minister said, figures from February this year highlight that the mean score in reading for 15-year-olds is lower than the OECD average.

Too many secondary schoolchildren are leaving ill-equipped for the working world. I welcome the idea of a proposed four-year national literacy programme with the five strands that the Minister mentioned today. I also agree that improving literacy rates will generate an improvement in attendance rates. That is essential because, in recent years, we have not seen a real improvement in truancy figures—they have been consistently poor. I hope that an improvement in literacy rates will help to reduce the rates of non-attendance.

However, it is vital that any national literacy programme allows schools the flexibility to tailor these programmes to suit the needs of the individual school. We know that different schools operate in different ways and a national literacy programme must continue to allow for decisions to be made in tune with local needs. Of course, the programme should concentrate on supporting schools and local education authorities in developing literacy skills and it should focus on providing

yn mynegi pryder ynghylch nifer y bobl ifanc 15 oed sydd â sgôr gymedrig mewn darllen sy'n is na chyfartaledd OECD.

Gwelliant 3: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda gwasanaethau cymunedol lleol i wella eu cyfleusterau addysgol er mwyn rhoi'r cyfle i bobl ddatblygu eu sgiliau llythrennedd ymhellach.

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw ac i gynnig y gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Alun Cairns ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Mae hwn yn fater eithriadol o bwysig ac mae'n hollbwysig rhoi camau effeithiol ar waith yn gyflym i sicrhau ein bod yn ymdrin â'r ffigurau llythrennedd syfrdanol presennol. Mae'n hollbwysig inni wella lefelau llythrennedd o'r blynyddoedd cynnar hyd at gyfnod oedolaeth. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae ffigurau mis Chwefror eleni'n dangos bod sgôr gymedrig pobl ifanc 15 oed yn is na chyfartaledd OECD.

Mae gormod o blant ysgolion uwchradd yn ymadael heb eu harfogi'n ddigon da at fyd gwaith. Yr wyf yn croesawu'r syniad o raglen llythrennedd genedlaethol bedair blynedd yn cynnwys y pum llinyn a grybwyllwyd gan y Gweinidog heddiw. Cytunaf hefyd y bydd gwella cyfraddau llythrennedd yn gwella cyfraddau presenoldeb. Mae hynny'n hanfodol, oherwydd, yn y blynyddoedd diwethaf, nid ydym wedi gweld ffigurau triwantiaeth yn gwella mewn gwirionedd—maent wedi bod yn gyson wael. Yr wyf yn gobeithio y bydd gwella cyfraddau llythrennedd yn gymorth i ostwng cyfraddau absenoldeb.

Fodd bynnag, mae'n hollbwysig i unrhyw raglen llythrennedd genedlaethol ganiatáu'r hyblygrwydd i ysgolion deilwra'r rhaglenni hyn i weddu i anghenion yr ysgol unigol. Gwyddom fod gwahanol ysgolion yn gweithredu mewn gwahanol ffyrdd a rhaid i raglen llythrennedd genedlaethol barhau i ganiatáu i benderfyniadau gael eu gwneud yn unol ag anghenion lleol. Wrth gwrs, dylai'r rhaglen ganolbwyntio ar gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i

leadership on this issue.

ddatblygu sgiliau llythrennedd a dylai ganolbwyntio ar ddarparu arweiniad yn y cyswllt hwn.

2.40 p.m.

There also needs to be a focus on promoting services for those wanting to improve their literacy levels by making effective use of local community services. Therefore, urgent action is required to make funds available to struggling education providers and facilities to ensure that our standards do not continue to slip. Libraries, for example, are crucial facilities for those who want to improve their skills. We need to ensure that those who need support can access them. These are community hubs that provide not only learning materials to their communities, but IT and internet access to aid those who are looking for work. In rural areas, such as my constituency, these services are invaluable to those who live in areas where internet access is still a problem. For those people, libraries are a great source of learning and propel people to continue to learn, whether through reading books or using computers. Perhaps the Minister would be kind enough to tell us in his response what discussions he has had with local community services as providers with regard to the four-year literacy plan.

Mae angen canolbwyntio hefyd ar hyrwyddo gwasanaethau i'r rhai sydd am wella'u lefelau llythrennedd drwy ddefnyddio gwasanaethau'r gymuned leol yn effeithiol. Felly, mae angen cymryd camau ar frys i sicrhau bod arian ar gael i ddarparwyr a chyfleusterau addysg sy'n cael trafferthion er mwyn sicrhau nad yw ein safonau'n dal i lithro. Mae llyfrgelloedd, er enghraifft, yn gyfleusterau hollbwysig i'r rhai sydd am wella'u sgiliau. Mae angen inni sicrhau bod y rhai y mae angen cymorth arnynt yn gallu cael gafael ar y cyfleusterau hyn. Mae'r rhain yn ganolfannau yn y gymuned sydd nid yn unig yn darparu deunyddiau dysgu ar gyfer eu cymunedau, ond mynediad at TG a'r rhyngwyd i gynorthwyo'r rhai sy'n chwilio am waith. Mewn ardaloedd gwledig, megis fy etholaeth, mae'r gwasanaethau hyn yn amhriiadwy i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd lle y mae mynediad at y rhyngwyd yn dal yn broblem. I'r bobl hynny, mae llyfrgelloedd yn ffynhonnell wych ar gyfer dysgu ac maent yn sbarduno pobl i barhau i ddysgu, boed hynny drwy ddarllen llyfrau neu ddefnyddio cyfrifiaduron. Efallai y byddai'r Gweinidog yn ddigon caredig i ddweud wrthym yn ei ymateb pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda gwasanaethau lleol yn y gymuned sy'n ddarparwyr, yng nghyswllt y cynllun llythrennedd pedair blynedd.

I am sure that, by reducing the stigma attached to those who struggle with literacy, we will encourage more people to come forward and commit themselves to learning. If we can raise the levels of literacy among Welsh people, it will make a significant difference across the country. If learners develop their skills, they, in turn, develop the confidence to continue learning and improving and, as a result, we upskill the nation. We need to create this cycle of confidence. People with poor basic skills are vulnerable in our modern economy and it is likely that these people will go on to have unskilled and low-income jobs. It is clear that appropriate support needs to be available, not

Yr wyf yn siŵr, drwy leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â'r rhai sy'n cael trafferth gyda llythrennedd, y byddwn yn annog rhagor o bobl i gamu ymlaen ac ymrwymo i ddysgu. Os gallwn godi lefelau llythrennedd ymhlith pobl Cymru, bydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol drwy'r wlad. Os bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau, byddant, yn eu tro, yn meithrin yr hyder i barhau i ddysgu a gwella ac, yn sgîl hynny, byddwn yn gwella sgiliau'r genedl. Mae angen inni greu'r cylch hyder hwn. Mae pobl sydd heb fawr o sgiliau sylfaenol yn agored i niwed yn ein heconomi fodern ac mae'n debyg y bydd y bobl hyn yn mynd yn eu blaen i gael swyddi heb sgiliau gan ennill cyflog bach. Mae'n amlwg bod

just for young people in the classroom, but for adult learners too.

I am aware that the Welsh Assembly Government has set targets, including the target that 80 per cent of all adults should have basic literacy skills. It is evident that the education levels of parents and the development of children are linked. If we can ensure that parents, guardians and carers have good levels of literacy, they in turn can help children and young people with their basic skills and reading.

While I am pleased that the Assembly Government has announced that £13.2 million is available for the basic skills strategy for 2009-10, it was noted in the report on international comparisons of education indicators that Wales, while ranked in the middle for the number of those holding tertiary or degree qualifications, still has a concerning number of people with low or no qualifications. Literacy and numeracy underpin nearly all of the other skills that we need in our daily lives—at work, in the family, or in leisure and other activities. Tackling our literacy problem must therefore be a priority and it is essential that the Assembly Government focuses its attention on this at every opportunity.

Christine Chapman: This is a very welcome debate. I support fully a literacy programme aimed at primary school pupils, as there needs to be maximum intervention as soon as possible to achieve the optimum results. We need to return to this subject from time to time, and I was pleased, Minister, to raise this with you in March.

Literacy is one of the most fundamental skills. The ability to read and write is not just a basic human necessity, but a vital skill within a modern economy. However, it is also necessary for one's sense of self-worth and the promotion of greater social harmony. I am glad that both those elements are recognised within the Government's plan.

angen sicrhau bod cymorth priodol ar gael, nid dim ond i bobl ifanc yn yr ystafell ddosbarth, ond i oedolion sy'n dysgu hefyd.

Yr wyf yn gwybod bod Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod targedau, gan gynnwys y targed y dylai 80 y cant o'r holl oedolion feddu ar sgiliau llythrennedd sylfaenol. Mae'n amlwg bod cysylltiad rhwng lefelau addysg rhieni a datblygiad plant. Os gallwn sicrhau bod lefelau llythrennedd rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr yn dda, gallant hwythau yn eu tro gynorthwyo plant a phobl ifanc gyda'u sgiliau sylfaenol a chyda darllen.

Er fy mod yn falch bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi bod £13.2 miliwn ar gael ar gyfer y strategaeth sgiliau sylfaenol yn 2009-10, nodwyd yn yr adroddiad ar gymariaethau rhyngwladol rhwng dangosyddion addysg ei bod yn destun pryder bod cynifer o bobl o hyd a chanddynt gymwysterau isel neu nad oes ganddynt gymwysterau yng Nghymru, er ei bod yn y canol o ran nifer y rhai sy'n meddu ar gymwysterau trydyddol neu radd. Mae llythrennedd a rhifedd yn sail i bob sgil arall bron y mae ei angen arnom yn ein bywyd beunyddiol—yn y gwaith, yn y teulu, neu ym myd hamdden a gweithgareddau eraill. Felly, rhaid inni sicrhau bod mynd i'r afael â'n problem llythrennedd yn flaenoriaeth ac mae'n hanfodol i Lywodraeth y Cynulliad ganolbwyntio'i sylw ar hyn bob cyfle a gaiff.

Christine Chapman: Mae'r ddadl hon i'w chroesawu'n fawr. Yr wyf yn cefnogi'n llwyr raglen llythrennedd sydd wedi'i hanelu at ddisgyblion ysgolion cynradd, gan fod angen ymyrryd i'r eithaf cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau. Mae angen inni ddychwelyd at y pwnc hwn o bryd i'w gilydd, ac yr oeddwn yn falch o godi hyn gyda chi ym mis Mawrth, Weinidog.

Mae llythrennedd yn un o'r sgiliau mwyaf sylfaenol. Nid dim ond anghenraid dynol sylfaenol yw'r gallu i ddarllen ac ysgrifennu. Mae'n sgil hanfodol mewn economi fodern. Fodd bynnag, mae'n angenrheidiol hefyd ar gyfer ymdeimlad rhywun o'i hunan-werth ac ar gyfer hyrwyddo cytgorod cymdeithasol ehangach. Yr wyf yn falch bod cynllun y Llywodraeth yn cydnabod y ddwy elfen

hynny.

There are some pretty startling and worrying statistics about poor literacy skills, which should concern all of us who want to create a fairer, better society. You have covered many of these, Minister, but I would like to add another. Links have been suggested between the permanent exclusion of pupils and poor levels of literacy. The UK Government also noted in 2009 that over a half of prisoners in England and Wales had serious reading difficulties, and four fifths had serious problems with writing. Interestingly, more female than male prisoners lack even basic qualifications. Therefore, we are seeing a reversal of the usual gender gap.

Mae nifer o'r ystadegau sydd ar gael ynglŷn â sgiliau llythrennedd gwael yn eithaf dychrynlyd ac yn destun pryder a dylai pawb ohonom sydd am greu cymdeithas decach a gwell boeni am hyn. Yr ydych wedi sôn am lawer o'r rhain, Weinidog, ond hoffwn ychwanegu un arall. Awgrymwyd bod cysylltiad rhwng gwahardd disgyblion yn barhaol a llythrennedd gwael. Nododd Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn 2009 fod dros hanner carcharorion Cymru a Lloegr yn cael anawsterau difrifol wrth ddarllen, a bod gan bedwar o bob pump broblemau difrifol wrth ysgrifennu. Mae'n ddi-ddorol gweld bod mwy o garcharorion benyw na charcharorion gwryw heb gymwysterau sylfaenol hyd yn oed. Felly, gwelwn batrwm sy'n groes i'r bwloch arferol rhwng y rhywiau.

The National Literacy Trust, in its 'Literacy Changes Lives' report, explored literacy within the prison population. It rightly suggested that improving literacy is not a panacea for the problem of reoffending, but noted that it played an important role in rehabilitation. These statistics also need to be considered.

Yn ei hadroddiad 'Literacy Changes Lives', archwiliodd yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol lythrennedd poblogaeth y carchardai. Yr oedd yn llygad ei lle'n awgrymu nad llythrennedd yw'r ateb hawdd i broblem aildroseddu, ond nododd ei bod yn chwarae rhan bwysig o ran adsefydlu troseddwy. Mae angen ystyried yr ystadegau hyn hefyd.

If we want to create safer and fairer communities, we need to tackle this issue head on and remove these inequalities. It is also one we must address if we want to ensure that Wales has a highly skilled workforce that is capable of seizing the opportunities that become available as we leave a period of global economic turmoil.

Er mwyn greu cymunedau mwy diogel a thecach, mae angen inni fynd i'r afael o ddifrif â'r broblem hon a dileu'r anghydraddoldebau hyn. Mae'n anghydraddoldeb hefyd y mae'n rhaid inni fynd i'r afael ag ef er mwyn sicrhau bod gan Gymru weithlu hynod fedrus sy'n gallu achub y cyfleon sy'n eu cynnig eu hunain wrth inni gefnu ar gyfnod o gythrwll economaidd byd-eang.

I also applaud the family learning initiatives that have taken place over the years, as they have provided welcome support for parents. Many parents lack confidence, and if they have suffered from poor literacy themselves, it is not always easy for them to support their children. The family learning initiatives will help.

Yr wyf hefyd yn cymeradwyo'r mentrau dysgu i deuluoedd sydd wedi'u cynnal dros y blynyddoedd, gan eu bod wedi rhoi cymorth i rieni sydd i'w groesawu. Mae diffyg hyder gan lawer o rieni, ac os nad yw eu sgiliau llythrennedd hwy eu hunain wedi bod yn dda, nid yw bob amser yn hawdd iddynt gefnogi eu plant. Bydd y cynlluniau dysgu i deuluoedd o gymorth.

I would also be interested in your comments, Minister, on something that I heard on the

Byddai'n dda gennyf hefyd glywed eich sylwadau, Weinidog, am rywbeth a glywais

radio, yesterday or today, about the increase in the level of television watching, which I think has gone up to an average of four and a half hours a day. That could be a deterrent to reading, so I would be interested in your comments on that.

This is an issue where we must take a holistic approach. The improvement of national education standards will only be achieved by reducing the social inequalities within educational achievement. If we want to create a fairer, smarter Wales, we need to ensure that no one is left behind. I welcome this call for a literacy plan, which is a clear step in the right direction.

Jenny Randerson: I preface my remarks by saying that the Welsh Liberal Democrats will vote for the motion. We will also be voting for the amendments, because the point raised by the Conservative amendment on financial literacy is useful for us to bear in mind at the moment.

We will vote for the motion because it is a statement of what we obviously need in Wales, and I shall outline my take on why we need it. However, we will vote for the motion with some regret, in that it is a great pity that we need to have this programme, and I wish that something had been done about this a long time ago, because something certainly needs to be done. If you need the evidence, you just have to look at the latest Estyn report, which is bursting with evidence that points to the problems in our education system in general, and the literacy aspect of it is fundamental.

The latest Estyn report shows that it is the brightest children and the least able children who are not achieving their potential. So, we are failing the brightest and the least able at the same time. The Estyn report referred with deep concern to the underperformance of pupils from deprived backgrounds, and it pointed out that the situation has not improved for at least three years. It made the key point, which is illustrated by one of the Minister's points, that something is being

ar y radio, ddoe neu heddiw, sef bod pobl yn gwylio mwy ar y teledu. Credaf ei fod wedi cynyddu i bedair awr a hanner y diwrnod ar gyfartaledd. Gallai hynny fod yn atal pobl rhag darllen, felly hoffwn glywed eich sylwadau am hynny.

Mae hyn yn fater y mae'n rhaid inni ymdrin ag ef mewn dull cyfannol. Yr unig ffordd o wella safonau addysg genedlaethol fydd drwy leihau'r anghydraddoldebau cymdeithasol o fewn cyflawniad addysgol. Er mwyn creu Cymru decach, glyfrach, mae angen inni sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Yr wyf yn croesawu'r alwad hon am gynllun llythrennedd, sy'n gam clir i'r cyfeiriad iawn.

Jenny Randerson: Cyn dechrau, hoffwn ddweud y bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n pleidleisio o blaid y cynnig. Byddwn hefyd yn pleidleisio o blaid y gwelliannau, oherwydd byddai'n fuddiol inni gadw mewn cof ar hyn o bryd y pwynt a godir yng ngwelliant y Ceidwadwyr ynglŷn â llythrennedd ariannol.

Byddwn yn pleidleisio o blaid y cynnig oherwydd ei fod yn ddatganiad am yr hyn y mae ei angen arnom yn amlwg yng Nghymru, a soniaf yn fras am pam y mae ei angen yn fy marn i. Fodd bynnag, byddwn yn pleidleisio dros y cynnig gyda pheth tristwch, oherwydd ei bod yn drueni mawr bod angen inni gael y rhaglen hon, a byddai'n dda gennyf petai rhywbeth wedi'i wneud ynghylch hyn ers tro, oherwydd yn sicr mae angen gwneud rhywbeth. Os oes angen y dystiolaeth arnoch, y cyfan y mae'n rhaid ichi ei wneud yw edrych ar adroddiad diweddaraf Estyn, sy'n orlawn o dystiolaeth sy'n cyfeirio at y problemau yn ein system addysg yn gyffredinol, ac elfen sylfaenol yn hynny yw llythrennedd.

Dengys adroddiad diweddaraf Estyn mai'r plant mwyaf disglair a'r rhai lleiaf abl yw'r rhai nad ydynt yn cyflawni eu potensial. Felly, yr ydym yn gwneud cam â'r rhai mwyaf disglair ac â'r rhai lleiaf abl ar yr un pryd. Cyfeiriodd adroddiad Estyn at danberfformio disgyblion o gefndiroedd difreintiedig, gan ddweud bod hyn yn destun pryder, a thynnodd sylw at y ffaith nad yw'r sefyllfa wedi gwella ers tair blynedd fan leiaf. Cyfeiriodd at y pwynt allweddol, a

done about this issue in England. I believe that the Minister's example was from Scotland, but other countries are tackling this issue effectively, and it is time that we did, too.

It is not as if it has not been tried in Wales, because the RAISE programme, for example, was, among other things, designed to improve literacy rates, at a cost of £14.5 million. Sadly, it was not properly analysed or evaluated, and the money was not properly spent because it was often spent on those who were doing worst rather than those who were underperforming.

2.50 p.m.

Going back to the Estyn report, the problem seems to have worsened, and I agree with the Minister that it is at primary school level that this issue must be tackled. However, there is also another issue on the horizon that needs to be urgently tackled, namely the fall-off in performance between key stages 2 and 3, in that many pupils who appear to be doing reasonably well at key stage 2 fail to achieve what is hoped of them when they go on to key stage 3. I would point out to you all that among the pupils who underperform or fail to achieve, we have the young people who will not be in education, employment or training, the NEETs of the future—we have a serious problem with that, as it is at an all-time high of 13 per cent.

As a nation, we will only dig ourselves out of our current economic hole, where we have languished for far too long, if we improve levels of education generally. Literacy is fundamental to this. I commend to you the Welsh Liberal Democrats' pupil fund, which is a concept that would provide additional help to those from the most deprived homes. The fund has flexibility built into it and it does not prescribe how that help should come, allowing the school to choose the type of help that is needed and the means of

adlewyrchir gan un o bwyntiau'r Gweinidog, fod rhywbeth yn cael ei wneud am hyn yn Lloegr. Credaf mai o'r Alban yr oedd yr enghraifft a roddodd y Gweinidog, ond mae gwledydd eraill yn mynd i'r afael â hyn yn effeithiol, ac mae'n bryd i ninnau wneud hynny.

Nid nad ydym wedi rhoi cynnig ar hyn yng Nghymru, oherwydd nod rhaglen Rhagori, er enghraifft, ymhlith pethau eraill, oedd gwella cyfraddau llythrennedd, a chostiodd £14.5 miliwn. Yn anffodus, ni chafodd ei dadansoddi na'i gwerthuso'n iawn, ac ni wariwyd yr arian yn iawn oherwydd fe'i gwariwyd yn aml ar y rhai a oedd yn gwneud waethaf yn hytrach nag ar y rhai a oedd yn tanberfformio.

A dychwelyd at adroddiad Estyn, mae'r broblem i bob golwg wedi gwaethygu, ac yr wyf yn cytuno â'r Gweinidog mai ar lefel yr ysgol gynradd y mae'n rhaid mynd i'r afael â'r broblem hon. Fodd bynnag, mae problem arall ar y gorwel y mae angen mynd i'r afael â hi ar frys, sef bod perfformiad disgyblion yn gwaethygu rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, wrth i lawer o ddisgyblion sydd i bob golwg yn gwneud yn eithaf da yng nghyfnod allweddol 2 fethu cyflawni'r hyn y gobeithid y byddent yn ei gyflawni wrth iddynt fynd yn eu blaen i gyfnod allweddol 3. Hoffwn dynnu eich sylw i gyd at y ffaith bod gennym ymhlith y disgyblion sy'n tanberfformio neu'n methu cyflawni, y bobl ifanc na fyddant mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, NEETs y dyfodol—mae honno'n broblem ddifrifol inni, am fod y ffigur wedi cyrraedd lefel uwch nag erioed, sef 13 y cant.

Yr unig ffordd y llwydda'r genedl hon i ddod o'r twll economaidd yr ydym ynddo ar hyn o bryd, twll lle yr ydym wedi bod yn dihoeni ers tro byd, yw drwy wella lefelau'n haddysg yn gyffredinol. Mae llythrennedd yn elfen hanfodol yn hyn. Yr wyf yn cymeradwyo cronfa disgyblion Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ichi, syniad a fyddai'n darparu cymorth ychwanegol i'r rhai o'r cartrefi mwyaf difreintiedig. Mae'r gronfa'n un hyblyg yn ei hanfod ac nid yw'n dweud sut yn union y dylid darparu'r cymorth, gan

giving it. One of the key points that you must take into account is the need for small groups and one-to-one tuition in many cases. We in Wales face increasing class sizes in primary schools—we got those class sizes down over the years, but they have grown again over the past couple of years, and that is a problem in terms of providing that additional help.

That all pinpoints one key thing, namely the amount of money that will be available to spend on this programme and whether there will be real resources or whether it is an issue of telling schools to do things differently. However, the schools need additional help and resources if they are to make this big difference to the education of our young children.

Rhodri Glyn Thomas: Yr wyf innau yn croesawu'n fawr y rhaglen ar lythrennedd y mae'r Gweinidog wedi ei chyhoeddi heddiw. Mae'n dda gweld bod cefnogaeth drawsbleidiol i'r rhaglen hon. Credaf fod pob un sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon y prynhawn yma wedi nodi pa mor allweddol yw'r pwnc sylfaenol hwn. Mae'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd unigolion yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Mae'n dda clywed na fydd y Gweinidog yn edrych yn unig ar arfer da sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru. Yr wyf am bwysleisio'r cyfraniad y gall y cyfnod sylfaen wneud yn y mater hwn. Mae'n dda gweld bod y cyfnod sylfaen wedi cael ei gyflwyno yng Nghymru a bod plant yn cael y cyfle'n gynnar yn eu haddysg i feithrin eu sgiliau yn y maes hwn. Mae hefyd yn dda gweld bod y Gweinidog yn edrych ar arfer da y tu hwnt i Gymru ac, yn wir, y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod ein plant yn cael y cyfle i feithrin y sgiliau hyn.

Mae nifer o gyfranwyr wedi cyfeirio at rai o'r ystadegau ac nid wyf am ailadrodd hynny. Fodd bynnag, mae adroddiad yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol yn nodi effaith problemau â llythrennedd ar bobl sydd yn gweithio. Er enghraifft, mae pobl sydd â lefel isel o lythrennedd ymysg y

adael i'r ysgol ddewis pa fath o gymorth y mae ei angen a sut y mae ei roi. Un o'r pwyntiau allweddol y mae'n rhaid ichi ei ystyried yw bod angen grwpiau bach a hyfforddiant un ag un mewn sawl achos. Yr ydym ni yng Nghymru'n wynebu dosbarthiadau mwy mewn ysgolion cynradd—llwyddasom i leihau maint y dosbarthiadau hynny dros y blynyddoedd, ond maent wedi tyfu eto yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae hynny'n broblem o ran darparu'r cymorth ychwanegol hwnnw.

Mae hynny i gyd yn dibynnu ar un peth, sef faint o arian a fydd ar gael i'w wario ar y rhaglen hon ac a fydd adnoddau go iawn ar gael ynteu ai mater o ddweud wrth ysgolion am wneud pethau'n wahanol ydyw. Fodd bynnag, mae angen cymorth ac adnoddau ychwanegol ar yr ysgolion er mwyn gwneud y gwahaniaeth mawr hwn i addysg ein plant ifanc.

Rhodri Glyn Thomas: I warmly welcome the literacy programme that the Minister has announced today. It is good to see cross-party support for this programme. I think that everyone who has contributed to this debate this afternoon has noted that this basic subject is key. It affects every aspect of individuals' lives in Wales and other places. It is good to hear that the Minister will not only be looking at good practice that already exists in Wales. I wish to emphasise the contribution that the foundation phase can make. It is good to see that the foundation phase has been introduced in Wales and that children have an opportunity, early in their education, to develop their skills in this area. It is also good to see that the Minister is looking at good practice in this field outside Wales and, indeed, outside the United Kingdom, in order to ensure that our children have an opportunity to develop these skills.

Several contributors have referred to the statistics and I do not wish to repeat those. However, the National Literacy Trust's report notes the effect that literacy problems have on working people. For example, people with a low level of literacy are among those who are least likely to be in full-time employment

bobl sydd leiaf tebygol o fod mewn gwaith llawn amser erbyn iddynt gyrraedd 30 mlwydd oed. Mae hefyd ystadegau sy'n dangos nad yw 75 y cant o wragedd sydd â lefelau llythrennedd isel erioed wedi cael dyrchafiad yn eu gweithle, a 63 y cant o ddynion yr un modd. Mae 69 y cant o gwmnïau manwerthu'n cyfeirio at broblemau llythrennedd ymysg eu gweithwyr ac mae 50 y cant o gwmnïau cynhyrchu yn cyfeirio atynt.

Nid oes rhaid pwysleisio'r ffaith fod llythrennedd a rhifydddeg yn mynd i fod yn eithriadol o bwysig yn y sefyllfa sy'n wynebu ein cymdeithas, sef y problemau ariannol dybryd sy'n wynebu pawb oherwydd y wasgfa ariannol. Yr wyf, felly, yn cymeradwyo'r rhaglen hon yn fawr iawn. Fel y dywedodd Jenny Randerson, y gobaith yw y bydd digonedd o adnoddau yn cael eu rhoi i sicrhau bod y rhaglen hon yn effeithiol, oherwydd bydd unrhyw fuddsoddiad a wneir yn y maes hwn yn sicr o ddwyn ffrwyth yng nghyd-destun datblygiad potensial pobl yn ein cymunedau.

Jeff Cuthbert: I thank you, Minister, for calling this important debate on literacy. Literacy is a key basic skill on which one can build one's lifelong learning and further education. As my colleague, Chris Chapman, has pointed out, if we are to be that small clever country with a strong economy, then every person in Wales should have at least basic literacy and numeracy skills. For many people, learning to read will be the most important proficiency they can achieve; it is a gateway skill that could help to unlock their future. Without basic literacy and numeracy skills, people are forced to struggle unnecessarily and constantly with everyday activities, such as food shopping—not being able to read the ingredients on packages—and reading travel timetables, because they will not understand which train or bus is the right one for them. These are tasks that the rest of us do not give a second thought to.

It is very difficult to apply for a job if you cannot read the application form and the job description. Without options or means to earn an income, it is impossible to end the cycle of poverty that blights too many communities in

by the time they are 30 years of age. There are also statistics that show that 75 per cent of women with a low level of literacy have never had a promotion in their workplace, and similarly 63 per cent of men. Sixty nine per cent of retail companies refer to literacy problems among their workers and 50 per cent of manufacturing companies also mention such difficulties.

There is no need to emphasise the fact that literacy and numeracy will be incredibly important in the situation facing our society, that is, the dire financial problems that everyone is facing due to the credit crunch. Therefore, I greatly applaud this programme. As Jenny Randerson said, the hope is that enough resources will be provided to ensure that this programme will be effective, because any investment in this field will certainly bear fruit in the context of the potential development of people in our societies.

Jeff Cuthbert: Diolch ichi, Weinidog, am alw'r ddadl bwysig hon am lythrennedd. Mae llythrennedd yn sgil sylfaenol allweddol y gall rhywun adeiladu dysgu gydol oes ac addysg bellach arni. Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, Chris Chapman, er mwyn inni gyflawni'r nod hwnnw o fod yn wlad fach alluog a chanddi economi gref, yna, dylai pob un yng Nghymru gael o leiaf sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol. I lawer o bobl, dysgu darllen fydd y gallu pwysicaf y gallant ei feddu; mae'n sgil sy'n agor drysau ac a allai gynorthwyo i ddatgloi eu dyfodol. Heb sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, gorfodir pobl i gael trafferthion dianghenraid o hyd gyda'u gweithgareddau beunyddiol, megis siopa am fwyd—heb allu darllen y cynhwysion ar becynnau—a darllen amserlenni, oherwydd ni fyddant yn deall pa drên neu fws yw'r un iawn iddynt. Mae'r rhain yn dasgau na fydd y gweddill ohonom yn meddwl ddwywaith amdanynt.

Mae'n anodd gwneud cais am swydd oni allwch ddarllen y ffurflen gais a'r swydd-ddisgrifiad. Heb ddewisiadau na modd o ennill incwm, mae'n amhosibl rhoi terfyn ar y cylch tloedi sy'n falltodd ar ormod o

Wales. In my constituency of Caerphilly, about one in three adults has serious problems with literacy or numeracy, and in many cases they have problems with both, and this speaks for itself. Most of them are adults who left full-time education 10 years ago or more, under an education system that did not do the business for them. I hope that the implementation of the foundation phase and the 14-19 learning pathways will improve and encourage learning opportunities for the young people of this generation and the next. Less than a week ago, Lord Digby Jones made the point that far too many young people are leaving school functionally illiterate and innumerate. Support for the development of a four-year literacy action plan targeted at young people should go a long way towards eradicating this problem. We must ensure that neither Digby Jones nor anybody else is able to make a similar statement in 10 years' time with any degree of justification.

It is imperative that we pay attention to literacy and numeracy rates in Wales and across the UK. I agree with Rhodri Glyn Thomas that the introduction of the foundation phase means that we will now start to see children adopting a more positive attitude towards reading and learning, such as, for example, through the reading of basic project instructions. We know that the younger children are introduced to learning and reading, the easier it will be for them, and the greater their interest. Many steps have already been taken to ensure that literacy and numeracy are skills that every person has by the time that they are an adult, but too many young people are slipping through the net. We have the infrastructure to ensure basic skills for everyone, and there are a number of partnerships in place with other organisations. Our partnership with the trade unions and Wales Trades Union Congress, for example, via the WAG-funded Wales union learning fund for those who have already left education through in-work training to gain or improve basic skills, is extremely important. Programmes such as these, which are delivered in the context of the workplace, make a significant difference.

gymunedau yng Nghymru. Yn fy etholaeth yng Nghaerffili, mae gan tuag un o bob tri oedolyn broblemau difrifol gyda llythrennedd neu rifedd, ac mewn llawer achos mae ganddynt broblemau gyda'r ddau, ac mae hyn yn siarad drosto'i hun. Oedolion yw'r rhan fwyaf ohonynt a adawodd addysg amser llawn 10 mlynedd neu fwy yn ôl, o dan system addysg nad oedd yn gweithio iddynt. Yr wyf yn gobeithio y bydd rhoi'r cyfnod sylfaen a llwybrau dysgu 14-19 ar waith yn gwella ac yn hybu cyfleoedd dysgu i bobl ifanc y genhedlaeth hon a'r genhedlaeth nesaf. Lai nag wythnos yn ôl, dywedodd yr Arglwydd Digby Jones fod gormod o bobl ifanc o lawer yn ymadael â'r ysgol heb allu ymarferol o ran llythrennedd a rhifedd. Dylai cefnogi datblygu cynllun gweithredu llythrennedd pedair blynedd sydd wedi'i dargedu at bobl ifanc wneud llawer iawn i ddileu'r broblem hon. Rhaid inni sicrhau na all na Digby Jones na neb arall wneud datganiad tebyg ymhen 10 mlynedd gydag unrhyw fath o gyfiawnhad.

Mae'n hollbwysig inni roi sylw i gyfraddau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig. Cytunaf â Rhodri Glyn Thomas fod cyflwyno'r cyfnod sylfaen yn golygu y byddwn yn awr yn dechrau gweld plant yn mabwysiadu agwedd fwy cadarnhaol at ddarllen a dysgu, megis, er enghraifft, drwy ddarllen cyfarwyddiadau sylfaenol prosiect. Po ieuaf y caiff plant eu cyflwyno i ddysgu a darllen, po hawsaf fydd pethau iddynt, a mwyaf oll fydd eu diddordeb—gwyddom hynny. Cymerwyd llawer o gamau eisoes i sicrhau bod llythrennedd a rhifedd yn sgiliau sydd gan bawb erbyn iddo dyfu'n oedolyn, ond mae gormod o bobl ifanc yn llithro drwy'r rhwyd. Mae gennym y seilwaith i sicrhau sgiliau sylfaenol i bawb, ac mae nifer o bartneriaethau ar waith gennym gyda sefydliadau eraill. Mae ein partneriaeth gyda'r undebau llafur a chyda Chynghrair Undebau Llafur Cymru, er enghraifft, drwy gronfa ddysgu undebau Cymru, a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad i'r rhai sydd eisoes wedi ymadael ag addysg drwy hyfforddiant yn y gwaith, gael neu wella sgiliau sylfaenol, yn eithriadol o bwysig. Mae rhaglenni megis y rhain, a gyflwynir yng nghyd-destun y gweithle, yn gwneud gwahaniaeth sylweddol.

Finally, it is important not to confuse literacy and numeracy with learning disabilities. I suffer from dyslexia, and I will do so for the rest of my life, of course, but I have learnt coping skills. If dyslexia is identified as a problem at an early age, it can be rectified. Learning disabilities certainly add to the problems of those who have literacy problems, but it is important to separate the two issues, because the remedies can be quite different.

3.00 p.m.

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): I will start by welcoming the cross-party support for the national literacy action plan. I welcome the statements by Paul Davies for the Conservatives and Jenny Randerson for the Liberal Democrats. As Rhodri Glyn Thomas said, we genuinely have cross-party support for this.

Jeff Cuthbert is right to say that literacy is a gateway skill that enables people to take up other opportunities. We know that people with poor basic skills are more likely to be unemployed, or to work in unskilled or semi-skilled jobs—the most vulnerable jobs during a recession. Those with poor literacy skills are twice as likely to be sacked or made redundant and four times as likely to experience long-term unemployment. Rhodri Glyn rightly pointed out the concerns of employers, which are particularly acute in the retail and manufacturing sectors, and we want to change that. It is important to recognise that a significant amount has been done already—over 5,500 primary school children completed catch-up support for literacy in 2008-09, and 90 per cent of those achieved their targets and were therefore able to access the curriculum across all subjects. Similar numbers were involved in that approach in 2009-10.

Lorraine Barrett: I wonder if I can ask you to look at some of the challenges facing children and young people in our black and minority ethnic communities. There are some

Yn olaf, mae'n bwysig peidio â drysu rhwng llythrennedd a rhifedd ac anableddau dysgu. Yr wyf yn dioddef o ddyslecsia, a byddaf yn dioddef ohono am weddill fy mywyd, wrth gwrs, ond yr wyf wedi dysgu sgiliau i ymdopi ag ef. Os gwelir bod dyslecsia ar blentyn ym more oes, gellir ei gywiro. Mae anableddau dysgu'n sicr yn ychwanegu at broblemau'r rhai a chanddynt broblemau llythrennedd, ond mae'n bwysig gwahanu'r ddau fater, oherwydd gall yr atebion i'r problemau fod yn eithaf gwahanol.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Dechreuaf drwy groesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol i'r cynllun gweithredu llythrennedd cenedlaethol. Yr wyf yn croesawu'r datganiadau gan Paul Davies ar ran y Ceidwadwyr a Jenny Randerson ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol. Fel y dywedodd Rhodri Glyn Thomas, mae gennym gefnogaeth drawsbleidiol go iawn i hyn.

Mae Jeff Cuthbert yn llygad ei le'n dweud bod llythrennedd yn sgil sy'n agor drysau ac sy'n galluogi pobl i fanteisio ar gyfleoedd eraill. Gwyddom fod pobl sy'n brin o sgiliau sylfaenol yn fwy tebyg o fod yn ddi-waith, neu o weithio mewn swyddi heb sgiliau neu led-grefftus—y swyddi mwyaf bregus yn ystod dirwasgiad. Mae'r rhai sy'n brin o sgiliau llythrennedd ddwywaith yn fwy tebyg o gael eu taflu ar y clwt neu o golli eu gwaith, a phedair gwaith yn fwy tebyg o ddioddef diweithdra hirdymor. Yr oedd Rhodri Glyn yn iawn wrth sôn am bryderon cyflogwyr. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y sector manwerthu a gweithgynhyrchu, ac yr ydym am newid hynny. Mae'n bwysig sylweddoli bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud eisoes—cwblhaodd dros 5,500 o blant ysgolion cynradd raglen dal i fyny ar gyfer llythrennedd yn 2008-09, a chyraeddodd 90 y cant o'r rheini eu targedau gan olygu eu bod felly'n gallu manteisio ar bob pwnc yn y cwricwlwm. Aeth nifer tebyg drwy'r un broses yn 2009-10.

Lorraine Barrett: Tybed a gaf ofyn ichi edrych ar rai o'r anawsterau sy'n wynebu plant a phobl ifanc yn ein cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig? Mae rhywfaint o

difficulties there, even though a lot of extra-curricular work is being done by voluntary and charitable organisations. I would be grateful if you could have a specific look at that as you take this through.

Leighton Andrews: I would be happy to do that. Obviously, we already provide some additional funding support for learning in black and minority ethnic communities, and these issues are very much at the forefront of our plans. Jenny referred to the issues around the transition between key stage 2 and key stage 3; we are aware of the challenges there, and specifically the issue of consistency of teacher assessments at key stage 2, which is a big concern for us. There is also sometimes a dip in performance between key stage 2 and 3. I am aware, from talking to both secondary and primary headteachers, of the amount of effort that is going in to bridging that transition between key stage 2 and 3. We are seeing a great deal more collaboration between secondary schools and their clusters of primary schools to try to do that in a number of innovative ways.

Jenny also referred to the impact of literacy on the issue of young people not in education, employment or training. I try to avoid the acronym 'NEETs', because I think that it is dehumanising, and I think that it is one that we should all seek to avoid. However, I am clear that action to reduce the numbers of young people not in education, employment or training cannot begin at the age of 16. We have had a cross-departmental discussion within the Department of Children, Education, Lifelong Learning and Skills to look at how our strategies from the earliest days can contribute to reducing the number of young people not in employment, education or training overall.

In the workplace, we have our employer pledge programme—unique to Wales—working with over 500 Welsh employers to deliver programmes to upskill the workforce and improve the profitability and the competitiveness of Welsh business. A recent evaluation of that pledge showed measurable

anawsterau yno, er bod llawer o waith all-gwricwlaidd yn cael ei wneud gan fudiadau gwirfoddol ac elusenol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech edrych yn benodol ar hynny wrth i chi fwrw ymlaen â hyn.

Leighton Andrews: Byddwn yn falch o wneud hynny. Yr ydym yn amlwg eisoes yn darparu rhywfaint o gymorth ariannol ychwanegol ar gyfer dysgu mewn cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig, ac mae'r materion hyn yn cael lle blaenllaw yn ein cynlluniau. Cyfeiriodd Jenny at y materion sy'n gysylltiedig â'r pontio rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3; yr ydym yn ymwybodol o'r anawsterau yn hynny o beth, ac yn benodol, mae cysondeb asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn destun pryder mawr inni. Bydd y perfformiad yn gwaethygu weithiau hefyd rhwng cyfnod allweddol 2 a 3. Yr wyf yn sylweddoli, wrth siarad â phenaethiaid uwchradd a phenaethiaid cynradd, faint o ymdrech sy'n cael ei gwneud i bontio'r croesi hwnnw o gyfnod allweddol 2 i 3. Yr ydym yn gweld llawer mwy o gydweithredu rhwng ysgolion uwchradd a'u clystyrau o ysgolion cynradd er mwyn ceisio gwneud hynny mewn sawl ffordd arloesol.

Cyfeiriodd Jenny hefyd at effaith llythrennedd ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Byddaf yn ceisio osgoi'r acronym 'NEETs', oherwydd fy mod yn credu ei fod yn dad-ddyneiddio pobl, a chredaf ei fod yn derm y dylem i gyd geisio'i osgoi. Fodd bynnag, yr wyf yn sicr na all camau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ddechrau pan fydd rhywun yn 16 oed. Yr ydym wedi cael trafodaeth drawsadrannol o fewn yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i edrych sut y gall ein strategaethau o'r dyddiau cynharaf gyfrannu at leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant drwyddi draw.

Yn y gweithle, mae gennym ein rhaglen addewid cyflogwyr—sy'n unigryw i Gymru—ac sy'n gweithio gyda dros 500 o gyflogwyr yng Nghymru i ddarparu rhaglenni i wella sgiliau'r gweithlu a gwella gallu busnesau yng Nghymru i wneud elw a chystadlu. Wrth werthuso'r addewid

improvements in literacy and language skills. However, we need to do more, and that is why our national plan for literacy has, at its heart, the improvement of teaching skills to tackle underachievement in basic skills, particularly for children at primary school. We want to build on best practice, and there are many examples around Wales. In my own constituency, the excellent work of the Only Boys Allowed initiative, run by Rob Jones in Williamstown, is doing a great deal to contribute to getting boys to engage more in reading. It is vital to prepare children for learning through play and active learning approaches, both pre-school and during the foundation phase. Rhodri Glyn Thomas and Jeff Cuthbert specifically referred to the importance of the foundation phase, and there is no question that headteachers and teachers are united in their support for the foundation phase in Wales. We know that it is engaging and motivating young children to learn, and of course we have put additional money in to lower staff-pupil ratios, and we are effectively able to support the programmes that are now being developed. Children between the ages of 3 and 7 are immersed in language experience and activity, and practitioners provide each child with stimuli to develop specific skills as and when that child is ready. That is the bedrock for the development of secure reading and writing skills.

On the issue of resources, clearly the focus of this national literacy plan is post-foundation phase, seven to 11, where we particularly think there is a need for additional support and we will be providing resources for that. Evidence from research clearly shows that literacy standards are most effectively raised by a concerted approach, consistently applied and sustained over a significant period of time. That is the approach that I intend for Wales, so that variation in standards between schools disappears and children get the best deal.

Chris Chapman drew attention to links with literacy and school exclusion and behaviour issues, and she is right to do so. There is no question that the lack of skills and literacy

hwnnw'n ddiweddar dangoswyd gwelliannau mesuradwy o ran sgiliau llythrennedd ac iaith. Serch hynny, mae angen inni wneud rhagor, a dyna pam mae gwella sgiliau addysgu i fynd i'r afael a thangyflawni mewn sgiliau sylfaenol, yn enwedig i blant yn yr ysgol gynradd, wrth wraidd ein cynllun llythrennedd cenedlaethol. Yr ydym am adeiladu ar sail yr arferion gorau, a cheir enghreifftiau lu ar hyd a lled Cymru. Yn fy etholaeth i fy hun, mae gwaith rhagorol cynllun Bechgyn yn Unig, a redir gan Rob Jones yn Nhrewiliam, yn gwneud llawer iawn i gyfrannu at gael bechgyn i ymroi i ddarllen. Mae'n hollbwysig paratoi plant ar gyfer dysgu drwy chwarae a dulliau dysgu gweithredol, cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol ac yn ystod y cyfnod sylfaen. Cyfeiriodd Rhodri Glyn Thomas a Jeff Cuthbert yn benodol at bwysigrwydd y cyfnod sylfaen, ac nid oes amheuaeth nad yw penaethiaid ac athrawon yn unedig eu cefnogaeth i'r cyfnod sylfaen yng Nghymru. Gwyddom ei fod yn denu ac yn cymell plant ifanc i ddysgu, ac wrth gwrs, yr ydym wedi rhoi arian ychwanegol er mwyn cael cymhareb staff-disgyblion is. Gallwn gefnogi'r rhaglenni sy'n cael eu datblygu yn awr mewn ffordd effeithiol. Mae plant rhwng 3 a 7 oed yn cael eu trochi mewn profiadau a gweithgareddau iaith, a bydd ymarferwyr yn ysgogi pob plentyn i ddatblygu sgiliau penodol pan fydd y plentyn hwnnw'n barod. Dyna'r sylfaen ar gyfer datblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu cadarn.

O ran adnoddau, mae'n amlwg bod y cynllun llythrennedd cenedlaethol hwn yn ymwneud a'r cyfnod ar ôl y cyfnod sylfaen, rhwng saith ac 11. Credwn yn benodol fod angen cymorth ychwanegol yma a byddwn yn darparu'r adnoddau ar gyfer hynny. Dengys tystiolaeth gwaith ymchwil yn glir mai'r ffordd fwyaf effeithiol o godi safonau llythrennedd yw drwy fynd ati'n egniol ac yn gyson a chynnal hynny dros gyfnod sylweddol. Dyna sut y bwriadaf fynd ati yng Nghymru, er mwyn inni weld yr amrywiaeth o ran safon rhwng ysgolion yn diflannu ac er mwyn i blant gael y fargen orau.

Tynnodd Chris Chapman sylw at gysylltiadau rhwng llythrennedd a gwahardd o'r ysgol a phroblemau ymddygiad, ac mae yn llygad ei lle'n gwneud hynny. Nid oes amheuaeth nad

contributes to those issues. In the annual report of the Wales employment and skills board, in April 2009, it was stated that the Government should redouble its efforts to eliminate the basic skills deficit within the adult population and ensure that all education skills providers place a far stronger emphasis on basic skills and employability. Chris also mentioned the importance of family literacy schemes and we will continue to support those.

We accept today a need for a concerted effort to raise the platform of basic skills in Wales, which is essential to the future economic growth of our country. My view is that this is the single most important priority that I could set for my department. That is why I commend this motion to you today as a key plank in our action to improve educational standards and attainment in Wales.

Y Llywydd: Y cynnig yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriwn y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.06 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.06 p.m.*

Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy The Sustainable Development Annual Report

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Alun Cairns.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I move that

yw diffyg sgiliau a llythrennedd yn cyfrannu at y problemau hynny. Yn adroddiad blynyddol bwrdd cyflogaeth a sgiliau Cymru, ym mis Ebrill 2009, dywedwyd y dylai'r Llywodraeth ymdrechu fwyfwy i ddileu'r diffyg sgiliau sylfaenol yn y boblogaeth oedolion a sicrhau bod pob darparwr sgiliau ac addysg yn rhoi pwyslais cryfach o lawer ar sgiliau sylfaenol a chyflogadwyedd. Crybwyllodd Chris hefyd bwysigrwydd cynlluniau llythrennedd i deuluoedd a byddwn yn parhau i gefnogi'r rheini.

Yr ydym yn derbyn heddiw fod angen ymdrech ddygn i godi lefel sgiliau sylfaenol yng Nghymru, rhywbeth sy'n hanfodol er mwyn sicrhau twf economaidd ein gwlad yn y dyfodol. Fy marn i yw mai dyma'r flaenoriaeth bwysicaf y gallwn ei phennu ar gyfer fy adran. Dyna pam yr wyf yn cymeradwyo'r cynnig hwn ichi heddiw fel un o elfennau allweddol y camau a gymerwn i wella safonau a chyrraethiad addysgol yng Nghymru.

The Presiding Officer: The proposal is that amendment 1 be agreed. Is there any objection? I see that there is. Therefore, the votes will be deferred until voting time.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Alun Cairns.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales welcomes the progress made on sustainable development in 2008-09 as set out in the Welsh Assembly Government's annual report of the sustainable development scheme, which was laid before the National Assembly for Wales on 2 March 2010. (NDM4463)

I am delighted to be before you today to endorse the motion welcoming the progress made on sustainable development in 2008-09, as set out in the Assembly Government's annual report on the sustainable development scheme. In this report, which is our eighth annual report, we highlight the progress that has been made and set out in more detail the next steps in our journey towards a more sustainable Wales.

It is probably worth pointing out to Members that this report looks back at the last year of the sustainable development scheme that was agreed in 2004, which was described by Sustainable Development Commission Wales as working in innovative silos, and forward to the work on our new scheme, 'One Wales: One Planet', which was adopted in May last year, and has been warmly welcomed, not only by Sustainable Development Commission Wales, but others.

All the schemes have been informed by a comprehensive set of indicators, which include five headline indicators that marry the five themes set out in the current sustainable development scheme and are supported by a range of other indicators under each theme. These indicators are already used as a driver for policy making and a monitoring tool for evaluating progress. Indeed, this year's report is set out in such a way as to mirror the chapters of the current sustainable development scheme and to discuss progress against those indicators. Therefore, I hope that that will also make it more accessible to readers.

Assembly Members have had the opportunity to debate the progress recorded against the annual sustainable development indicators in a debate on 2 March this year, and will have a further opportunity after this year's

Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n croesawu'r cynnydd a wnaed ym maes datblygu cynaliadwy yn 2008-09 fel ag y'i disgrifir yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cynllun datblygu cynaliadwy, a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 2 Mawrth 2010. (NDM4463)

Yr wyf wrth fy modd o fod ger eich bron heddiw i gefnogi'r cynnig sy'n croesawu'r cynnydd a wnaethpwyd ym maes datblygu cynaliadwy yn 2008-09, fel y'i ceir yn adroddiad blynyddol Llywodraeth y Cynulliad ar y cynllun datblygu cynaliadwy. Yn yr adroddiad hwn, sef ein hwythfed adroddiad blynyddol, yr ydym yn tynnu sylw at y cynnydd sydd wedi'i wneud ac yn egluro'n fanylach y camau nesaf yn ein taith tuag at Gymru fwy cynaliadwy.

Mae'n debyg ei bod yn werth tynnu sylw'r Aelodau at y ffaith bod yr adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar flwyddyn olaf y cynllun datblygu cynaliadwy y cytunwyd arno yn 2004—gweithio mewn seilos arloesol oedd disgrifiad Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru o hynny—ac yn edrych ymlaen at y gwaith ar ein cynllun newydd, 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned', a fabwysiadwyd ym mis Mai y llynedd, ac sydd wedi'i groesawu'n gynnes, nid dim ond gan Gomisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru, ond gan eraill.

Mae'r cynlluniau i gyd wedi'u seilio ar set gynhwysfawr o ddangosyddion, sy'n cynnwys pum prif ddangosydd sy'n cyd-fynd â'r pum thema sydd yn y cynllun datblygu cynaliadwy presennol ac yn cael eu cefnogi gan amrywiaeth o ddangosyddion eraill o dan bob thema. Defnyddir y dangosyddion hyn eisoes i sbarduno creu polisiau ac yn gyfrwng monitro i werthuso'r cynnydd. Yn wir, mae'r adroddiad eleni'n cael ei gyflwyno yn y fath fodd nes ei fod yn adlewyrchu penodau'r cynllun datblygu cynaliadwy presennol ac yn trafod y cynnydd ar sail y dangosyddion hynny. Felly, yr wyf yn gobeithio y bydd hynny hefyd yn ei wneud yn haws i ddarllenwyr ei ddeall.

Mae Aelodau'r Cynulliad wedi cael y cyfle i ddadlau ynglŷn â'r cynnydd a gofnodwyd o'u cymharu â'r dangosyddion datblygu cynaliadwy blynyddol mewn dadl ar 2 Mawrth eleni, a bydd cyfle arall ar ôl

indicators are published in August. On that basis, I ask the Conservatives to withdraw amendment 1 or I will have to urge other Members to join me in opposing this amendment, because we have strong indicators supporting the sustainable development scheme.

Our new scheme, which we announced last year, sets out a definition of sustainable development as enhancing the social, economic and environmental wellbeing of people and communities in Wales for the longer term. It commits us to moving forwards using only our fair share of resources within the lifetime of a generation and confirms that sustainable development will be the central organising principle of the Welsh Assembly Government. The annual report that we are debating today sets out how the Government is improving the lives of people in Wales across all its work, and begins to show what that phrase, 'the central organising principle', will mean.

I am grateful to Sustainable Development Commission Wales, our independent policy advisor, for its commentary in the annual report, which highlighted the good progress that has been made, but clearly shows that there is more to do. I strongly concur with that.

3.10 p.m.

The headline indicator that we use as a measurement of resource use is based on Wales's ecological footprint. That footprint shows that we are currently using nearly three planets' worth of resources to sustain our quality of life in Wales. Our new scheme sets out the aspiration that we will become a one-planet nation in the lifetime of a generation. When we published the recalculation of the ecological footprint two years ago, it showed that our 'One Wales' commitments had the potential to stabilise the ecological footprint in the key areas of housing, transport and food, which make up two thirds of the ecological footprint total. We shall continue to monitor our ecological footprint closely and use the results to inform and drive our policies.

cyhoeddi dangosyddion eleni ym mis Awst. Ar sail hynny, gofynnaf i'r Ceidwadwyr dynnu gwelliant 1 yn ôl neu bydd yn rhaid imi bwysu ar Aelodau eraill i ymuno â mi i wrthwynebu'r gwelliant hwn, oherwydd bod gennym ddangosyddion cryf sy'n cefnogi'r cynllun datblygu cynaliadwy.

Mae ein cynllun newydd, a gyhoeddwyd gennym y llynedd, yn rhoi diffiniad o ddatblygu cynaliadwy, sef gwella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl a chymunedau yng Nghymru ar gyfer y tymor hir. Drwy'r cynllun yr ydym yn ymrwmo i symud ymlaen heb ddefnyddio mwy na'n cyfran deg o adnoddau o fewn oes cenhedlaeth ac yn cadarnhau mai datblygu cynaliadwy fydd prif egwyddor ganolog Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r adroddiad blynyddol yr ydym yn ei drafod heddiw'n egluro sut y mae'r Llywodraeth yn gwella bywydau pobl yng Nghymru ym mhob rhan o'i gwaith, ac yn dechrau dangos beth yw ystyr yr ymadrodd hwnnw, 'prif egwyddor ganolog'.

Yr wyf yn ddiolchgar i Gomisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru, ein cynghorydd polisi annibynnol, am ei sylwebaeth yn yr adroddiad blynyddol, a dynnodd sylw at y cynnydd da sydd wedi'i wneud, ond sy'n dangos yn glir fod rhagor i'w wneud. Cytunaf yn llwyr â hynny.

Seilir ein prif ddangosydd i fesur yr adnoddau a ddefnyddir gennym ar ôl troed ecolegol Cymru. Dengys yr ôl troed hwnnw ein bod ar hyn o bryd yn defnyddio gwerth bron tair planed o adnoddau i gynnal ansawdd ein bywyd yng Nghymru. Mae ein cynllun newydd yn cynnwys y dyhead y down yn genedl un blaned yn ystod oes cenhedlaeth. Pan gyhoeddwyd ailgyfrifiad yr ôl troed ecolegol ddwy flynedd yn ôl, dangosodd y gallai ein hymrwymiaidau yn 'Cymru'n Un' sefydlogi'r ôl troed ecolegol ym meysydd allweddol tai, trafniadaeth, a bwyd, sef dwy ran o dair o gyfanswm yr ôl troed ecolegol. Byddwn yn parhau i fonitro'n hól troed ecolegol yn ofalus ac yn defnyddio'r canlyniadau'n sail ac yn sbardun i'n polisïau.

Our annual report sets out the work undertaken in 2008-09 to move towards a more efficient use of resources: in energy, through the home energy efficiency scheme, in waste, where we look particularly at municipal recycling and composting, and 149 schemes in NHS organisations via the NHS central energy fund have made a saving of 13,400 tonnes of carbon dioxide. We are also making clear advances in all parts of the Welsh Assembly Government's work, but we are not close enough to where we would like, or need, to be. The climate change strategy, to be published this autumn, will set out the approach and actions that we need to take to meet the 'One Wales' target of greenhouse gas emission reductions of 3 per cent per year from 2011 onwards, across all sectors, and the statutory commitments in the Climate Change Act 2008.

The annual report shows the many measures that we have taken over 2008-09 to protect and work with our environment, covering land, sea, air and soil in Wales. We have launched 'Woodlands for Wales', published the second environment strategy action plan, and established the ecosystem group, a species expert group and a policy group in support of biodiversity. Although we are making progress on biodiversity, along with other EU countries, we have failed to meet the 2010 target of halting loss for every species and habitat. However, we have put in place the necessary mechanisms to achieve the 2015 environment strategy target of ensuring that 95 per cent of sites of special scientific interest will be in favourable condition—by 2026, all sites are to be in favourable condition. I have begun a conversation with stakeholders on a new natural environment framework to take a new approach to biodiversity in the context of our ecosystem management work. We will be debating this later this term and launching it in the autumn.

As regards a sustainable economy, 2008-09

Mae ein hadroddiad blynyddol yn nodi'r gwaith a wnaethpwyd yn 2008-09 i symud tuag at ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon; ym maes ynni, drwy'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, mewn gwastraff, lle y byddwn yn edrych yn benodol ar ailgylchu trefol a chompostio, ac mae 149 o gynlluniau yn sefydliadau'r GIG drwy gronfa ynni ganolog y GIG, wedi arbed 13,400 tonnall o garbon deuocsid. Yr ydym hefyd yn gwneud cynnydd amlwg ym mhob rhan o waith Llywodraeth y Cynulliad, ond nid ydym yn ddigon agos at y sefyllfa yr hoffem fod ynddi, nac at y sefyllfa y mae angen inni fod ynddi. Bydd y strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd, a gyhoeddir yn yr hydref, yn egluro'r dull o fynd ati a'r camau y bydd angen inni eu cymryd i gyrraedd targed 'Cymru'n Un' ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 3 y cant y flwyddyn o 2011 ymlaen, ar draws pob sector, a'r ymrwymadau statudol yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.

Dengys yr adroddiad blynyddol y lluo o fesurau yr ydym wedi'u cymryd yn ystod 2008-09 i amddiffyn ein hamgylchedd a gweithio gydag ef. Mae hynny'n cynnwys y tir, y môr, yr aer a'r pridd yng Nghymru. Yr ydym wedi lansio 'Coetiroedd i Gymru', wedi cyhoeddi ail gynllun gweithredu'r strategaeth amgylcheddol ac wedi sefydlu'r grŵp ecosystemau, grŵp arbenigol ar rywogaethau a grŵp polisi i gefnogi bioamrywiaeth. Er ein bod yn gwneud cynnydd o ran bioamrywiaeth, ochr yn ochr â gwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd, yr ydym wedi methu cyrraedd targed 2010 sef atal colledion o ran pob rhywogaeth a chynefin. Fodd bynnag, yr ydym wedi rhoi'r mecanweithiau angenrheidiol ar waith i sicrhau targed strategaeth yr amgylchedd ar gyfer 2015 sef sicrhau bod 95 y cant o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig mewn cyflwr ffafriol—erbyn 2026, disgwylir i bob safle fod mewn cyflwr ffafriol. Yr wyf wedi dechrau cynnal trafodaeth gyda rhanddeiliaid ynghylch fframwaith newydd ynglŷn â'r amgylchedd naturiol i ddilyn dull newydd o ymdrin â bioamrywiaeth yng nghyd-destun ein gwaith rheoli ecosystemau. Byddwn yn trafod hyn yn ddiweddarach y tymor hwn ac yn ei lansio yn yr hydref.

O ran economi gynaliadwy, cofir 2008-09 am

will be remembered for the global economic downturn. The realities of this situation are all too real for Welsh families and communities. We responded directly to this through our programme of economic summits and the introduction of ProAct and ReAct. Our ongoing challenge is to ensure that Wales's economy is resilient in the long term. Towards this, in 2008-09, we took forward the Heads of the Valleys low-carbon zone and launched the green jobs strategy and 'Skills That Work for Wales'.

In terms of a sustainable society, our annual report sets out the challenges that we face to improve quality of life and reduce poverty. In 2008-09, we consulted on a national housing strategy, 'Sustainable Homes', which incorporates the principles of sustainable development; we launched the local sourcing action plan, 'Food Tourism Action Plan—Food and Drink for Wales', and took forward our walking and cycling action plan, to improve people's health and wellbeing as well as reducing emissions from transport. I am delighted that, in January this year, the Cabinet confirmed the wellbeing indicator as our fifth headline indicator of sustainable development. All our work—social, economic and environmental—should be going towards improving people's quality of life in Wales. In 2008-09, we launched our new six-stranded single equality scheme, we rolled out the foundation phase for primary education, and we consulted on the all-Wales community cohesion strategy, to strengthen our communities.

I know that all Members are justifiably proud that our small nation is one of the few worldwide to have sustainable development as a legal duty of our Government. The new scheme confirms our interpretation of that legal duty as a focus on improving people's lives within Wales, and recognising the economic, social and environmental aspects of that. The scheme confirms the Cabinet's commitment to make sustainable development the central organising principle of the Welsh Assembly Government. In 2008-09, as you will see from the report, we made a number of internal changes in 2008-09 to help to ensure that sustainability is

y dirywiad economaidd byd-eang. Mae realiti'r sefyllfa hon yn rhy real o lawer i deuluoedd a chymunedau Cymru. Ymatebasom yn uniongyrchol i hyn drwy ein rhaglen uwchgynadleddau economaidd a chyflwyno ProAct a ReAct. Yr her barhaus inni yw sicrhau bod economi Cymru'n ddigon gwydn i wrthsefyll pethau yn y tymor hir. Gyda hyn mewn golwg, yn 2008-09, aethom ati i fwrw ymlaen â pharth rhad ar garbon Blaenau'r Cymoedd a lansio'r strategaeth swyddi gwyrdd a 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'.

O ran cymdeithas gynaliadwy, mae ein hadroddiad blynyddol yn rhestru'r heriau a wynebwn er mwyn gwella ansawdd bywyd a lleihau tlodi. Yn 2008-09, ymgynghorwyd ar strategaeth dai genedlaethol, 'Cartrefi Cynaliadwy', sy'n ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy; lansiodd y cynllun gweithredu cyrchu lleol, 'Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd—Bwyd a Diod i Gymru', a datblygwyd ein cynllun gweithredu cerdded a beicio, er mwyn gwella iechyd a lles pobl yn ogystal â lleihau allyriadau yn sgîl trafndiaeth. Yr wyf wrth fy modd i'r Cabinet gadarnhau, ym mis Ionawr eleni, y dangosydd lles yn bumed prif bennawd datblygu cynaliadwy. Dylai ein holl waith—yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol—fod yn gweithio tuag at wella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru. Yn 2008-09, aethom ati i lansio ein cynllun cydraddoldeb sengl newydd sydd â chwe llinyn, cyflwyno'r cyfnod sylfaen ar gyfer addysg gynradd, a chynnal ymgynghoriad ar strategaeth cydlyniant cymunedol Cymru gyfan, er mwyn cryfhau'n cymunedau.

Gwn fod pob Aelod yn falch, a hynny'n ddigon teg, mai ein cenedl fach ni yw un o'r ychydig rai drwy'r byd lle y mae datblygu cynaliadwy'n ddyletswydd gyfreithiol i'n Llywodraeth. Mae'r cynllun newydd yn cadarnhau ein bod yn dehongli'r ddyletswydd gyfreithiol honno drwy ganolbwyntio ar wella bywydau pobl yng Nghymru, a chydabod yr agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar hynny. Mae'r cynllun yn cadarnhau ymrwymiad y Cabinet i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor ganolog Llywodraeth y Cynulliad. Yn 2008-09, fel y gwelwch o'r adroddiad, gwnaethpwyd nifer o newidiadau

embedded within all policies, programmes and delivery.

Looking back over 2008-09, I was struck by how many examples there are of excellent work across all ministerial portfolios, moving the sustainable development agenda forward in Government. The annual report also sets out what we need to do to improve the social, economic and environmental wellbeing of people in Wales, based on information from our indicators. A key issue that we are facing over the coming years is the continued pressure on public sector finances. This has confirmed for us in Cabinet that it is critical that we integrate social, economic and environmental issues and actively manage any conflicts between these issues to deliver best value for the Welsh pound on the principle of sustainable development. I look forward to seeing the next annual report, showing what has changed as a result of having sustainability as our central organising principle, and how we have responded and will continue to respond to some of the key challenges to becoming a more sustainable Wales.

Brynle Williams: I move amendment 1 in the name of Alun Cairns. Add a new point at the end of the motion:

urges the Welsh Assembly Government to implement and abide by a clear set of measurable indicators so that the outcomes and effectiveness of the sustainable development scheme can be properly evaluated.

I am pleased to speak on behalf of the Welsh Conservatives in this debate. Minister, you ask us to welcome the progress made on sustainable development in 2008-09, and, of course, we would wish to see and encourage progress. However, this is a mixed bag. When I compare this report with the 2007-08 report, I see a number of projects rehashed and much-praised initiatives that have not been delivered. For example, in the section of the report entitled 'Sustaining the

mewnol yn 2008-09 er mwyn cynorthwyo i sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o bob polisi, pob rhaglen a phopeth sy'n cael ei gyflawni.

Ac edrych yn ôl dros 2008-09, mae'n drawiadol cynifer o enghreifftiau sydd o waith rhagorol ar draws portffolio pob Gweinidog, gan symud yr agenda datblygu cynaliadwy yn ei blaen yn y Llywodraeth. Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn dweud beth y mae angen inni ei wneud i wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl yng Nghymru, ar sail y wybodaeth yn ein dangosyddion. Un broblem allweddol y byddwn yn ei hwynebu dros y blynyddoedd nesaf fydd y pwysau parhaus ar arian y sector cyhoeddus. Mae hyn wedi cadarnhau inni yn y Cabinet ei bod yn hollbwysig inni integreiddio materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a mynd ati i reoli unrhyw wrthdaro rhwng y materion hyn er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am bunt Cymru ar sail egwyddor datblygu cynaliadwy. Edrychaf ymlaen at weld yr adroddiad blynyddol nesaf, gan ddangos beth sydd wedi newid oherwydd bod cynaliadwyedd yn brif egwyddor ganolog inni, sut yr ydym wedi ymateb a sut y byddwn yn parhau i ymateb i rai o'r heriau sy'n ein rhwystro rhag dod yn Gymru fwy cynaliadwy.

Brynle Williams: Cynigiau welliant 1 yn enw Alun Cairns. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu ac i ddilyn set glir o ddangosyddion mesuradwy er mwyn gallu gwerthuso canlyniadau ac effeithiolrwydd y cynllun datblygu cynaliadwy yn iawn.

Yr wyf yn falch o siarad ar ran y Ceidwadwyr Cymreig yn y ddatl hon. Weinidog, yr ydych yn gofyn inni groesawu'r cynnydd a wnaethpwyd ym maes datblygu cynaliadwy yn 2008-09, ac, wrth gwrs, byddem yn hoffi gweld cynnydd ac yn annog hynny. Fodd bynnag, cymysg yw'r sefyllfa. Wrth gymharu'r adroddiad hwn ag adroddiad 2007-08, gwelaf fod nifer o brosiectau wedi'u rhoi at ei gilydd o'r newydd a bod llawer o gynlluniau a ganmolwyd sydd heb

Environment', it discusses launching a new agri-environment scheme but, as the Minister will be aware, Glastir has been surrounded by uncertainties from the outset and still has a way to go before being fit for purpose. That is a fact recognised by the Minister's decision to extend a proportion of payments under Tir Mynydd for another two years.

Another example is the section entitled 'A Sustainable Economy', which refers to the green jobs strategy, 'Capturing the Potential'. However, we do not believe that the green jobs strategy is economically sound or environmentally radical. Most business support is tied up in Flexible Support for Business and, given the leading-edge nature of the research and development that is involved in renewable energy companies, there is no real access to a source of substantial new funding. The green jobs strategy identifies as a key outcome that,

'Businesses maximise efficiencies and in doing so increase profits without contributing unnecessarily to carbon emissions and waste'.

How is that measurable? What will you do if they do not? What constitutes 'unnecessarily'? There is no detail and there is no measurability.

That section of the report also mentions, in glowing terms, the Welsh Assembly Government's Communities First programme. You refer to it as a flagship programme. This is the same programme of which the auditor general said, in July 2009, that,

'it is unlikely to deliver its broader objectives without a more robust approach to programme bending'.

In February 2010, the cross-party Public Accounts Committee published a report that clearly stated,

'Our conclusions are that, overall, the Communities First programme has not delivered good value for the significant

eu gwireddu. Er enghraifft, yn yr adran 'Cynnal yr Amgylchedd' yn yr adroddiad, trafodir lansio cynllun amaeth-amgylcheddol newydd ond, fel y gŵyr y Gweinidog, bu ansicrwydd yn gysylltiedig â Glastir ers y dechrau ac mae llawer o waith i'w wneud nes bydd y cynllun hwnnw'n addas i'w ddiben. Caiff hynny ei gydnabod ym mhenderfyniad y Gweinidog i ymestyn cyfran o daliadau'r cynllun Tir Mynydd am ddwy flynedd arall.

Enghraifft arall yw'r adran 'Economi Gynaliadwy, sy'n cyfeirio at y strategaeth swyddi gwyrdd, 'Gwireddu'r Potensial'. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod y strategaeth swyddi gwyrdd yn un gadarn o safbwynt yr economi nac yn radical o safbwynt yr amgylchedd. Mae'r rhan fwyaf o'r cymorth i fusnesau'n dod yn sgîl y cynllun Cymorth Hyblyg i Fusnes. O ystyried natur arloesol y gwaith ymchwil a datblygu sy'n gysylltiedig â chwmnïau ynni adnewyddadwy, nid oes gwir ffordd o gael cyllid newydd sylweddol. Un o brif amcanion y strategaeth swyddi gwyrdd yw,

'Bod busnesau'n cynyddu i'r eithaf eu harbedion effeithlonrwydd a thrwy wneud hynny'n cynyddu'r elw heb gyfrannu'n ddiangen at allyriadau carbon a gwastraff'.

Sut y mae modd mesur hynny? Beth a wnewch os nad yw busnesau'n cyflawni hynny? Beth yw ystyr 'diangen'? Nid oes manylion ac nid oes modd o fesur hyn.

Mae'r adran hon yn yr adroddiad hefyd yn cyfeirio, yn dra chanmoliaethus, at raglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cyfeiriwch ati fel un o'ch rhaglenni blaenllaw. Dyma'r rhaglen y dywedodd yr archwilydd cyffredinol amdani ym mis Gorffennaf 2009,

'ei bod yn annhebygol o gyflawni ei hamcanion ehangach os na fabwysiedir dull mwy cadarn o blygu rhaglenni'.

Ym mis Chwefror 2010, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, sy'n bwyllgor trawsbleidiol, adroddiad a ddywedai'n glir,

'Daethom i'r casgliad nad yw rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, yn gyffredinol, wedi rhoi gwerth da am y swm sylweddol o arian

amount of public money spent on it, and that this is largely because of weaknesses in the Welsh Government's construction and management of the programme'.

It is not very sustainable at all, Minister, and those conclusions should surely have been reflected in the measuring of targets and in this subsequent report. Our amendment 1 is designed to urge the Government to think carefully about the claims of success made, and to be honest and clear. There is a lack of clarity that makes comparing across the years difficult.

3.20 p.m.

It is for this reason that we tabled our amendment 1, which urges the Welsh Assembly Government to implement and to abide by a clear set of measurable indicators, so that we can more coherently measure the effectiveness and outcomes. We simply want these indicators to show the progress that we have made, whether the area being examined is Communities First, which has been found wanting, unemployment—or employment—where there has been little or no change since 2000, or the international targets that we are not hitting.

The report talks of indicators that have some insufficient data. If the Sustainable Development Commission and Members of the National Assembly for Wales are truly to assess the extent to which sustainable development has become a central organising principle for the Welsh Assembly Government, we need a consistent and measurable performance. At present, we believe that there have been so many new consultations, new initiatives and indicators that are not relevant that the report does not bear up to scrutiny, and, with regret, we find no progress to welcome.

Michael German: I start by welcoming the work of the Minister. There is no doubt that she has a commitment to sustainability. I also welcome the independent review in the report. The review has been undertaken by the Sustainable Development Commission,

cyhoeddus a wariwyd arni, a bod hyn i'w briodoli'n bennaf i wendidau yn y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi cynllunio a rheoli'r rhaglen'.

Nid yw hynny'n gynaliadwy o gwbl, Weinidog, ac yn sicr ddigon, dylai'r casgliadau hynny fod wedi cael sylw wrth fesur y targedau ac yn yr adroddiad dilynol hwn. Nod gwelliant 1 yw annog y Llywodraeth i feddwl yn ofalus cyn honni ei bod wedi llwyddo, ac i fod yn onest ac yn eglur. Nid oes digon o eglurder ac mae hynny'n ei gwneud yn anodd cymharu rhwng y naill flwyddyn a'r llall.

Dyma pam yr ydym wedi cyflwyno gwelliant 1, sy'n annog Llywodraeth y Cynulliad i gyflwyno a dilyn cyfres glir o ddangosyddion y gellir eu mesur, er mwyn inni fesur yn well pa mor effeithiol yw pethau ynghyd â'r canlyniadau. Yr ydym am i'r dangosyddion hyn gael eu cyflwyno er mwyn dangos y cynnydd yr ydym wedi'i wneud, boed wrth edrych ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, sy'n anfoddhaol, fel y gwelsom, wrth edrych ar ddiweithdra—neu gyflogaeth—lle nad oes newid neu fawr ddim newid wedi bod ers 2000, neu wrth edrych ar y targedau rhyngwladol nad ydym yn eu cyrraedd.

Mae'r adroddiad yn sôn am ddangosyddion lle nad oes digon o ddata. Os yw'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ac Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am asesu mewn gwirionedd i ba raddau y mae datblygu cynaliadwy wedi dod yn brif egwyddor ganolog i Lywodraeth y Cynulliad, mae angen perfformiad cyson arnom a pherfformiad y gellir ei fesur. Ar hyn o bryd, gan fod cynifer o ymgynghoriadau newydd, cynlluniau newydd a dangosyddion newydd wedi'u cyflwyno, a'r rheini'n amherthnasol, credwn nad oes modd craffu'n iawn ar yr adroddiad, ac, yn affodus, ni welwn fod ynddo gynnydd i'w groesawu.

Michael German: Dechreuaf drwy groesawu gwaith y Gweinidog. Nid oes dwywaith nad yw wedi ymrwymo i gynaliadwyedd. Yr wyf yn croesawu hefyd yr adolygiad annibynnol yn yr adroddiad. Cafodd yr adolygiad hwnnw ei gynnal gan y Comisiwn Datblygu

which has the role of assessing the performance of the Welsh Assembly Government in delivering its sustainable development policies. It is good to have that independent commentary on the Government's performance against the 'One Wales: One Planet' action plan. We also get regular updates from the Climate Change Commission for Wales. The problem for us all in relation to the sustainable development plan is that it is difficult to see the wood for the trees. It is such a complex matter covering every aspect of our environmental, social and economic life that it is not easy to see how we make progress.

Today we are trying to assess a report that is for 2008-09, which is over a year out of date already—well, it is a year ago. We are looking at a report about a period that was a year ago, and we are commenting on something that, in many cases, will have altered with time. There are fundamental questions that the Minister needs to answer about how you maintain knowledge and understanding of how things are at present. One thing that worries me—and this was a question that I asked the Minister last week—is the target of securing a 3 per cent year-on-year reduction in carbon emissions, which was to be achieved by the end of this third Assembly. The Minister rightly says that we will not know whether we have achieved that target and whether the 'One Wales' commitments will have been achieved until 2012—in other words, a year after the election of the fourth Assembly. Therefore, it will not be possible for the Welsh public to assess the Government on one of its key sustainability targets until well after the election has taken place.

Having said that, we need to find ways of measuring what the Welsh Assembly Government has been doing. We know that the sustainable development indicators that were published in the report have been updated since the year in question. It shows clear improvements against 18 of the 41 indicators in 2009, which would mean that there has been no improvement, or a

Cynaliadwy sy'n gyfrifol am asesu perfformiad Llywodraeth y Cynulliad wrth iddi roi ei pholisïau datblygu cynaliadwy ar waith. Da o beth yw cael y sylwadau annibynnol hynny ar berfformiad y Llywodraeth o'i gymharu â'r cynllun gweithredu 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned'. Yr ydym hefyd yn cael diweddariadau rheolaidd gan Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Y broblem inni i gyd gyda datblygu cynaliadwy yw ei bod yn anodd gweld y darlun mawr. Mae'n fater mor gymhleth sy'n gysylltiedig â phob agwedd ar ein bywyd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, nes ei bod yn anodd gweld sut yr ydym yn gwneud cynnydd.

Heddiw yr ydym yn ceisio asesu adroddiad ar gyfer 2008-09, sy'n golygu bod hwnnw flwyddyn a mwy ar ei hôl hi'n barod. Yr ydym yn edrych ar adroddiad ar gyfer cyfnod a oedd flwyddyn yn ôl, ac yr ydym yn gwneud sylwadau am rywbeth a fydd, mewn sawl achos, wedi newid wrth i amser fynd heibio. Ceir cwestiynau sylfaenol y mae angen i'r Gweinidog eu hateb ynghylch sut y y mae modd cael gwybodaeth am y sefyllfa fel y mae a sut y mae modd deall y sefyllfa honno. Un peth sy'n peri pryder imi—ac yr oedd hwn yn gwestiwn a ofynnais i'r Gweinidog yr wythnos diwethaf—yw'r targed o sicrhau gostyngiad o 3 y cant o'r naill flwyddyn i'r llall mewn allyriadau carbon, a hynny i'w gyflawni erbyn diwedd y trydydd Cynulliad hwn. Mae'r Gweinidog yn gywir y bydd yn rhaid aros tan 2012 cyn gwybod a fyddwn wedi cyrraedd y targed hwnnw ac a fydd ymrwymadau 'Cymru'n Un' wedi'u cyflawni—mewn geiriau eraill, flwyddyn ar ôl ethol y pedwerydd Cynulliad. Felly, ni fydd modd i bobl Cymru asesu'r Llywodraeth o ran un o'i phrif dargedau cynaliadwyedd nes bydd yr etholiad wedi'i hen gynnal.

Ar ôl dweud hynny, mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd o fesur yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn ei wneud. Gwyddom fod y dangosyddion datblygu cynaliadwy a gyhoeddwyd yn yr adroddiad wedi'u diweddarau ers y flwyddyn dan sylw. Mae'n dangos gwelliant clir yn achos 18 o'r 41 dangosydd yn 2009, sy'n golygu na fu dim gwelliant, neu ddim newid,

standstill, against the remaining 23 indicators. It is difficult to say that, if you have achieved 18 out of 41, you have made progress, as there has not been real progress in the majority. Remember that we have an ecological footprint of 2.7 planets, which means that we are soaking up the equivalent of 2.7 planets' worth of resources to sustain us. Clearly, a lot more can be done.

The challenges are there, and the Minister has to find a way of telling us how her performance can be measured and how she would like that to be measured, and we will examine that in the future. There are three areas that I would like to examine, on which the Minister has been particularly challenged. The first is biodiversity, the second is unemployment, the recession and how you maintain sustainable development during a period of unemployment and recession, and the third is embedding action in the Welsh Assembly Government's decision making, which the Minister referred to in her opening statement.

The most widely used definition of sustainable development is development that meets the needs of the present without compromising the ability of future generations to meet their own needs. I think that we would all agree with that definition or something close to it. Therefore, we need to find a balanced and integrated approach to everything that we do in every area of activity. It is not just about what people call 'green' issues, because it is relevant to every aspect of our lives. Sustainability must be embedded in every aspect of our lives. That is why unemployment and the recession are key issues in relation to our being able to meet our sustainable development indicators and targets.

I must say that I am disappointed that the Government's target to halt biodiversity loss and to bring sites designated for nature conservation into a favourable condition by 2010 has not been achieved—and I am sure that the Minister is also disappointed; indeed, she mentioned it in her opening statement. There are national as well as international targets, yet it is widely acknowledged now that these targets have been missed, although

yn achos y 23 dangosydd sy'n weddill. A chithau wedi llwyddo mewn 18 o 41 dangosydd, mae'n anodd dweud eich bod wedi gwneud cynnydd, gan na fu dim gwir gynnydd yn y rhan fwyaf ohonynt. Cofier hefyd fod gennym ôl-troed ecolegol o 2.7 planed, sy'n golygu ein bod yn defnyddio'r hyn sy'n cyfateb i adnoddau 2.7 planed i'n cynnal. Yn amlwg, gellir gwneud llawer mwy.

Mae heriau o'n blaenau, a rhaid i'r Gweinidog ddod o hyd i ffordd o roi gwybod inni sut y gellir mesur ei pherfformiad a sut yr hoffai i hynny gael ei fesur, a sut y byddwn yn edrych ar hynny yn y dyfodol. Mae tri maes yr hoffwn edrych arnynt lle y mae'r Gweinidog wedi wynebu heriau penodol. Y cyntaf yw bioamrywiaeth, yr ail yw diweithdra, y dirwasgiad a sut y gallwch gynnal datblygu cynaliadwy mewn cyfnod o ddiweithdra a dirwasgiad, a'r trydydd yw sicrhau bod gweithredu'n rhan annatod o broses gwneud penderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad, sef rhywbeth y cyfeiriodd y Gweinidog ato yn ei datganiad agoriadol.

Y diffiniad a ddefnyddir amlaf ar gyfer datblygu cynaliadwy yw datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb danseilio gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Credaf y byddem i gyd yn cytuno â'r diffiniad hwnnw neu rywbeth go debyg. Felly, mae angen inni ganfod ffordd gytbwys ac integredig o wneud popeth ym mhob maes. Nid yr hyn y mae pobl yn eu galw'n faterion 'gwyrdd' yn unig a olygaf, gan eu bod yn rhan o bob agwedd ar ein bywydau. Rhaid i gynaliadwyedd fod yn rhan annatod o bob agwedd ar ein bywydau. Dyna pam mae diweithdra a'r dirwasgiad yn hollbwysig o ran ein gallu i gyrraedd dangosyddion a thargedau datblygu cynaliadwy.

Rhaid imi ddweud fy mod yn siomedig na chyrhaeddwyd targed y Llywodraeth i atal dirywiad mewn bioamrywiaeth ac i sicrhau bod safleoedd a ddynodwyd yn warchodfeydd natur mewn cyflwr ffafriol erbyn 2010. Yr wyf yn sicr bod y Gweinidog yn siomedig hefyd; yn wir, cyfeiriodd at hynny wrth agor y ddadl. Mae gennym dargedau cenedlaethol yn ogystal â rhai rhyngwladol, ond cydnabyddir gan lawer o

some work has been done, but not enough to meet these important targets. Halting and reversing the loss of our biodiversity is extremely important, and not only for the environment because it is protecting our country for the future. It is a worthy cause in itself and is a means of improving and encouraging wellbeing, tourism, investment and so on. Therefore, we need to meet that target. I would like to know from the Minister when she anticipates being able to meet that target so that we no longer see a decline in priority habitats and species.

The second area, which is a challenging one, is how you create sustainability for the unemployed.

Finally, would the Minister comment on the Audit Commission's report on embedding sustainable development in Welsh Assembly Government activity? I will just quote the headline to finish with:

'sustainable development is seen as one of a number of competing priorities, rather than as an approach that will help the Assembly Government to choose between competing priorities'.

That is a question that the Welsh Assembly Government needs to answer, and it almost reflects the question that I asked last week, namely where Jocelyn Davies and other Ministers are on their targets for sustainable development? How do they embed that in all that they do?

Chris Franks: Most commentators would agree that Wales is leading the way when it comes to sustainable development, because, uniquely, we have a legal duty to promote it included in the legislation that created the Assembly. However, there is no doubt a great deal more to do. After the disastrous Copenhagen climate change conference, there is a real urgency for the world's nations to co-operate and to act. There will be another opportunity to secure a legally binding climate change agreement, and we hope that the Welsh Government, with its commitment to reducing greenhouse gases by

bobl bellach na chyrrhaeddwyd y rheini. Mae'n wir bod rhywfaint o waith wedi'i wneud, ond nid digon i gyrraedd y targedau pwysig hyn. Mae atal a gwyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn hynod o bwysig, ac nid yn unig i'r amgylchedd, gan ei fod yn diogelu'n gwlad at y dyfodol. Mae'n achos teilwng ynddo'i hun ac yn ffordd o wella a hyrwyddo lles, twristiaeth, buddsoddi ac yn y blaen. Felly, mae angen inni gyrraedd y targed hwnnw. Hoffwn glywed gan y Gweinidog pryd y mae'n disgwyl gallu cyrraedd y targed hwnnw fel na fyddwn bellach yn gweld dirywiad yn y cynefinoedd a'r rhywogaethau hynny sy'n flaenoriaeth.

Yr ail faes, sy'n un heriol, yw sut y mae cyflwyno cynaliadwyedd ym mywydau pobl ddi-waith.

Yn olaf, a wnaiff y Gweinidog roi sylwadau am adroddiad y Comisiwn Archwilio ynghylch sicrhau bod datblygu cynaliadwy'n rhan annatod o weithgarwch Llywodraeth y Cynulliad? Dyfynnaf y pennawd i gloi:

ystyrir bod datblygu cynaliadwy'n un o blith nifer o flaenoriaethau croes, yn hytrach nag yn rhywbeth a fydd yn helpu Llywodraeth y Cynulliad i ddewis rhwng blaenoriaethau croes.

Mae hwnnw'n gwestiwn y mae angen i Lywodraeth y Cynulliad ei ateb, ac mae'n adlewyrchu bron y cwestiwn a ofynnais yr wythnos diwethaf, sef beth yw sefyllfa Jocelyn Davies a'r Gweinidogion eraill o ran eu targedau ar gyfer datblygu cynaliadwy. Sut y maent yn gwneud hynny'n rhan annatod o bopeth a wnânt?

Chris Franks: Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod Cymru ar flaen y gad gyda datblygu cynaliadwy, oherwydd, yn dra unigryw, mae'r ddeddfwriaeth a sefydlodd y Cynulliad yn ei gwneud yn ddyletswydd gyfreithiol arnom ei hyrwyddo. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth nad oes llawer rhagor i'w wneud o hyd. Ar ôl y gynhadledd drychinebus ar y newid yn yr hinsawdd yn Copenhagen, mae gwir angen i genhedloedd y byd gydweithredu a chymryd camau ar frys. Bydd cyfle arall i gael cytundeb ac iddo rym cyfreithiol ar y newid yn yr hinsawdd, a gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru,

3 per cent per year from next year onwards, will be able to play its part in Mexico.

Plaid Cymru reiterates our commitment, and indeed the Government's, to working towards changing our consumption patterns in Wales so that we use our fair share of the Earth's resources and not the equivalent, as was just mentioned, of the 2.7 planets' worth that we consume currently. We support the practical projects that are helping to change people's behaviour, attitudes and understanding of climate change.

3.30 p.m.

On page 27 of the report, the Heads of the Valleys programme in my region is provided as a case study. The fantastic work that is going on includes the Walking for Health project, the Valleys' kids north and south bike ride, the clean rivers campaign, and the biodiversity and woodlands preservation projects. There have been other benefits. For example, opportunities have been provided for skills and training, such as the apprenticeships in woodland management. There are some great things going on, but, Minister, are we going quickly enough to meet the tough targets on greenhouse gas emission reductions that this Government has set itself? People are already feeling the effect of the increased risk of floods. A recent report by the Environment Agency said that one in nine homes could be at risk in the future. Minister, we have no option but to get this right; I sincerely hope that we do.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I thank the Members who have contributed to the debate. The Assembly is 10 years into our work of taking this agenda forward. If you look back at where we were at the beginning of the Assembly and look at where we are now, there is a far greater understanding of the importance of sustainable development and the role of the central organising principle. There is a far greater understanding that we need to achieve

gyda'i hymrwymiad i leihau 3 y cant y flwyddyn ar nwyon tŷ gwydr o'r flwyddyn nesaf ymlaen, yn gallu cyfrannu at hynny ym Mecsico.

Ym Mhlaid Cymru, pwysleisiwn drachefn ein hymrwymiad, ac ymrwymiad y Llywodraeth yn wir, i weithio tuag at newid ein patrymau defnyddio adnoddau yng Nghymru fel ein bod yn defnyddio cyfran deg o adnoddau'r ddaear ac nid yr hyn sy'n cyfateb i werth 2.7 planed o adnoddau, sef yr hyn a ddefnyddiwn ar hyn o bryd, fel y soniwyd gynnu. Yr ydym yn cefnogi'r prosiectau ymarferol sy'n helpu i newid ymddygiad, agweddau a dealltwriaeth pobl o'r newid yn yr hinsawdd.

Ar dudalen 27 yn yr adroddiad, rhoddir rhaglen Blaenau'r Cymoedd yn fy rhanbarth fel astudiaeth achos. Mae'r gwaith gwych sy'n mynd rhagddo yn cynnwys y prosiect Cerdded y Ffordd i Iechyd, taith feicio'r gogledd a'r de plant y Cymoedd, yr ymgyrch afonydd glân, a'r prosiectau bioamrywiaeth a chadw coetiroedd. Bu manteision eraill. Er enghraifft, bu cyfleoedd i gael hyfforddiant a datblygu sgiliau, fel y brentisiaeth mewn rheoli coetiroedd. Mae pethau da iawn yn mynd rhagddynt, ond, Weinidog, a ydym yn symud yn ddigon cyflym i gyrraedd y targedau anodd y mae'r Llywodraeth hon wedi'u pennu ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr? Mae'r cynnydd o ran y perygl i lifogydd ddigwydd yn dechrau effeithio ar bobl eisoes. Dywedodd adroddiad yn ddiweddar gan Asiantaeth yr Amgylchedd y gallai un o bob naw tŷ fod mewn perygl yn y dyfodol. Weinidog, nid oes dewis gennym ond llwyddo; gobeithio'n wir y byddwn yn gwneud hynny.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Diolch i'r Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl. Mae 10 mlynedd ers i'r Cynulliad ddechrau'r gwaith o fwrw ymlaen â'r agenda hon. Os edrychwch ymhle yr oeddem ar ddechrau'r Cynulliad ac ymhle yr ydym erbyn hyn, mae gwell dealltwriaeth o lawer o bwysigrwydd datblygu cynaliadwy a rôl y brif egwyddor ganolog. Mae gwell dealltwriaeth o lawer fod angen inni gyrraedd sefyllfa lle na allwn anwybyddu datblygu

a position where sustainable development cannot be traded away, because we are not just looking at the environmental agenda, but the economic agenda, the social agenda, the world-resource agenda and the wellbeing agenda alongside each other. That is why the five headline indicators are so strong.

It is tempting for Members to read climate change and sustainable development as two parts of the same thing, but they clearly are not. Climate change is a dramatic consequence of unsustainable development. We have to be absolutely clear that we need to respond by taking that balanced approach in every area of our work if we are going to respond sustainably. I am grateful to Members for increasing their endorsement of the principle of sustainability.

When we talk, for example, about how we embed sustainability in everything we do, I fully acknowledge that it is a real challenge. It is not just a challenge to me as the Minister now, it is a challenge to every Minister in this Cabinet. Indeed, it is a challenge to every Assembly Member in taking forward the continuation of this legal duty. It is something that we need to have in our DNA as Members in Wales if we are going to take this forward as effectively as we can.

With regard to the numerous points that Members made about individual projects or initiatives, it is easy to say, if you do not like a particular project or initiative, that, in your view, it has not been sustainable. However, the test would be whether Government has looked at the economic, social, environmental, wellbeing and resource-use issues when coming to a view about that policy. If Government has done so, then that policy can be said to be truly sustainable. We are now looking at ways in which we can ensure that what we do as a Government embeds that principle of sustainability. Therefore, there is a great deal in the report, informed by work being undertaken by the Wales Audit Office. I will not comment on the Public Accounts Committee report in particular, because we will need to comment upon it formally in due course. However, having met with representatives of the audit office and the directors general to discuss these issues, the challenge is to ensure that

cynaliadwy, oherwydd nid edrych ar yr agenda amgylcheddol yn unig yr ydym, ond edrych ar yr agenda economaidd, yr agenda gymdeithasol, yr agenda o ran adnoddau'r byd a'r agenda lles, i gyd ochr yn ochr â'i gilydd. Dyna pam mae'r pum prif ddangosydd mor gryf.

Mae'n hawdd i'r Aelodau weld y newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy yn ddwy ran o'r un peth, ond mae'n amlwg nad dyna ydynt. Un o ganlyniadau dramatig datblygu anghynaliadwy yw'r newid yn yr hinsawdd. Rhaid inni fod yn gwbl glir fod angen inni ymateb drwy weithio'n gytbwys yn y fath fodd ym mhob agwedd ar ein gwaith er mwyn ymateb yn gynaliadwy. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Aelodau am gymeradwyo'n gryfach eto egwyddor cynaliadwyedd.

Wrth inni sôn, er enghraifft, am sut y mae yn sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o bopeth a wnawn, yr wyf yn cydnabod yn llwyr ei fod yn her go iawn. Nid her i mi, y Gweinidog presennol yw hon yn unig, ond her i bob Gweinidog yn y Cabinet. Yn wir, mae'n her i bob Aelod o'r Cynulliad wrth barhau â'r ddyletswydd gyfreithiol hon. Mae'n rhywbeth a ddylai fod yn ein gwaed ni'r Aelodau yng Nghymru er mwyn bwrw ymlaen â hyn mor effeithiol ag y gallwn.

O ran y pwyntiau niferus a wnaeth yr Aelodau am brosiectau neu gynlluniau unigol, hawdd dweud nad yw prosiect neu gynllun wedi bod yn gynaliadwy, yn eich tyb chi, os nad ydych yn digwydd bod yn hoff ohono. Fodd bynnag, y peth pwysig yw a yw'r Llywodraeth wedi edrych ar y materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, a'r materion sy'n ymwneud â lles a'r adnoddau a ddefnyddir, wrth ffurfio barn am y polisi hwnnw. Os yw'r Llywodraeth wedi gwneud hynny, yna gellir dweud bod y polisi yn gwbl gynaliadwy. Yr ydym bellach yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod egwyddor cynaliadwyedd yn rhan annatod o'r hyn a wnawn fel Llywodraeth. Felly, mae'r adroddiad yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth, a honno wedi'i seilio ar waith sy'n cael ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru. Ni soniaf yn benodol am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, oherwydd bydd angen inni roi sylwadau ffurfiol arno maes o law. Fodd bynnag, ar ôl cyfarfod â

this is taken forward throughout the business planning of the Assembly Government.

Mike, you raised a question about how we keep that knowledge and understanding going, so that it is not just an annual report. It is the reason that we not only published these measurable indicators, against which we can be tested year on year, but we now have two debates every year on sustainable development, one of which is specifically on the indicators, so that we can be tested against them. However, I am afraid that, when you start to look at how to create appropriate indicators, it is an imperfect science. If you are leading the way, as we are in Wales, on the development of an ecological footprint, that is one area in which we are developing the data as we are looking at the development of that high-level indicator, as we are on issues around resource use, soil quality and the long-term chances of bird populations. It is difficult, in the short-term, to evaluate the long-term chances of particular bird populations. However, 78 per cent of these measurable indicators, many of which can be measured against other parts of the UK, are stable or increasing. I hope that the Assembly will continue to hold Ministers to account to ensure that these indicators inform policy development in future.

In closing, what we have tried to do in this report—it would be useful to have feedback from Members—is to use case studies in different ministerial responsibilities to bring home the fact that sustainable development is not just an environmental issue. Many people will see the words ‘green’, ‘environmental’ and ‘sustainability’ as interchangeable, so I was grateful to Chris Franks for highlighting the Heads of the Valleys programme. He highlighted the fact that the community, the environment and the economy are working hand in hand in taking a sustainable development initiative forward. The case studies in the report are clear examples of where all those factors have been adequately taken into account by the Government. So, I

chynrychiolwyr y swyddfa archwilio a'r cyfarwyddwyr cyffredinol i drafod y materion hyn, yr her yw sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â hyn wrth gynllunio holl fusnes Llywodraeth y Cynulliad.

Mike, gofynasoch gwestiwn ynghylch sut y mae sicrhau ein bod yn cael gwybodaeth a chymorth i ddeall y sefyllfa'n barhaus, yn hytrach na dim ond adroddiad blynyddol. Dyma pam yr ydym erbyn hyn nid yn unig wedi cyhoeddi'r dangosyddion mesuradwy hyn, er mwyn cael ein profi o'r naill flwyddyn i'r llall, ond hefyd bellach yn cynnal dwy ddatl bob blwyddyn am ddatblygu cynaliadwy, un ohonynt yn benodol am y dangosyddion, fel y gallwn gael ein profi ar eu sail. Fodd bynnag, wrth ddechrau edrych ar sut y mae creu dangosyddion addas, nid yw'r wyddoniaeth yn berffaith, gwaetha'r modd. A ninnau yng Nghymru yn arwain o ran datblygu ôl troed ecolegol, mae'n un maes lle yr ydym yn datblygu'r data a ddefnyddiwn wrth ddatblygu'r dangosydd lefel uchel hwnnw. Mae'r un peth yn wir am faterion sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau, ansawdd pridd a'r rhagolygon yn y tymor hir i boblogaethau adar. Fodd bynnag, mae 78 y cant o'r dangosyddion mesuradwy hyn, llawer ohonynt yn rhai y gellir eu cymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, yn sefydlog neu'n cynyddu. Yr wyf yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn dal i ofalu bod y Gweinidogion yn atebol er mwyn sicrhau bod y dangosyddion hyn yn sail i ddatblygu polisïau yn y dyfodol.

Wrth gloi, yr hyn yr ydym wedi ceisio'i wneud yn yr adroddiad hwn—a byddai'n fuddiol clywed sylwadau'r Aelodau—yw defnyddio'r astudiaethau achos o dan gyfrifoldebau'r gwahanol Weinidogion i bwysleisio nad mater amgylcheddol yn unig yw datblygu cynaliadwy. Bydd llawer o bobl yn credu bod y geiriau 'gwyrdd', 'amgylcheddol' a 'chynaliadwyedd' yn gyfystyr â'i gilydd, felly yr oeddwn yn ddiolchgar i Chris Franks am gyfeirio at raglen Blaenau'r Cymoedd. Pwysleisiodd y ffaith bod y gymuned, yr amgylchedd a'r economi i gyd yn gweithio law yn llaw er mwyn bwrw ymlaen â chynllun datblygu cynaliadwy. Mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad yn enghreifftiau amlwg sy'n

am grateful to Members for their contributions.

dangos pryd y mae'r Llywodraeth wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r holl ffactorau hynny. Felly, yr wyf yn ddiolchgar i'r Aelodau am eu cyfraniadau.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is an objection. Therefore, I defer all voting on this item until voting time.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, yr wyf yn gohirio'r holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

We have finished the debate early—in fact, we are ahead of the designated time for voting—so I propose to bring voting time forward. Does any Member object? I see not. Does anyone wish for the bell to be rung? I see not.

Yr ydym wedi gorffen y ddadl yn gynnar—yn wir, yr ydym wedi gorffen cyn y cyfnod a bennwyd ar gyfer pleidleisio—felly cynigiau ein bod yn dod â'r cyfnod pleidleisio yn ei flaen. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. A oes unrhyw un am imi ganu'r gloch? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM4464: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 22.
Amendment 1 to NDM4464: For 13, Abstain 0, Against 22.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4464: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 2.
Amendment 2 to NDM4464: For 34, Abstain 0, Against 2.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Franks, Chris
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Rhodri
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davidson, Jane
Watson, Joyce

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4464: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 23.
Amendmen 3 to NDM4464: For 13, Abstain 0, Against 23.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Law, Trish

Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Morgan, Rhodri
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

Cynnig NDM4464 fel y'i diwygiwyd: bod

Motion NDM4464 as amended: that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

the National Assembly for Wales

1. yn cydnabod pwysigrwydd llythrennedd i les economaidd a chymdeithasol Cymru;

1. recognises the importance of literacy to the economic and social wellbeing of Wales;

2. yn cefnogi datblygu cynllun gweithredu llythrennedd pedair blynedd sy'n targedu ysgolion cynradd ac sy'n canolbwyntio ar godi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol ac ar gau'r bwlch rhwng y rhywiau; ac

2. supports the development of a four-year literacy action plan targeted at primary schools and focused on raising attainment standards overall and on closing the gender gap; and

3. yn mynegi pryder ynghylch nifer y bobl ifanc 15 oed sydd â sgôr gymedrig mewn darllen sy'n is na chyfartaledd OECD.

3. expresses concern at the number of 15-year olds with a mean score in reading less than the OECD average.

*Cynnig NDM4464 fel y'i diwygiwyd: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
 Motion NDM4464 as amended: For 36, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton
 Asghar, Mohammad
 Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Burnham, Eleanor
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Davies, Paul
 Franks, Chris
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, Lesley
 Hutt, Jane
 Isherwood, Mark
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Melding, David

Millar, Darren
Morgan, Rhodri
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Williams, Brynle

*Derbyniwyd cynnig NDM4464 fel y'i diwygiwyd.
Motion NDM4464 as amended agreed.*

*Gwelliant1 i NDM4463: O blaid 12, Ymatal 0, Yn erbyn 23.
Amendment 1 to NDM4463: For 12, Abstain 0, Against 23.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Morgan, Rhodri
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4463: O blaid 23, Ymatal 13, Yn erbyn 0.
Motion NDM4463: For 23, Abstain 13, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hutt, Jane

James, Irene
Jones, Alun Ffred
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Morgan, Rhodri
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

The Deputy Presiding Officer: That brings **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â
today's proceedings to a close. chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 3.39 p.m.
The meeting ended at 3.39 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)

Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Irene (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Law, Trish (Annibynnol – Independent)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lloyd, Val (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)